



Adroddiad Blynyddol 2020-21

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg wedi ei baratoi yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 19(1) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 am y flwyddyn 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021, ynghyd â Thystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y cyfrifon.

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru ar 31 Awst 2021 yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 19 (2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.



Cynnwys

Rhan 1	
Adroddiad Strategol	3

Rhan 2	
Atebolrwydd	54

Rhan 3	
Datganiadau Ariannol	91



Yn ôl i'r prif
fynegai

Rhan 1

Adroddiad

strategol

Rhagair	4
Cipolwg ar y flwyddyn	6
Sefyllfa'r Gymraeg yn ehangach	9
Heriau'n wynebu Comisiynydd y Gymraeg	11
Hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg	12
i) Cyflwyno dyletswyddau	13
ii) Gweithredu dyletswyddau	15
iii) Gorfodi dyletswyddau	20
Hybu'r Gymraeg	25
i) Dylanwadu ar bolisi	26
ii) Datblygu isadeiledd y Gymraeg	29
iii) Hybu defnydd busnesau ac elusennau o'r Gymraeg	31
iv) Cyfathrebu	34
Rheoli a gweithredu	36
i) Sylwebaeth ar berfformiad ariannol	36
ii) Cydraddoldeb a Chomisiynydd y Gymraeg	46
ii) Materion staff	52
Cynlluniau ar gyfer 2021-22	53



Yn ôl i fynegai
adran

Rhagair

Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn, yr hyn fydd yn aros yn y cof yn gyffredinol, yw sut y bu'n rhaid i bob un ohonom feddwl yn wahanol, ail flaenoriaethu a gweithredu'n gyflym i sicrhau ein bod yn cyflawni. Gwelsom ganolfannau hamdden a theatrau yn cael eu troi'n ysbytai bron dros nos, gwelsom rieni ac athrawon yn jyglo popeth i sicrhau nad oedd addysg plant yn cael cam, gwelsom ddigwyddiadau o bob math yn cael eu canslo ond cymdeithasau'n canfod ffyrdd newydd i ddod ynghyd.

Fel sefydliad, pan wnaed y penderfyniad ychydig ddyddiau cyn dechrau blwyddyn ariannol 2020-21 y byddai holl staff yn gweithio o gartref oherwydd bygythiad iechyd cyhoeddus y feirws oedd yn prysur ledaenu drwy'r byd, ychydig a feddyliais y byddem yn dal i weithio felly adeg llunio'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar y cyfnod. Bu'n flwyddyn ryfedd ac anarferol, a buom yn wynebu heriau na welsom mo'u tebyg o'r blaen. Her ychwanegol inni fel sefydliad fu gorfod delio ag ymosodiad seibr difrifol cyn y Nadolig a effeithiodd ar ein systemau. Mae adran benodol yn yr adroddiad hwn yn ymdrin â'r hyn ddigwyddodd a sut wnaethom ymateb iddo. Yn fy sylwadau agoriadol, hoffwn dalu teyrnged i fy nhîm o swyddogion a wynebodd yr heriau hyn gyda gwytnwch, agwedd gadarnhaol a chreadigrwydd; ac a aeth ati i ail-flaenoriaethu a chynllunio i sicrhau bod y cyd-destun gwaith a'r ymosodiad yn cael yr effaith leiaf bosibl ar ein cenhadaeth a'n gwasanaeth i'r cyhoedd. Mae cyflwyno'r Adroddiad Blyneddol hwn, a'r ffaith bod y datganiadau ariannol, sydd wedi'u cynnwys, yn derbyn barn ddiamod Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn dyst i'r gwaith a wnaed i adfer ac ailgodi yn dilyn yr ymosodiad.

Rwy'n ysgrifennu'r geiriau hyn yn fuan wedi Etholiad Senedd Cymru ac wrth i'r llywodraeth newydd ddechrau ar y gwaith o gynllunio'i rhaglen ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Fy neges i'r llywodraeth yw bod agen rhoi meddylfryd beiddgar ar waith wrth ystyried sut i ddiogelu dyfodol y Gymraeg. Llundiaid argymhellion maniffesto ar gyfer y llywodraeth newydd. Rhai o brif negeseuon y ddogfen honno oedd bod angen cynyddu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu addysg i greu rhagor o siaradwyr Cymraeg; dal gafael yn y siaradwyr hynny drwy greu cyd-destun i'r iaith yn y byd gwaith; a chreu amodau ffafriol i'r Gymraeg ffynnu.

Un o'r pethau cyntaf wyf am weld y llywodraeth newydd yn ei wneud yw cyhoeddi rhaglen ar gyfer cyflwyno safonau'r Gymraeg i ragor o sefydliadau a sectorau. Mae ymchwil yn dangos fod profiad siaradwyr Cymraeg yn gwella wrth ddelio â sefydliadau sy'n gweithredu safonau, ond mae gormod o sefydliadau cymwys yn parhau i weithredu tu allan i'r gyfundrefn safonau ar hyn o bryd. Golyga hyn fod profiadau siaradwyr Cymraeg yn dal yn anghyson o sefydliad i sefydliad, neu bod gwasanaeth Cymraeg yn rhy aml dal yn dibynnu ar ewyllys da unigolion a rhywrai sy'n 'digwydd bod ar gael' sy'n medru'r iaith. Mae siaradwyr Cymraeg yn haeddu gwell na hyn, ac yn haeddu'r sicrwydd ddaw gyda'r safonau.



Yn ôl i fynegai
adran

Rhagair



Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

Edrychaf ymlaen, felly, at gydweithio gyda'r llywodraeth newydd i sicrhau bod newidiadau gwirioneddol yn cael eu cyflwyno i gynyddu'r cyfleon sydd ar gael i bobl yng Nghymru ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.



Yn ôl i fynegai
adran

Cipolwg ar y flwyddyn

Drafftio ac ymgynghori ar
godau ymarfer ar gyfer 78
o sefydliadau.



Cyhoeddi 7 o ddogfennau
cyngror arferion da i
sefydliadau.



Cynnal arolwg i effaith
COVID-19 ar wasanaethau
Cymraeg sefydliadau
cyhoeddus.



Cyhoeddi 22 o
argymhellion manffesto
ar gyfer y llywodraeth
newydd.



Llwyddo i gael Pwyllgor
Diwylliant, yr Iaith
Gymraeg a Chyfathrebu
i gynnal ymchwiliad
penodol ar effaith
COVID-19 ar y Gymraeg.





Yn ôl i fynegai
adran


Cipolwg ar y flwyddyn



Cynig
Cymraeg

Lansio'r cynllun y Cynig
Cymraeg i fusnesau ac
elusennau.

Darparu cyfieithu am ddim
i elusennau yn nyddiau
cynnar y pandemig.



Dathlu 15 mlynedd o'r
bathodyn Iaith Gwaith drwy
gynnal ymgyrch arbennig i
dynnu sylw at y cynllun.

Cyhoeddi nodyn cyngor
brys ar gynnal cyfarfodydd
fideo dwyieithog.



**Creodd COVID-19
heriau cymdeithasol
ac economaidd
nas gwelwyd o'r
blaen a rhoi straen
sylweddol ar
wasanaethau
iechyd a gofal.**





Yn ôl i fynegai
adran

Sefyilfa'r Gymraeg yn ehangach

Cafodd COVID-19 sgil effeithiau cymdeithasol ac economaidd ar bob elfen o gymdeithas yn 2020-21; ac er nad yw'r goblygiadau wedi dod yn amlwg eto ym mhob maes, mae lle i bryderu y bydd y sgil effeithiau cyffredinol hyn yn cael effaith anghymesur ar y Gymraeg.

Arweiniodd gwagio'r calendr cenedlaethol a lleol o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb at leihau'n sylweddol y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Er i nifer o sefydliadau a chymdeithasau droi at dechnoleg i gynnal presenoldeb a gweithgarwch, ni lwyddodd y digwyddiadau hyn i gau'r bwlch yn llwyr, a cholodd llawer fawr o bobl y cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn Gymraeg am flwyddyn a mwy.

Amlygodd y pandemig hefyd yr heriau hirdymor sy'n wynebu cymunedau â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, gan ddod â dadleuon am hygyrchedd y farchnad dai i bobl leol a sefydlogrwydd yr economi i'r wyneb. Bu cynnydd mawr yn y blynyddoedd diwethaf yn niferoedd y tai gaiff eu prynu fel ail gartrefi neu dai gwyliau, ac yn absenoldeb cyfleoedd economaidd o ansawdd i bobl leol yn yr ardaloedd hyn, mae'n arwain at farchnad dai sy'n aml

allan o gyrraedd y gymuned leol, gan arwain hefyd at ddiboblogi'r cymunedau o'u hieuenctid. Lleisiwyd pryderon y byddai'r pandemig yn arwain at gynydd yn y patrwm hwn a chodi prisiau tai ymhellach, gyda rhagor o bobl yn mudo o'r dinasoedd i gefn gwlad i fyw a gweithio o gartref yn rhan amser.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynom dystiolaeth i'r Llywodraeth a'r Senedd ar effaith COVID-19 ar y Gymraeg gan ganolbwyntio ar yr effaith ar y celfyddydau, chwaraeon, addysg a'r economi. Gallwch ddarllen rhagor am y gwaith hwn ar dudalen 27. Gwnaethom hefyd gynnal arolwg ar ddefnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau yn ystod cyfnod yr argyfwng - mae rhagor am hyn ar dudalen 17 a byddwn yn cyhoeddi'r canfyddiadau yn ein hadroddiad sicrwydd ar gyfer 2020-21.

Roedd ein pryderon am effaith y pandemig ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ymwneud â'r pwyntiau canlynol:

- o Effaith canslo digwyddiadau lleol a chenedlaethol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac ar barhad digwyddiadau i'r dyfodol.

- o Effaith canslo digwyddiadau a chau'r economi ar yr 'economy Gymraeg' sy'n cynnal ac yn cadw siaradwyr Cymraeg yn eu cymunedau.
- o Pryder y byddai cau'r ysgolion a'r diffyg cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg yn tanseilio hyder plant a phobl ifanc yn eu sgiliau.
- o Diffyg gwasanaethau iechyd meddwl ar gael yn Gymraeg i ymateb i'r cynnydd posibl yn y galw yn deillio o'r pandemig.
- o Yr angen i'r Gymraeg fod yn ganolog i gynlluniau ailgodi ar ôl y pandemig.



Brexit

Ar 24 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd eu bod wedi cytuno ar Gytundeb Masnach a Chydweithredu. Er i Lywodraeth Cymru gefnogi'r cytundeb, gellir casglu mai yn anfoddog y daeth i'r penderfyniad hwn, gan gyhoeddi nad dyma'r fargen yr oeddent ei eisiau, a bod penderfyniadau Llywodraeth y DU wedi gadael Cymru a'i chymunedau yn brin.

Yn ystod y flwyddyn, parhau wnaeth yr ansicrwydd am union effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar economi Cymru a sgil effaith hynny ar gymunedau Cymraeg, yn enwedig yn y sector amaethyddol. Roedd hefyd ansicrwydd am ffynonellau grantiau ac ariannu'r dyfodol. Cynhaliodd y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig ymgynghoriad ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin a fydd yn disodli'r cronfeydd Ewropeaidd, ac a fydd yn cael eu gweinyddu drwy'r cynghorau sir yn hytrach na thrwy Lywodraeth Cymru. Ymatebodd y Comisiynydd i'r ymgynghoriad gan dynnu sylw at nifer o brosiectau hyrwyddo'r Gymraeg a dderbyniodd nawdd o gronfeydd strwythurol Ewrop yn y gorffennol a'r angen i adeiladu ar hyn, a hefyd at gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weinyddu'r gronfa.

Addysg

Ar 9 Mawrth 2021, fe basiwyd Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gan y Senedd. Gwrthododd y Llywodraeth alwadau gan y Comisiynydd ac eraill i gyflwyno Cod Addysgu'r Gymraeg fel rhan o'r Bil. Er hyn, derbyniwyd y ddadl bod angen cynnig rhagor o gefnogaeth i ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog o safbwynt addysgu'r Gymraeg.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu a gweithredu fframwaith iaith Gymraeg fydd yn cynorthwyo athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog i helpu eu dysgwyr symud ar hyd continwrm iaith Gymraeg yn gyflymach ac yn fwy llwyddiannus.

Roedd y Comisiynydd yn falch y derbyniwyd y ddadl bod angen rhagor o gefnogaeth ar gyfer ysgolion Saesneg i addysgu'r Gymraeg ond yn siomedig nad arweiniodd hynny at ddiwygio'r Bil. Edrycha ymlaen at weld cyhoeddi'r fframwaith iaith Gymraeg i gefnogi athrawon ac ysgolion cyfrwng Saesneg fel y bônt yn gallu cyfrannu yn llawn at darged Llywodraeth Cymru y bydd 70 y cant o blant 15 oed yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2050.



Heriau'n wynebu Comisiynydd y Gymraeg

Mae'r adran Cynlluniau ar gyfer 2021-22 ar ddiwedd Rhan 1 yr adroddiad yn egluro ein rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bwriad yr adran hon yw amlygu rhai o'r heriau sy'n wynebu swyddfa'r Comisiynydd dros y cyfnod nesaf.

Fel bron pob sefydliad arall, mae sefyllfa COVID-19 wedi golygu newid i'n ffyrdd o weithio ac, er bod cyfyngiadau'n llacio erbyn hyn, mae rhai o'r addasiadau hynny'n debygol o fod yn rhai parhaol neu hirdymor. Mae'n holl staff wedi bod yn gweithio o gartref dros y cyfnod, ac yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn gweithio ar bolisi ar gyfer ein dull o weithio am y cyfnod nesaf. Yr her yw gwneud hynny mewn cyfnod lle mae elfen o ansicrwydd yn parhau.

Dioddefodd swyddfa'r Comisiynydd ymosodiad seibr difrifol ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r Datganiad Llywodraethiant yn Rhan 2 yr adroddiad hwn yn manylu ar yr ymosodiad seibr a'r ffrydiau gwaith gwahanol a gafodd eu gweithredu er mwyn ymateb i'r sefyllfa yn ystod 2020-21. Roedd effaith yr ymosodiad yn sylweddol, a chafodd ddylanwad ar bob elfen o'n gwaith yn ystod y flwyddyn. Yn ddi-os, bu chwarter olaf y cyfnod adrodd hwn yn un tu hwnt o heriol i'r swyddfa wrth i ni geisio ymateb i sgil effeithiau'r ymosodiad a pharhau i weithredu ein swyddogaethau a chynnig gwasanaeth i'r cyhoedd yr un pryd.

Er hynny, gyda chymorth asiantaethau allanol, ac ymrwymiad arbennig ein staff, cymerwyd camau breision i ail-godi yn dilyn yr ymosodiad. Mae gennym amgylchedd Technoleg Gwybodaeth (TG) newydd mewn lle sy'n ein galluogi i weithredu ein swyddogaethau'n effeithiol, ac mae gwaith yn parhau ar ddatblygu'r amgylchedd hwnnw yn unol â'n strategaeth trawsnewid TG corfforaethol. Bydd ein blaenoriaethau am y cyfnod nesaf yn cynnwys: lansio gwefan newydd; datblygu system CRM ar gyfer rheoli ein cysylltiadau gyda'r cyhoedd a chleientiaid; ail sefydlu systemau; a datblygu cronfa ddata newydd ar gyfer ein gwaith enwau lleoedd. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod ein hamgylchedd TG mor gadarn â phosibl wrth wynebu heriau cyson a chynyddol ymosodiadau seibr. Yr her fydd gweithredu'r rhaglen hon o drawsnewid a datblygu corfforaethol tra'n parhau i gyflawni ein swyddogaethau a'n rhaglen waith arferol yn effeithiol.

Byddwn yn datblygu Cynllun Strategol newydd yn ystod y flwyddyn a fydd yn gosod cyfeiriad strategol i'r sefydliad am y blynyddoedd nesaf. Bydd y cynllun yn amlygu gweledigaeth y Comisiynydd yn ogystal ag egluro ein gwerthoedd corfforaethol a'n hamcanion strategol.

Bydd hefyd yn gosod cyfeiriad i'n hymdrechion i ddal ati i roi Mesur y Gymraeg ar waith, ac yn egluro ein hamcanion eraill wrth hybu a hwyluso'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd y cynllun hefyd yn amlinellu beth fydd blaenoriaethau'r Comisiynydd wrth i ni fynd i gyfnod seneddol newydd yng Nghymru.

Cyhoeddodd y Comisiynydd argymhellion maniffesto yn 2020 yn amlygu beth yn ein tyb ni oedd y blaenoriaethau o safbwynt y Gymraeg ar gyfer cyfnod y Senedd nesaf wrth i'r pleidiau gwleidyddol ddechrau paratoi ar gyfer yr ymgyrch etholiadol yng ngwanwyn 2021. Roedd rhai o'r prif amcanion yn y maniffesto yn cynnwys yr angen i'r Llywodraeth newydd gytuno rhaglen gosod safonau fel bod rhagor o gyrff yn dod o dan y gyfundrefn honno, a phwyslais sylweddol ar y gyfundrefn addysg Gymraeg yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd ac wrth hyfforddi digon o athrawon i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn amcanu i gydweithio gyda'r Llywodraeth newydd ar ei rhaglen waith ar gyfer y Gymraeg ac yn herio hefyd pan fo angen. Byddwn yn defnyddio tystiolaeth ac ymchwil ein hadroddiadau allweddol, megis yr adroddiad sicrwydd a'r adroddiad 5-mllynedd ar sefyllfa'r Gymraeg, wrth gyflwyno dadleuon a dylanwadu.




Yn ôl i'r prif
fynegai

Tudalen

Cyflwyno dyletswyddau	13
Gweithredu dyletswyddau	15
Gorfodi dyletswyddau	20

Hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg





Yn ôl i fynegai
adran

Cyflwyno dyletswyddau



123 o sefydliadau yn gweithredu
safonau'r Gymraeg.



Rhoi hysbysiad cydymffurfio i 2
sefydliad newydd.



Drafftio ac ymgynghori ar godau
ymarfer ar gyfer 78 o sefydliadau.



Paratoi ar gyfer gosod safonau ar
gwmnïau rheilffyrdd.



Gwneud gwaith ymchwil ar
gyfer paratoi i osod safonau ar
gwmnïau cyfleustodau.



Cymeradwyo cynllun iaith
Gymraeg y Gwasanaeth
Carchar a Phrawf.



Gosod safonau

Mae'r Comisiynydd bellach wedi gosod hysbysiadau cydymffurfio ar 124 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gyda 123 o gyrff yn gweithredu safonau'r Gymraeg erbyn diwedd mis Mawrth 2021. Y sefydliadau newydd a osodwyd safonau arnynt yn ystod y cyfnod adrodd oedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a Choleg Catholig Dewi Sant - a fydd yn gweithredu safonau erbyn 31 Hydref 2021.

Ehangu hawliau

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliom ymchwil i sefyllfa gyfredol gwasanaethau rheilffyrdd, a pharatoi ar gyfer y gwaith o osod safonau ar wasanaethau dŵr a chyfleustodau eraill.

Mynegodd y Comisiynydd bryder a rhwystredigaeth nad oedd Llywodraeth Cymru'n symud yn ddigon cyflym wrth baratoi rheoliadau safonau'r Gymraeg. Yn y ddogfen 'Manifesto ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2021' a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020 fe wnaethom argymhell bod y pleidiau gwleidyddol yn ymrwmo i gyflwyno rheoliadau a fyddai'n ein galluogi i osod safonau ar sefydliadau sydd eisoes wedi bod drwy broses ymchwiliad safonau, a hefyd edrych ymhellach ar atodlenni Mesur y Gymraeg i archwilio sectorau pellach y gellid cyflwyno safonau iddynt.

Gwnaethom hefyd argymhell bod y pleidiau'n ymrwmo i gymryd pob cyfle i ddod ag endidau newydd dan y gyfundrefn safonau wrth i sefydliadau neu bartneriaethau newydd gael eu sefydlu.

Ymatebodd y Comisiynydd i ymgynghoriad ar reoliadau drafft rhif 8, sef rheoliadau sydd wedi eu llunio ar gyfer y sector proffesiynau iechyd. Cyflwynodd y Comisiynydd ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod haf 2020, fodd bynnag ymestynnwyd cyfnod yr ymgynghoriad hyd 10 Hydref 2020 oherwydd y pandemig. Gofynnodd y Llywodraeth hefyd i'r Comisiynydd am awgrymiadau ynghylch materion penodol o fewn y rheoliadau drafft. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg nad oedd yn bwriadu cyflwyno'r rheoliadau drafft hyn o fewn cyfnod y pumed Senedd oherwydd bod angen ystyried rhai materion penodol. Nid oes amserlen amgen ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau drafft hyn wedi ei chyhoeddi.

Cymeradwyo cynlluniau iaith Gymraeg

Mae rhai sectorau, megis cyrff y Goron yn parhau i weithredu cyfundrefn cynlluniau iaith dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, gan nad oes modd gosod safonau arnynt heb gydsyniad y Goron. Rydym wedi parhau i weithio gyda'r sefydliadau hyn, ac wedi cymeradwyo cynlluniau iaith newydd a diwygio eraill.

Datblygiad allweddol fu cymeradwyo Cynllun Iaith newydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi (HMPPS), cynllun oedd yn cynnwys ymateb y gwasanaeth i'n hadroddiad 'Cymraeg yn y Carchar' a gyhoeddwyd yn 2018. Mae sawl ymrwymiad newydd a phwysig wedi'i gynnwys o fewn y Cynllun Iaith, gan gynnwys cydnabyddiaeth o hawl unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yng Nghymru ac ymrwymadau sy'n ymwneud â hybu a hyrwyddo'r hawl hwnnw ymysg staff a charcharorion.

Cyhoeddi codau ymarfer

Yn ystod y flwyddyn, drafftwyd pedwar cod ymarfer ar gyfer rheoliadau rhif 2, 4, 5 a 6 (sy'n berthnasol i sefydliadau cyhoeddus cenedlaethol Cymru, tribiwnlysoedd, colegau a phrifysgolion, heddluoedd a'r gwasanaethau tân ac achub). Yn unol â gofyniad Mesur y Gymraeg i ymgynghori â'r cyrff effeithir gan y codau, cychwynnom ymgynghoriad ar 5 Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, sylweddolwyd fod yr ymgynghoriad wedi ei agor yn ganol cyfnod yr ymosodiad seibr, ac felly argymhellwyd i gyrff beidio ag agor yr atodiadau. Yn dilyn adfer systemau, ail-agorwyd cyfnod ymgynghori ar y codau ym mis Mawrth 2021.

Yn dilyn y broses ymgynghori, byddwn yn cyflwyno'r codau am gydsyniad Gweinidogion Cymru ac, ar ôl derbyn cydsyniad, byddant yn dod yn ddogfennau statudol. Rydym yn anelu at gyhoeddi'r codau yn ystod tymor yr hydref 2021.



Yn ôl i fynegai
adran

Gweithredu dyletswyddau



Cyhoeddi 7 o ddogfennau cyngor
arferion da i sefydliadau.



190 o gynrychiolwyr yn mynychu
digwyddiad rhithiol ar ofynion y
safonau llunio polisi.



Cynnal arolwg ar effaith
COVID-19 ar y Gymraeg mewn
sefydliadau cyhoeddus.



Cyhoeddi 'Cau'r Bwlch',
adroddiad sicrwydd ar ansawdd,
argaeledd a defnydd sefydliadau
cyhoeddus o'r Gymraeg.



82% o bobl sy'n ffafrio defnyddio'r
Gymraeg wrth ddelio â chyrff
cyhoeddus yn cytuno eu bod yn
gallu gwneud hynny.



70% o bobl yn cytuno bod
gwasanaethau Cymraeg
sefydliadau cyhoeddus yn
gwella.



Cau'r Bwlch, adroddiad sicrwydd 2019 - 2020

Cyhoeddwyd chweched adroddiad sicrwydd y Comisiynydd, 'Cau'r Bwlch', mewn digwyddiad rhithiol yn ystod haf 2020. Adroddiad yw hwn sy'n rhoi barn y Comisiynydd ar berfformiad sefydliadau cyhoeddus wrth iddynt ymdrin â'r Gymraeg.

Roedd y Comisiynydd o'r farn, er iddo weld cynnydd o ran argaeledd nifer o wasanaethau, a bod perfformiad ar y cyfan yn symud i'r cyfeiriad cywir, fod rhai materion yn parhau i'w bryderu ynghylch gallu siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau yn eu dewis iaith. Nododd, er enghraifft, fod rhaid gofalu nad yw trefniadau'n llacio o safbwynt gwasanaethau megis cyhoeddi dogfennau, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, a gwefannau yn Gymraeg.

Casglodd hefyd fod angen i sefydliadau fynd i'r afael o ddifri â'r cyfrifoldeb i hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg a gallu pobl i'w defnyddio, er mwyn gyrru newid o safbwynt y defnydd a wneir ohonynt.

Gyda golwg ar drefniadau cydymffurfio sefydliadau cyhoeddus, pwysleisiodd unwaith eto nad ymarferiad tic-yn-y-bocs yw cydymffurfio â dyletswyddau

statudol. Mae'n hanfodol i sefydliadau weithio er mwyn deall profiadau defnyddwyr, ac ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu cynnig. Roedd y Comisiynydd yn falch o weld bod sefydliadau wedi sefydlu trefniadau boddhaol ar gyfer cyfieithu, a bod y costau wedi eu hamsugno i'w costau arferol.

Ym maes sgiliau, nododd fod cynnydd wedi ei wneud wrth asesu sgiliau staff, a bod angen parhau nes bod sgiliau 100% o'r gweithlu'n cael eu hasesu'n flynyddol. Ar sail gwaith arolygu, roedd hi'n amlwg fod nifer o weithgareddau'n digwydd er mwyn gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy o fewn sefydliadau, a rhoi cyfle i gydweithwyr ddefnyddio'r iaith. Ond nid oedd y Comisiynydd yn teimlo ei fod wedi gweld shift o ddifri tuag at ddefnydd sylweddol o'r Gymraeg fel iaith gweinyddu mewnol.

Yn olaf, o ran hybu'r Gymraeg, nododd fod trefniadau'n bodoli i ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, ond mai arwynebol ydynt o hyd. Cyfeiriodd hefyd at bwysigrwydd y safonau hybu sydd wedi eu gosod ar gynghorau sir a pharciau cenedlaethol, a'r cyfle euraidd sy'n deillio o'r gofyniad i asesu llwyddiant y set gyntaf o strategaethau hybu a pharatoi rhai newydd ar gyfer y 5-mllynedd nesaf.

Cyhoeddi dogfennau cyngor arferion da

Er mwyn annog sefydliadau i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol, cyhoeddom saith dogfen gyngor arferion da yn ystod y flwyddyn, sef:

- Goruchwyllo cydymffurfiaeth;
- Cofnodi a rhannu dewis iaith;
- Polisi dyfarnu grantiau;
- Safonau llunio polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- Llunio adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg;
- Recriwtio; a
- Hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Cynhaliom ddigwyddiad ar-lein i gyd-fynd â chyhoeddi'r ddogfen gyngor ar gydymffurfio â'r safonau llunio polisi, gan gynnig arweiniad i sefydliadau ar ba bryd a phwy ddylai ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, yn ogystal â chynnig methodoleg ar gyfer y broses dan sylw. Ymunodd dros 190 o swyddogion a phenaethiaid sefydliadau cyhoeddus â'r digwyddiad. Mae fideo o'r digwyddiad i'w gweld ar ein sianel YouTube.



Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn dan sylw, comisiynwyd darparwyr allanol i lunio dwy ddogfen gyngor arferion da ychwanegol, a hynny mewn ymateb i ganfyddiadau gwaith arolygu blaenorol y Comisiynydd. Mae'r ddogfen gyntaf yn ymwneud â darparu arweiniad i gynghorau sir ac awdurdodau parciau cenedlaethol ar asesu cyrhaeddiad eu strategaethau hybu. Mae cynghorau sir a pharciau cenedlaethol wedi pennu amryw o dargedau gwahanol ar gyfer eu strategaethau 5-mlynedd. Er mai mater i'r sefydliadau eu hunain yw mesur cynnydd yn erbyn eu targedau, mae'r ddogfen gyngor hon yn darparu arweiniad ar yr agweddau canlynol:

- o Gwybodaeth gyfredol am fethodolegau a ffynonellau data i'w defnyddio er mwyn asesu i ba raddau y maent wedi dilyn eu strategaethau hybu ac wedi cyrraedd y targedau a osodwyd ganddynt.
- o Cynigion ynghylch y dulliau gorau i fonitro cynnydd cyn mynd ati, yn unol â safon 145, i gyhoeddi fersiynau diwygiedig o'r strategaethau 5-mlynedd.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r ddogfen gyngor bellach wedi cael ei chyhoeddi, ac fe gynhaliwyd digwyddiad rhithiol gyda chynrychiolwyr o gynghorau sir a pharciau cenedlaethol Cymru i drin a thrafod y gwaith o asesu cyrhaeddiad eu strategaethau 5-mlynedd yn ogystal â sut i fynd ati i lunio strategaeth newydd.

Gyda golwg ar y ddogfen arall, mae byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yn gorfod cydymffurfio gyda safon 110, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018, sy'n dweud bod rhaid iddynt gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod 5 mlynedd, sy'n nodi i ba raddau y maen nhw'n gallu cynnig ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg, y camau y maen nhw'n bwriadu eu cymryd i gynyddu eu gallu i gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg, ac amserlen ar gyfer y camau y maen nhw wedi rhoi manylion amdanynt. Darparu arweiniad ar safon 110 yw ffocws yr ail ddogfen gyngor, ac fe fydd hi'n cael ei chyhoeddi yn hwyrach yn 2021-22.

Astudiaeth ar effaith COVID-19

Yn ystod ail hanner 2020-21, cynhaliom astudiaeth thematig ar effaith COVID-19 ar ddarpariaeth Gymraeg sefydliadau cyhoeddus. Pwrpas yr astudiaeth oedd dysgu beth oedd effaith yr argyfwng ar brofiadau defnyddwyr a staff sefydliadau cyhoeddus; deall pa mor gadarn a gwreiddiedig yw trefniadau sefydliadau ar gyfer cydymffurfio ac ystyried y Gymraeg; adnabod rhwystrau i barhad y ddarpariaeth Gymraeg, ar lefel sefydliad unigol neu'n systemig; a chanfod enghreifftiau o arloesi ac arferion da y mae sefydliadau wedi eu gweithredu er mwyn diogelu'r ddarpariaeth Gymraeg.

Anfonwyd holiadur at bob sefydliad sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg, ac fe dderbyniwyd cyfanswm o 121 o ymatebion.

Caiiff canlyniadau a chanfyddiadau llawn yr arolwg eu cyhoeddi fel rhan o adroddiad sicrwydd 2021.



Yn ôl i fynegai
adran

Arolwg o'r ffordd mae sefydliadau'n cydymffurfio â safonau

Mae'n ofynnol bod gan sefydliadau ddogfennau penodol sy'n delio â'r ffordd maent yn cydymffurfio â'r safonau; ac yn ôl yr arfer, cynhaliom arolwg o'r dogfennau hyn yn ystod 2020-21 Roedd 118 o sefydliadau'n destun i'r arolwg.

Arolwg o brofiadau siaradwyr Cymraeg

Yn unol â'r arfer blynyddol, fe wnaethom gomisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg Beaufort Research. Cwblhawyd a dadansoddwyd cyfanswm o 424 o gyfweiliadau a gynhaliwyd ar-lein.

Eto, darlun cymysg ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'r canfyddiadau. O safbwynt y bobl hynny sy'n ffafrio defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â chyrff cyhoeddus, roedd 82% ohonynt yn cytuno eu bod, fel arfer, yn gallu delio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny; ac roedd 70% ohonynt yn cytuno bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella – cynnydd bychan o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

Er hynny, daeth i'r amlwg fod rhai meysydd y dylai sefydliadau cyhoeddus wella arnynt i hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg a'i gwneud hi'n glir i'r cyhoedd sut i gwyno os ydynt yn anfodlon â'r gwasanaeth.

Caiff canfyddiadau'r arolwg eu cyhoeddi'n llawn yn adroddiad sicrwydd 2020-21.

Cyfarfodydd adborth

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, bu swyddogion yn cynnal cyfarfodydd adborth gyda sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg neu gynllun iaith Gymraeg. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i sefydliadau ddysgu am eu perfformiad wrth gydymffurfio â gofynion penodol, megis gwasanaethau ffôn, derbynfa, gwefannau, a gohebiaeth. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn gyfle i drafod trefniadau'r sefydliadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, sut maen nhw'n hybu a hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg er mwyn cynyddu defnydd, trafodaeth ar sgiliau'r gweithlu a sut i gynyddu capasiti mewnol.

Un agwedd bwysig hefyd yw trafod unrhyw arferion effeithiol neu risgiau wrth gydymffurfio sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod adrodd diweddaraf. Roedd y rhaglen o gyfarfodydd ar fin cael ei chwblhau cyn i'r sefydliad fod yn destun ymosodiad seibr. O ganlyniad, bu rhaid canslo rhai cyfarfodydd adborth oedd yn y calendr ar gyfer mis Rhagfyr 2020.

Cynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, mae swyddogion wedi dechrau gweithio ar brosiect cyffrous a phwysig gyda'r nod o hwyluso cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan staff sefydliadau cyhoeddus wrth eu gwaith – yn ysgrifenedig a llafar, yn ffurfiol ac anffurfiol.

Rydym wedi dechrau ar waith ymchwil cefndirol y prosiect gan edrych i ddysgu gan randdeiliaid am y cyfleoedd a rhwystrau sydd yn codi wrth weinyddu yn y Gymraeg.



Yn ôl i fynegai
adran

Rydym wedi dechrau nodi arferion effeithiol, datblygu perthynas gyda sefydliadau sy'n arwain prosiectau amgen, ac ystyried gwaith ymchwil academiaidd am ddefnydd iaith. Rydym wedi cwrdd â rhanddeiliaid gan gynnwys 5 o gyrff cyhoeddus sydd â dros draean o'u gweithluoedd yn siarad Cymraeg, Llywodraeth Cymru (sydd wedi bod yn rhoi ei strategaeth defnydd mewnol 'Cymraeg, mae'n perthyn i ni gyd' ar waith), yn ogystal â chynnull cyfarfod gyda 6 o sefydliadau sydd eisoes yn gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y prosiect yn parhau i ddatblygu dros gyfnod cynllunio strategol nesaf y Comisiynydd, gyda'r nod o ddarparu pecyn arloesi sy'n cynnwys dulliau hybu a hyrwyddo defnydd mewnol o'r Gymraeg sy'n seiliedig ar ymchwil ac arferion effeithiol, dulliau newid ymddygiad a datblygiadau technolegol.



Yn ôl i fynegai
adran

Gorfodi dyletswyddau



133 o gwynion dilys wedi eu derbyn: 117 am safonau'r Gymraeg a 16 am gynlluniau iaith.



Agor 46 ymchwiliad: 45 i gydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg ac 1 i gydymffurfiaeth â chynllun iaith.



Dyfarnu ar 28 ymchwiliad a 60 safon unigol.



Ymyrryd mewn dau achos cyfreithiol.



Dyfarnwyd bod methiant i gydymffurfio â 38 safon unigol, ac na fu methiant i gydymffurfio â 22 safon unigol arall.



85% o'r cwynion a ddyfarnwyd arnynt yn ymwneud â safonau cyflenwi gwasanaethau.



Yn ôl i fynegai
adran

Safonau'r Gymraeg: Cwynion a gwaith gorfodi

Gwybodaeth am weithrediad polisi gorfodi'r Comisiynydd ac ymchwiliadau i gwynion a gynhaliwyd gan y Comisiynydd rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.

Nifer y cwynion dilys dderbyniwyd	117
Nifer yr ymchwiliadau i gwynion agorwyd	45
Nifer yr ymchwiliadau y dyfarnwyd arnynt	28
Nifer yr ymchwiliadau ar agor ar 31 Mawrth	49
Nifer y safonau unigol (nid ymchwiliadau) y dyfarnwyd arnynt	60
Nifer y dyfarniadau o fethiant i gydymffurfio â safonau unigol	38
Nifer y dyfarniadau na fu methiant i gydymffurfio â safonau unigol	22

Categori'r cwynion y dyfarnwyd arnynt

– Cyflenwi Gwasanaethau	51
– Gweithredu	3
– Llunio polisi	6

Dyfarniadau gorfodi a osodwyd

– Peidio Gweithredu Ymhellach	17
– Rhoi argymhellion i'r sefydliad neu unrhyw berson arall	8
– Cymryd camau i atal methiant	31
– Rhoi cyngor i'r sefydliad neu unrhyw berson arall	2
– Paratoi cynllun gweithredu	2

Cynlluniau iaith: Cwynion

Cyfanswm cwynion cynlluniau iaith	32
Nifer y cwynion dilys dderbyniwyd	16
Nifer y cwynion annilys	16
Nifer yr ymchwiliadau agorwyd	1



Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Ni wnaed unrhyw gais i gynnal ymchwiliad i ymyrraeth â rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Gyda llai o gyswllt rhwng unigolion o ganlyniad i gyfyngiadau'r cyfnod clo, mewn gweithleoedd ac yn gymdeithasol, ac nid yw diffyg ceisiadau yn ystod y flwyddyn hon yn syndod.

Er na wnaed ceisiadau i'r Comisiynydd gynnal ymchwiliad, dangosodd canlyniadau Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg Beaufort Research a gynhaliwyd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020 fod 20% o ymatebwyr yn nodi fod rhywun wedi eu rhwystro rhag siarad Cymraeg gyda rhywun arall oedd hefyd eisiau siarad Cymraeg. Mae'r ganran hon yn gynnydd o'r 15% a nododd eu bod wedi profi ymyrraeth yn 2019. O ystyried y nifer isel o geisiadau yr ydym wedi eu derbyn ar hyd y blynyddoedd ochr yn ochr â'r ystadegyn hwn, rydym yn casglu bod lle i ni godi ymwybyddiaeth cyffredinol am Rhan 6 Mesur y Gymraeg.

Effaith COVID-19

Ddiwedd mis Mawrth 2020, roedd 79 ymchwiliad i gydymffurfiaeth â safonau ar agor. Roedd y mwyafrif yn ymchwiliadau i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru, gyda nifer llai o ymchwiliadau i fyrdau iechyd a sefydliadau eraill o wahanol sectorau. Yn sgil datblygiad y pandemig, ysgrifennodd y Comisiynydd at bob bwrdd iechyd yn dweud y byddai'n oedi unrhyw ymchwiliadau oedd ar y gweill, ac na fyddai'n cychwyn ymchwiliadau newydd, hyd nes y byddai'r argyfwng wedi pasio.

Ysgrifennodd hefyd at bob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru yn gofyn iddynt a oeddent mewn sefyllfa i barhau i ymateb i geisiadau am wybodaeth am gwynion newydd ac ymchwiliadau oedd ar y gweill, gan ymrwymo i atal y broses o ddelio â chwynion a pharhau ag ymchwiliadau hyd nes bod y pwysau ar eu gwasanaethau wedi lleihau, os nad oeddent mewn sefyllfa i wneud hynny.

Gofynnodd 16 o awdurdodau lleol i'r Comisiynydd oedi'r camau nesaf. Gofynnodd Gweinidogion Cymru i gael oedi camau nesaf rhai ymchwiliadau ond nid eraill, ar sail gallu'r adran dan sylw i ymateb.

Gwnaed y penderfyniad hwn o dan adran 11 (1) Mesur y Gymraeg, sy'n nodi y caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol yn ei dyb ef mewn cysylltiad ag unrhyw un o'i swyddogaethau, a gwnaed y penderfyniad er mwyn osgoi rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus. Roedd y Comisiynydd yn awyddus i ymateb yn gyflym i'r sefyllfa er mwyn cynorthwyo ymdrechion i atal ymlediad y firws a rhoi gofal i ddioddefwyr.

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y Comisiynydd yn parhau i dderbyn cwynion gan y cyhoedd, yn unol â'i ddyletswydd dan adran 93 Mesur y Gymraeg. Lle roedd sefydliad wedi nodi ei fod mewn sefyllfa i ymateb ac i ddarparu gwybodaeth, roedd y Comisiynydd yn parhau i wneud penderfyniadau i ymchwilio ai peidio i'r cwynion hynny dan adran 71 Mesur y Gymraeg. Lle roedd sefydliad wedi nodi nad oedd mewn sefyllfa i ymateb, cadwyd cofnod o'r cwynion hynny, a gwnaed penderfyniad i ystyried agor ymchwiliad i'r cwynion pan y byddai'n ail afael yn y gwaith.



Penderfynwyd ail afael yn yr ymchwiliadau oedd wedi eu hoedi ym mis Awst 2020 gan fod y pwysau ychwanegol roddodd ymateb i argyfwng COVID-19 wedi gostegu'n sylweddol erbyn hynny, a bod llawer o drefniadau'r awdurdodau cyhoeddus un ai wedi dychwelyd i'r hyn arferai fod cyn yr argyfwng, neu fod trefniadau newydd ac wedi eu sefydlu.

Cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod o oedi

Rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2020, dim ond 26 cwyn a dderbyniwyd, gostyngiad sylweddol iawn o'i gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2019. Roedd hyn yn gyson â'r ffigyrau oedd yn cael eu hadrodd gan sefydliadau eraill â rôl o dderbyn cwynion gan y cyhoedd.

Roedd mwyafrif y cwynion a dderbyniwyd yn y cyfnod hwnnw yn ymwneud mewn rhyw ffordd â'r pandemig, gan gynnwys cwynion am y canlynol:

- o yr 'ap' ffôn ar gyfer tracio ac olrhain;
- o cyhoeddiadau brys ar gyfryngau cymdeithasol cyrff cyhoeddus;
- o cyhoeddiadau brys ar wefannau cyrff cyhoeddus;
- o cynhadledd i'r wasg dyddiol Llywodraeth Cymru;

- o gohebiaeth am aildrefnu gwasanaethau cyhoeddus;
- o arwyddion mewn canolfannau profi; a
- o dogfennau'n egluro'r broses hunan ynysu.

Ymyrryd mewn achosion cyfreithiol

Yn dilyn penderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i ad-drefnu ysgolion yn ardal Pontypridd, gwnaeth grŵp o ymgyrchwyr lleol gais am adolygiad barnwrol. Roeddent yn honni y byddai'r penderfyniad yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, a bod y Cyngor wedi methu ag ystyried ffactorau penodol ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu gael gwared ar chweched dosbarth.

Yn y cais am adolygiad barnwrol, cyfeiriodd y grŵp ymgyrchu at ymchwiliad yr oedd y Comisiynydd yn ei gynnal i gydymffurfiaeth y Cyngor â rhai o safonau'r Gymraeg wrth i'r cyngor wneud y penderfyniad, a'i ddyfarniad arfaethedig fod y cyngor wedi torri'r safonau hynny.

Penderfynodd y Comisiynydd ymyrryd yn yr achos er mwyn sicrhau fod y Llys yn meddu ar yr wybodaeth gywir ynglŷn â statws ei ymchwiliad a'i ddyfarniad; yn ymwybodol o'i ddyfarniad arfaethedig nad oedd y cyngor wedi cydymffurfio â'r safonau oedd yn ymwneud â dogfennau ymgynghori wrth benderfynu cau'r ysgol; ac yn glir ynglŷn â'r gwahaniaethau rhwng y ddyletswydd ar y Cyngor i ystyried effaith penderfyniadau ar y Gymraeg o dan gyfundrefn safonau'r Gymraeg a chyfundrefn y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Dyfarnodd y barnwr fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, a daeth i'r casgliad ei fod wedi methu ag ystyried yr effaith ar y cymunedau oedd yn cael eu gwasanaethu gan yr ysgol; yr effaith ar gynaliadwyedd addysg uwchradd Cymraeg yr ardal; a sut y byddai eu penderfyniad yn cyfrannu at nod strategol y Llywodraeth a'r cyngor o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffurfiol na'r Saesneg.



Wedi hyn, cyflwynodd y Cyngor apêl yn erbyn dyfarniad yr Uchel Lys, a rhoddwyd caniatâd i'r Comisiynydd ymyrryd yn yr achos hwn yn ogystal. Roedd ei ymyrraeth yn ymwneud â sicrhau bod statws swyddogol y Gymraeg yn cael ei pharchu a bod y Llys yn cymryd ymagwedd briodol wrth ystyried deddfwriaeth ddwyieithog; yr angen i gael barnwr sy'n medru'r Gymraeg pan fo mater gerbron y Llys yn ymwneud â dehongli fersiwn Gymraeg o'r statud; ac y dylai'r Llys fod yn ymwybodol a rhoi sylw dyladwy i faterion ehangach yn ymwneud ag effaith y penderfyniad ar y Gymraeg.

Roedd y barnwyr yn cydnabod y gallai fod yn ddymunol iawn mewn rhai achosion i'r Llys feddu ar arbenigedd yn y Gymraeg, ond nad oedd yn hanfodol yn yr achos hwn, ac roedd o'r farn fod y Llys wedi llwyddo i ddehongli testun Cymraeg adrannau perthnasol y ddeddfwriaeth yn gywir ac wedi llwyddo i ymdrin â'r ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal. Diddymodd y Llys Apêl ddyfarniad yr Uchel Lys.

Mae'r Comisiynydd o'r farn, fel nododd mewn gohebiaeth at Brif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar 20 Mai 2021, mai dim ond drwy benodi barnwr sy'n siarad Cymraeg i glywed yr holl hawliad (neu ran ohoni), heb gymorth, y gellir dehongli'r statud Cymraeg yn llawn ac yn briodol. Dim ond siaradwr Cymraeg all feddu ar yr arbenigedd ieithyddol a chyfreithiol sy'n ofynnol. Mae'r broses ddehongli, yn y bôn, yn swyddogaeth farnwrol. Mae'n dilyn o reidrwydd felly mai'r unig ffordd o sicrhau bod y broses yn cael ei chyflawni'n iawn, yw fod y mater yn cael ei glywed gerbron barnwr sy'n siarad Cymraeg.

Er nad oedd y Llys Apêl wedi ei berswadio o berthnasedd ymchwiliad y Comisiynydd mae'n parhau'n wir os y bydd awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r safonau, y mwyaf cadarn fydd y broses benderfynu. Bydd hyn yn ei gwneud yn llawer anos i hawlydd herio'r penderfyniad polisi ar y sail y bu methiant i ystyried effaith y penderfyniad polisi ar y Gymraeg am dorri cyfundrefn arall.


Amlygodd yr achos hwn ddiffyg dealltwriaeth sylfaenol o ofynion y safonau llunio polisi gan awdurdodau cyhoeddus. Daeth yn amlwg fod rhai awdurdodau o'r farn nad oedd y ddyletswydd i ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg yn unol â gofynion y safonau mewn grym os oedd gofyniad gwahanol i asesu effaith eu penderfyniadau yn bodoli mewn deddfwriaeth arall. Cadarnhaodd nad oedd y safbwynt hwn yn gywir a bod y ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yn annibynnol ac yn ychwanegol i ddyletswyddau eraill. O ganlyniad i hyn, bydd y Comisiynydd yn ymgymryd â rhaglen o weithgareddau addysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth awdurdodau o ofynion y safonau llunio polisi, ac i wella lefelau cydymffurfiaeth.




Yn ôl i'r prif
fynegai

	Tudalen
Dylanwadu ar bolisi	26
Datblygu isadeiledd y Gymraeg	29
Hybu defnydd busnesau ac elusennau	31
Cyfathrebu	34

Hybu'r Gymraeg



Dewch am sgwrs
Let's talk





Yn ôl i fynegai
adran

Dylanwadu ar bolisi



Llwyddo i gael Pwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chyfathrebu i gynnal ymchwiliad penodol ar effaith COVID-19 ar y Gymraeg.



Cyhoeddi adroddiad ar addysg athrawon. Cytunodd y Gweinidog Addysg â'n hargymhelliad bod angen strategaeth gweithlu addysg.



Llwyddo i sicrhau y byddai corff newydd Llais y Dinesydd yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg.



Cyhoeddi 22 o argymhellion maniffesto ar gyfer y llywodraeth newydd.



Sicrhau ymrwymiad y Llywodraeth y bydd cymorth arbennig yn cael ei roi i'r rhai sy'n addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.



Llwyddo i ddylanwadu ar Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr i gynnig yr arholiadau cymhwyso newydd yn Gymraeg.



COVID-19

Cyflwynom ymatebion i nifer o ymgynghoriadau gan bwyllgorau Senedd Cymru ar effaith COVID-19 ar feysydd o fewn cylchoedd gwaith y Pwyllgorau, gan gynnwys addysg a diwylliant, ac i ymgynghoriad gan y Pwyllgor Materion Cymreig i effaith COVID-19 ar economi Cymru. Rhoesom hefyd sylwadau ar ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ynghylch ailgodi Cymru yn dilyn COVID-19 a Brexit.

Gwnaethom gais i'r Pwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chyfathrebu i gynnal ymchwiliad penodol ar effaith y pandemig ar y Gymraeg. Derbyniwyd y cynnig hwnnw, a bu'r Comisiynydd yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Un o argymhellion y Pwyllgor, ac un a dderbyniwyd gan y Llywodraeth, oedd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau na fyddai ailddyrrannu cyllid y Gymraeg yn y tymor byr, oherwydd y pandemig, yn arwain at ddyraniadau cyllid tymor hwy a allai dynnu oddi ar gyflawni nodau *Cymraeg 2050*.

Addysg

Oherwydd pwysigrwydd addysg Gymraeg er mwyn creu siaradwyr Cymraeg newydd a chyrraedd targedau strategaeth Cymraeg 2050 rhoddwyd llawer o sylw i ddatblygiadau yn y maes addysg yn ystod y flwyddyn. Buom yn ceisio

sicrhau bod Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn gwneud darpariaethau ar gyfer cod ymarfer ar addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion Saesneg. Er bod cefnogaeth gyffredinol i hyn gan nifer o fudiadau iaith a chan rhai o'r gwrthbleidiau gwrthodwyd gwelliant o'r fath. Fodd bynnag, rydym yn obeithiol y bydd y fframwaith iaith Gymraeg a addawyd gan y Gweinidog yn hytrach na chod ymarfer yn rhoi cymorth arbennig i'r rhai sy'n addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Yn gysylltiedig â datblygiadau'r cwricwlwm rhoesom sylwadau mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio categorïau ieithyddol ysgolion. Rydym wedi dadlau'n gyson y dylai'r categorïau hyn fod yn rhai statudol felly roeddem yn siomedig mai categorïau anstatudol a gynigiwyd. Roeddem yn bryderus hefyd y byddai'r hyn a gynigiwyd ar gyfer y sector uwchradd yn gam yn ôl o'r sefyllfa anfoddhaol bresennol.

Heb athrawon a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu'r iaith fel pwnc ni fydd modd cynnal addysg Gymraeg na chyrraedd targedau strategaeth Cymraeg 2050. Cyhoeddom nodyn briffio yn amlinellu'r her sy'n wynebu'r maes i sicrhau bod digon o athrawon yn medru'r Gymraeg gan argymell

yr angen ar gyfer strategaeth gweithlu addysg tymor hir a bod angen i gyrsiau hyfforddiant addysg gychwynnol athrawon ddatblygu sgiliau Cymraeg holl ddarpar athrawon.

Cyfrannwyd hefyd at adolygiad Llywodraeth Cymru o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a llwyddwyd i sicrhau y byddai'r adolygiad yn ystyried addysg o'r blynyddoedd cynnar ymlaen ac nid addysg ôl-16 yn unig, oherwydd y cynnydd y mae'r Llywodraeth yn ei arfaethu mewn addysg Gymraeg yn sgil strategaeth *Cymraeg 2050*.

Iechyd

Mae pwysigrwydd darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn y Gymraeg yn flaenoriaeth i'r Comisiynydd ac rydym o'r farn bod angen cynllunio llawer yn well ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny. Ymatebwyd i nifer o ymgynghoriadau yn y sector hwn gan dynnu sylw bob tro ar yr angen i roi rhagor o ystyriaeth i'r Gymraeg wrth ddatblygu'r polisïau. Ymatebwyd i ymgynghoriadau ym maes gwasanaethau awtistiaeth; pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion; therapi iaith a lleferydd; gofaldwyr; pobl hŷn, Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol a nifer ym maes gwasanaethau cymdeithasol.



Yn ôl i fynegai
adran

Yn benodol nodwyd bod angen i'r asesiadau poblogaeth y mae gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu cynnal yn sgil Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 roi llawer mwy o ystyriaeth i anghenion iechyd a gofal siaradwyr Cymraeg. Cydnabu'r Llywodraeth bod angen iddynt wneud hynny ac mae'n bwriadu darparu rhagor o gefnogaeth iddynt wneud hynny a chefnogi gweithrediad safonau'r Gymraeg.

Llwyddwyd hefyd i gryfhau ymrwymadau at y Gymraeg yn laith, Lleferydd a Chyfathrebu: Cynllun Cyflawni 2020 i 2022 Llywodraeth Cymru.

Argymhellion ar gyfer llywodraeth 2021-26

Cyhoeddodd ddogfen maniffesto ar gyfer etholiad 2021 a oedd yn cynnwys 22 argymhelliad i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg a sicrhau bod y llywodraeth newydd ar y llwybr cywir i wireddu targedau *Cymraeg 2050*.

Dosbarthwyd yr adroddiad i'r pleidiau gwleidyddol yn ystod haf 2020, a chynhaliwyd cyfarfodydd unigol â llefarwyr y Gymraeg a swyddogion polisi'r prif bleidiau i drafod yr argymhellion. Cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu

ar y cyfryngau traddodiadol a'r rhai cymdeithasol yn ogystal ar y cyd â nifer o bartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol i dynnu sylw at yr argymhellion. Roedd y rhain yn cynnwys darlledu trafodaeth rhwng y Comisiynydd a Phrif Weithredwr y Mudiad Meithrin i wyntyllu'r argymhellion am ofal plant ac addysg blyneddodedd cynnar, a rhwng y Comisiynydd a chomisiynwyr iaith New Brunswick ac Ontario er mwyn deall sut mae'r cynnig rhagweithiol yn y maes iechyd wedi gwreiddio yn eu taleithiau nhw yng Nghanaada. Byddwn yn asesu llwyddiant y gwaith ac yn gobeithio y bydd y llywodraeth nesaf yn eu hystyried o ddifri wrth gynllunio ei rhaglen lywodraethu a deddfwriaeth.

Amaeth

Ymatebwyd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Bapur Gwyn Bil Amaeth (Cymru) sy'n ymwneud â'r newidiadau i ffermio a'r cymorth a roddir i ffermwyr yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig, ac felly Cymru, â'r Undeb Ewropeaidd. Roeddem yn bryderus nad oedd ystyriaeth ddigonol i effaith y cynigion ar gymunedau Cymraeg amaethyddol oherwydd eu pwysigrwydd i barhad yr iaith Gymraeg yn gymunedol.

Cyfiawnder

Yn ystod y flwyddyn buom yn parhau â'r trafodaethau gyda'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr i geisio eu perswadio i gynnig yr arholiad newydd ar gyfer cymhwyso cyfreithwyr yn y Gymraeg. Bu hwn yn fater trafod rhyngom â nhw ers nifer o flynyddoedd, a braf oedd derbyn cadarnhad gan yr awdurdod yn ystod haf 2020 eu bod yn derbyn ein dadleuon, a bod trefniadau yn mynd rhagddynt i gynnig yr arholiad yn Gymraeg i ddarparu ymgeiswyr.



Yn ôl i fynegai
adran

Datblygu isadeiledd y Gymraeg



Cyhoeddi nodyn cyngor brys
ar gynnal cyfarfodydd fideo
dwyieithog.



Cyfrannu at sicrhau bod
holiaduron y Cyfrifiad (papur ac
ar-lein) yn hawdd eu defnyddio,
yn gywir ac yn safonol.



Llunio adroddiad cynhwysfawr
ar sefyllfa'r Gymraeg rhwng
2016 a diwedd 2020.



Parhau i ychwanegu ffurfiau
safonol enwau pentrefi, trefi a
dinasoedd Cymru at y Rhestr
Enwau Lleodedd.



Comisiynydd y Gymraeg yn
Is-gadeirydd Cymdeithas
Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith.



Aelodaeth o grŵp sy'n cyngori
ar derminoleg ym maes hil ac
ethnigrwydd



Yn ôl i fynegai
adran

Cyfieithu ar y pryd

Pan orfodwyd pobl i weithio o gartref yng ngwanwyn 2020 a chynnal pob math o gyfarfodydd a fyddai fel arfer wedi cael eu cynnal wyneb yn wyneb ar-lein, ymatebom drwy ddarparu cyngor brys i sefydliadau ynghylch sut y gellid cynnal cyfarfodydd dwyieithog o bell. Bwriad y nodyn oedd rhoi arweiniad ymarferol i sefydliadau ar sut y gellid parhau i gynnig gwasanaethau dwyieithog o safon yn ystod y cyfnod digynsail hwnnw. Roedd darparu gwybodaeth fuan yn flaenoriaeth inni gan fod y syniad o gyfieithu ar y pryd o bell yn gwbl newydd i'r mwyafrif helaeth o sefydliadau.

Yn ogystal mae'r Comisiynydd wedi cefnogi'n gyson ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar Microsoft i ddarparu datrysiad boddhaol i hwyluso cyfieithu ar y pryd yn Teams.

Cyfrifiad 2021

Bu swyddogion y Comisiynydd yn aelodau o Grŵp Sicrwydd Cwestiynau Cymraeg Cyfrifiad 2021. Roedd y grŵp hwn yn darparu cyngor arbenigol i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gynllun a geiriad yr holiadur Cymraeg (ar bapur ac ar lein) er mwyn sicrhau'r profiad gorau posibl i bobl a ddewisodd lenwi'r

Cyfrifiad yn Gymraeg. Byddwn yn parhau i geisio dylanwadu ar y Swyddfa Ystadegau Gwladol wrth iddi gynllunio rhyddhau'r data am y Gymraeg ym mis Mawrth 2023.

Adroddiad 5-mllynedd am sefyllfa'r Gymraeg

Un o'n swyddogaethau statudol yw cyhoeddi adroddiad am sefyllfa'r Gymraeg bob pum mlynedd, a bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2021, ac yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng mis Ionawr 2016 a mis Rhagfyr 2020. Buom wrthi'n brys yn ystod y flwyddyn yn cynllunio a drafftio'r cynnwys, a'n bwriad yw defnyddio canfyddiadau, casgliadau, ac argymhellion yr adroddiad i yrru datblygiadau polisi a chyfrannu at y sail tystiolaeth am sefyllfa'r Gymraeg.

Safoni enwau lleoedd Cymru

Buom yn parhau i gynnal cyfarfodydd o'r Panel Safoni Enwau Lleoedd yn rhithiol dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o lunio argymhellion am sut orau i sillafu enwau lleoedd Cymru.

Buom hefyd yn cynghori'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ynghylch enwau wardiau, a chydweithio â Findmystreet er mwyn gwella'r profiad o chwilio am enwau dwyieithog yng Nghymru.

Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith

Rydym yn parhau i fod yn aelod gweithgar o Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith, ac yn ystod y flwyddyn bu Aled Roberts yn gweithio fel Is-Lywydd y Gymdeithas. Nod y Gymdeithas yw rhannu profiadau â chynulleidfia ryngwladol yn ogystal a chyfleoedd i ddysgu o arferion llwyddiannus gwledydd eraill. Bu'r rhannu gwybodaeth a chymharu profiadau yn arbennig o werthfawr yng nghydestun y pandemig byd-eang COVID-19 gan i bob un o aelodau'r Gymdeithas wynebu heriau tebyg wrth graffu ar sut driniaeth a roddir i ieithoedd lleiafrifol a swyddogol mewn cyfnodau o argyfwng.

Cawsom fudd o droi at aelodau yng Nghanada wrth geisio dylanwadu ar lywodraeth arfaethedig 2021-26 i ymrwmo i ddatblygu dealltwriaeth o'r cynnig rhagweithiol yn y maes iechyd a gofal mewn manifestos cyn yr etholiad. Cymerodd Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol New Brunswick a Chomisiynydd Gwasanaethau Iaith Ffrangeg Ontario ran mewn trafodaeth ar-lein gyda Chomisiynydd y Gymraeg a phostiwyd y fideo ar ein sianel YouTube, ei rhannu â'r pleidiau gwleidyddol a rhanddeiliaid yn y maes, yn ogystal ag i'r cyhoedd ar ein cyfryngau cymdeithasol.



Yn ôl i fynegai
adran

Hybu defnydd busnesau ac elusennau o'r Gymraeg



Lansio'r cynllun y Cynnig
Cymraeg. 140 o sefydliadau wedi
dechrau ar eu cynlluniau.



Lansio cronfa farchnata'r Cynnig
Cymraeg ar gyfer elusennau.



Penodi dwy intern i weithio ar y
Gymraeg a Gwirfoddoli.



Cynnal sesiynau hyfforddiant
ar ddefnyddio'r Gymraeg
i sefydliadau yn y sector
gwirfoddol.



Cefnogi elusennau yn nyddiau
cynnar y pandemig drwy ddarparu
cyfieithu am ddim ar ben y
gwasanaeth prawf ddarllen arferol.



Cynnal nifer o seminarau
poblogaidd ar lein gyda
sectorau gwahanol.



Y Cynnig Cymraeg

Ym mis Mehefin 2020, fe wnaethom lansio cynllun newydd y 'Cynnig Cymraeg' i'w gwneud hi'n amlwg i'r cyhoedd pa wasanaethau Cymraeg mae busnes neu elusen yn eu cynnig er mwyn cynyddu defnydd ohonynt. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau i'w helpu i ddatblygu eu hymrwymadau i ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn rhoi cydnabyddiaeth iddynt ar ffurf logo'r Cynnig Cymraeg, yn ogystal â thempledi a chasgliad o syniadau sut i hyrwyddo'r gwasanaethau. Trwy drafodaeth barhaus rydym yn anelu at sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn parhau i ddatblygu ac yn arwain at gynydd mewn defnydd.

Erbyn 31 Mawrth 2021, roedd 140 o fusnesau ac elusennau wedi dechrau ar y gwaith o baratoi a datblygu eu Cynnig Cymraeg, gyda 14 o gynlluniau wedi eu cwblhau.

Un o'r elusennau a gwblhaodd eu Cynnig Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd oedd Mind Cymru. Ymysg ymrwymadau'r elusen mae addewid i ddarparu gwybodaeth am iechyd meddwl yn Gymraeg i bobl ifanc, darparu deunyddiau hunan

gymorth yn Gymraeg, cynnal eu holl ymgyrchoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys ymgyrch i wella'r gwasanaeth iechyd meddwl drwy gyfrwng y Gymraeg, a datblygu a gwella sgiliau iaith eu staff. Fe weithiom gyda'r elusen ar hyrwyddo'r Cynnig Cymraeg, gan greu fideo i'w rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol a chydweithio ar ddatganiad i'r wasg a arweiniodd at gyhoeddusrwydd cenedlaethol.

Cronfa farchnata

Ym mis Tachwedd 2020, agorom gronfa newydd yn cynnig cymorth i elusennau farchnata eu gwasanaethau Cymraeg. Mae'r gronfa ar agor i elusennau sydd wedi llunio cynllun datblygu'r Gymraeg a chytuno ar eu Cynnig Cymraeg i'r cyhoedd, a gallant wneud cais am hyd at £500.

Un o'r elusennau a welodd fudd o'r gronfa oedd Cadwch Cymru'n Daclus er mwyn tynnu sylw at gystadleuaeth genedlaethol Gohebyddion Ifanc i'r Amgylchedd yn y Gymraeg.

Hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli yn Gymraeg

Yn ystod y cyfnodau clo, gwelwyd pwysigrwydd gwirfoddoli yn ein cymunedau, a daeth yn amlwg bod angen annog rhagor o siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i wirfoddoli. Felly, fe wnaethom gydweithio â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i benodi dwy intern am gyfnod o dri mis i gefnogi mudiadau ar hyd a lled Cymru i greu a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli'n Gymraeg. Mynychodd 73 o unigolion a mudiadau y sesiwn ar-lein.

Seminar Banciau

Cynhaliwyd seminar ar gyfer banciau a chymdeithasau adeiladu'r stryd fawr, gan ganolbwyntio ar lunio apiau dwyieithog a gweld pwysigrwydd y Gymraeg wrth farchnata.

Datblygiad cyffrous yn y sector yn ystod y flwyddyn oedd yn deillio o'r cydweithio yn y seminarau hyn oedd cefnogi cymdeithas adeiladu Principality wrth iddynt ddatblygu Sgwad Safio Dylan, sef adnodd digidol i blant ysgol ar sut i gynilo ac arbed arian. Cyhoeddwyd yr adnodd yn ystod haf 2020 ac roedd cyhoeddi'r fersiwn Cymraeg ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg yn arddangos bod y gymdeithas adeiladu wedi cynllunio gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg o'r cychwyn cyntaf.



Yn ôl i fynegai
adran

Sector y gyfraith

Buom yn cydweithio â nifer o gwmnïau preifat yn y sector gyfreithiol yn ystod y flwyddyn. Roedd cwmni cyfreithwyr JCP eisoes yn rhan o gynllun peilota'r Cynnig Cymraeg. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd roedd pedwar cwmni arall wedi derbyn y Cynnig Cymraeg ac roedd degau o gwmnïau eraill wedi mynychu sesiwn wybodaeth am y Cynnig Cymraeg ac yn y broses o ddatblygu eu cynnig. Sefydlom rwydwaith cyfrwng Cymraeg ar gyfer y sector, a chynnal digwyddiad ar gyfer y rhwydwaith ym mis Mawrth 2021 yng nghwmni cyfreithwyr o Darwin Gray, JCP ac archwilydd o Lexcel, corff rheoleiddio. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i gyfreithwyr rannu arferion da o ran defnyddio'r Gymraeg a chlywed mwy am waith Lexcel wrth dynnu sylw at gwmnïau sy'n defnyddio'r Gymraeg.





Yn ôl i fynegai
adran

Cyfathrebu



Cynnal ymgyrch i ddathlu
penblwydd y cynllun iaith Gwaith.

#MAEGENIHAWL



Cynnal Diwrnod Hawliau'r
Gymraeg.



Sesiynau yn yr Eisteddfod
AmGen am sgiliau iaith y
gweithlu addysg a chynllunio.



Creu cyfres o fideos i dynnu
sylw at adnoddau Cymraeg.



laith Gwaith

Ar 18 Tachwedd 2020 fe wnaethom nodi pen blwydd y bathodyn oren laith Gwaith yn bymtheg mlwydd oed. Ers ei lansio gan yr hen Fwrdd yr laith Gymraeg, mae cyfartaledd o dros 50,000 o fathodynnau, cortyn gwddf a phosteri yn cael eu dosbarthu yn flynyddol i ddangos bod gwasanaeth Gymraeg ar gael.

Cafodd y cynllun ei lansio gyntaf yn siop Leekes, Cross Hands, yn 2005, ac ar y pen blwydd, fe wnaethom ailymweld â'r siop i glywed sut maent yn parhau i ddefnyddio'r bathodyn, a sut mae ymwybyddiaeth y cyhoedd ohono wedi datblygu dros y blynyddoedd. Buom hefyd yn rhannu dyfyniadau a thystiolaeth gan wahanol gyflogwyr a swyddogion sy'n defnyddio'r bathodyn yn eu gwaith bob dydd.

Roeddem yn cydnabod bod y ffordd roedd pobl yn ymwneud â'i gilydd yn wahanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac efallai nad bathodyn neu gortyn gwddf oedd y ffordd fwyaf addas o arddangos bod pobl yn gallu siarad Gymraeg yn y gwaith. O'r herwydd fe wnaethom ddatblygu cefndir ar gyfer cyfarfodydd rhithwir sy'n cynnwys y bathodyn fel modd o adnabod siaradwyr Gymraeg dros sgrin.

Diwrnod Hawliau'r Gymraeg

Ar 7 Rhagfyr 2020 cynhaliwyd Diwrnod Hawliau'r Gymraeg. Hwn oedd yr ail dro i ni gynnal yr ymgyrch flynyddol i helpu sefydliadau cyhoeddus i dynnu sylw at y ffaith fod eu gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Mae disgwyl i'r sefydliadau hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg trwy gydol y flwyddyn, ond mae rhoi un diwrnod penodol i bawb ddathlu'r gwasanaethau Cymraeg yn ffordd effeithiol o godi ymwybyddiaeth. Mae hefyd yn reswm i neilltuo dyddiad bob blwyddyn i atgoffa staff yn fewnol o'r hawliau sy'n bodoli a chynnal gweithgareddau hyrwyddo.

Ar gyfer y diwrnod hawliau eleni, fe wnaethom greu fideo a datblygu templedi y gallai'r gwahanol sefydliadau eu defnyddio i hyrwyddo'r gwasanaethau a chreu ymdeimlad o gysondeb yn yr ymgyrch.

Eisteddfod AmGen

Gan na chynhaliwyd y brifwyl yn Nhregaron ym mis Awst 2020, gwahoddwyd sefydliadau a mudiadau a fyddai fel arfer â stondin ar y maes neu sesiwn ym Mhabell y Cymdeithasau i gynnal sesiynau rhithwir ar lwyfan yr Eisteddfod AmGen. Arweiniodd y Comisiynydd drafodaeth banel am recriwtio a hyfforddi athrawon cyfrwng Gymraeg a dwyieithog yng Nghymru er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Roedd y panel yn cynnwys Prif Weithredwr y Coleg Gymraeg Cenedlaethol, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC a darlithydd mewn Addysg ym Mhrifysgol Bangor.

Adnoddau Cymraeg

Yn ystod y cyfnodau clo, buom yn rhannu gwybodaeth â'r cyhoedd am wahanol adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael gan wahanol sefydliadau. Roedd llawer o'r rhain yn adnoddau perthnasol i'r byd addysg ac i hwyluso'r profiad i rieni wrth addysgu eu plant o gartref. Cyhoeddodd gyfres o fideos hynod o boblogaidd yn cyflwyno'r wybodaeth a'u rhannu ar ein cyfryngau cymdeithasol.



Yn ôl i fynegai
adran

Rheoli a gweithredu

Sylwebaeth ar berfformiad ariannol

Corfforaeth undyn yw Comisiynydd y Gymraeg a ariennir gan Weinidogion Cymru. Y cyllid a ddyrannwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2020 hyd 31 Mawrth 2021 oedd £3,207,000 (2019-20: £3,157,000) o wariant refeniw a £277,000 (2019-20: £0) o gyllid cyfalaf. Y gwariant net ar ôl llog yn ystod y flwyddyn oedd £3,289,000 (2019-20: £3,093,000). Ar 31 Mawrth 2021 roedd £697,000 yn y gronfa gyffredinol (31 Mawrth 2020: £502,000).

	2019-20 Alldro £000	2020-21 Alldro £000	2020-21 ¹ Cyllideb £000	2021-22 ² Cyllideb £000
Costau swyddogion	2,293	2,412	2,418	2,445
Gweinyddu				
Llety : Rhent	87	119	119	119
Llety : costau eraill	147	118	136	139
Dadfeiliadau swyddfa	5	—	—	—
Teithio a chynhaliadau	80	2	80	11
Hyfforddiant a recriwtio	23	24	27	35
Cyfreithiol a phroffesiynol	131	173	105	193
Technoleg gwybodaeth	153	158	156	107
Cyfathrebu	15	13	15	14
Archwilwyr allanol	15	20	15	15
Gweinyddu arall	22	23	22	15
	678	650	676	648
Costau prosiect TG	—	119	—	—
Rhaglenni eraill	85	58	107	83
Dibrisiant ac amorteiddiad	39	50	82	77
Gwariant Net	3,095	3,289	3,283	3,253
Incwm	—	—	—	—
Llog a dderbyniwyd	(2)	—	—	—
Gwariant net ar ôl llog	3,093	3,289	3,283	3,253

¹ Cyllideb fewnol derfynol cytunwyd gan y Tim Rheoli ym mis Ebrill 2020

² Cyllideb fewnol derfynol cytunwyd gan y Tim Rheoli ym mis Mehefin 2021

³ Mae'r dadansoddiad yn y tabl uchod wedi ei addasu a'i gysoni ar gyfer newidiadau categorïau gwariant yn y flwyddyn



Costau swyddogion

Roedd costau cyflogaeth ar gyfer 2020-21 yn uwch na gwir gostau 2019-20 ond roedd yr alldro ar gyfer y flwyddyn £6,000 yn is na'r gyllideb a osodwyd ar gyfer 2020-21. Y prif ffactorau yn esbonio'r amrywiant yn erbyn y gyllideb yw:

Gyda cyfyngiadau teithio wedi eu gosod gan y Llywodraeth yn sgil COVID-19 ac ansicrwydd ynglŷn â pryd byddai'r cyfyngiadau yn codi roedd y nifer o ddiwrnodau gwyliau nas cymrwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi codi'n sylweddol. Effaith hyn oedd cynnydd i'r costau yn ymwneud â'r croniat tâl gwyliau staff o £45,000.

Bu newid i oriau gwaith rhai staff ac hefyd bu costau goramser yn sgil yr ymosodiad seibr. Achosodd hyn gynnydd i'r costau o £7,000.

Roedd cynnydd o £35,000 i gostau staff asiantaeth nad oedd wedi ei gyllidebu. Y rheswm am hyn oedd cyflogi adnodd i alluogi staff i weithio ar y prosiect i drawsnewid isadeiledd TG y sefydliad. Roedd y costau hyn yn dod o'r cyllid dyrannwyd i fuddsoddi ar isadeiledd TG y sefydliad.

Cafodd COVID-19 effaith ar gynlluniau'r sefydliad i lenwi swydd wag a swyddi lle roedd y swyddogion parhaol ar gyfnodau mamolaeth; roedd oedi o nifer o fisoedd cyn llenwi tair swydd. Hefyd ni chafodd pob swydd lle roedd y swyddog ar famolaeth eu llenwi. Achosodd y ffactorau hyn arbediad o £57,000.

Yn dilyn ymadawiad dwy swyddog yn hwyrach yn y flwyddyn a bwlch cyn llenwi'r swyddi roedd arbediad pellach o £15,000.

Cyllidwyd ar gyfer dwy swydd am rhan o'r flwyddyn, ond ni lenwyd y swyddi hyn yn arwain ar arbediad o £7,000.

Wrth osod cyllideb 2020-21 cynlluniwyd cynnydd o £50,000 ar gyfer setliad cyflog ar gyfer cyfnod o ddwy flynedd, i'w dalu ar ddechrau'r cyfnod. Cafwyd setliad cyflog o 2.5% am flwyddyn yn unig, achosodd hyn arbediad yn erbyn y gyllideb.

Mae costau cyflogi swyddogion yn parhau i gynrychioli tua 75% o wariant blynyddol y sefydliad. Mae cynnydd blynyddol i'r costau hyn, boed yn gostau pensiwn neu'r setliad tâl, wedi cael effaith ar ein gallu i gyflogi swyddogion i gyflawni

swyddogaethau a dyletswyddau'r sefydliad. Mae'r rheolwyr yn parhau i fonitro effaith lleihad yn nifer y staff ar allu ac effeithiolrwydd y sefydliad.

Llety

Mae costau rhent gros y swyddfeydd yn gyson â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Roedd disgwyl y byddai costau 2020-21 yn cynyddu o ganlyniad i'r cyfnod di-rent o 21/12/2018 i 20/09/2019 yn dod i ben.

Bu lleihad yng nghostau rhedeg y swyddfeydd yn ystod y flwyddyn i'w gymharu â 2019-20 a'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn:

- o costau gwasanaethau'r landlord ar gyfer swyddfa Caerdydd wedi lleihau oherwydd costau untro yn ymwneud ag adnewyddu'r cyntedd yn 2019-20;
- o arbedion oherwydd bod staff wedi bod yn gweithio o gartref oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Mae hyn wedi arwain ar arbedion ar gyfer costau glanhau, gwasanaethu a gwastraff ar draws y swyddfeydd;
- o Yn 2019-20 roedd costau atgyweirio ac adnewyddu oherwydd elfennau gwaith annisgwyl yng Nghaerdydd a Caernarfon, nid oedd unrhyw anghenion yn ystod 2020-21; a



- o Doedd dim effaith sylweddol i'r darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau swyddfa yn dilyn newid i gyfradd ddisgownt Trysorlys EM.

Er gwaethaf cynnydd yn y costau uchod, gwnaed arbedion yn erbyn y gyllideb yn y dreth annomestig yn dilyn asesiad prisio ac ad-daliad. Hefyd roedd costau trydan a nwy yn llai na'r gyllideb gan ein bod wedi gallu rhyddhau costau cronedig yn ymwneud â chyn swyddfa Caernarfon.

Teithio a chynhaliaeth

Ar ddechrau'r flwyddyn gosodwyd cyllideb o £80,000 ar lefel oedd yn gyson â 2019-20. Ar ddechrau'r flwyddyn daeth cyfyngiadau teithio i rym yn sgil pandemig COVID-19; a'r dybiaeth ar ddechrau'r flwyddyn oedd mai am gyfnod byr y byddai'r cyfyngiadau mewn grym. Mae'r cyfyngiadau hyn wedi parhau drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael effaith sylweddol ar y gwariant, gyda dim ond 3% o'r gyllideb yn cael ei gwario, yn arwain at arbediad o £78,000.

Yr unig gostau teithio oedd y rhai angenrheidiol i ddosbarthu offer i staff wedi'r ymosodiad seibr a theithiau'r staff i wasanaethu'r systemau TG yn y gwahanol swyddfeydd.

Mae'r sefyllfa hyn yn parhau ac mae hyn wedi dylanwadu ar lefel y gyllideb sydd wedi eu gosod ar gyfer 2021-22. Mae dulliau gweithio o bell gan ddefnyddio technoleg yn arwain y sefydliad i ddod i'r casgliad y bydd defnydd parhaus ar y dechnoleg, bydd yn arwain at leihau yn y blynyddoedd i ddod ar gostau teithio a chynhaliaeth.

Hyfforddiant, recriwtio a lles

Roedd costau recriwtio yn gyson â'r gyllideb a gwariant 2019-20.

Roedd gwariant ar hyfforddiant statudol a chraidd yn gyson â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Bu arbediad o £2,000 i'w gymharu â chostau seminarau yn 2019-20, yn bennaf oherwydd ni chynhaliwyd seminar staff yn 2020-21 yn sgil cyfyngiadau COVID-19.

Roedd arbediad o £700 ar gost cynllun talebau gofal plant i'w gymharu â'r gyllideb ond cynnydd o £2,200 i gymharu â 2019-20 oherwydd nifer y staff oedd ar famolaeth yn ystod 2020-21 ac yn aelodau o'r cynllun.

Bu lleihad o £1,000 yn erbyn y gyllideb a chostau 2019-20 ar gyfer darparu gwasanaeth cynghori i staff a phrofion llygaid.

Yn ychwanegol arbedwyd rhyw £1,000 ar gyfer darpariaeth te a choffi yn y swyddfeydd, gan fod staff yn gweithio o gartref.

Cyfreithiol a phroffesiynol

Costau cyfreithiol yw'r elfen fwyaf sylweddol o'r gyllideb hon. Mae costau cyfreithiol wedi amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, yn enwedig o ran costau paratoi ar gyfer ac amddiffyn achosion Tribiwnlys y Gymraeg ac hefyd unrhyw achos llys neu adolygiad barnwrol gallai'r Comisiynydd fod yn barti iddo. Gosodwyd cyllideb gwariant refeniw heriol o £45,000 ar gyfer 2020-21. Er hyn, gosodwyd y gyllideb yn y gyd destun lle byddai costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol yn angenrheidiol, o ganlyniad i amgylchiadau neu achosion penodol, byddai'n bosibl cynyddu'r cyllid sydd ar gael.

Ar gyfer 2020-21, cyfanswm costau gwasanaethau cyfreithiol oedd £124,000. Daeth yn amlwg yn ystod y flwyddyn bod nifer o achosion yn dod gerbron Tribiwnlys y Gymraeg. Gwnaeth y Comisiynydd benderfyniad hefyd i fod yn barti i Adolygiad Barnwrol achos Rhondda Cynon Taf. Roedd y gwariant ar yr adolygiad barnwrol yn £49,700. Mae gosod cyllideb uwch ar gyfer costau cyfreithiol ar gyfer 2021-22



yn adlewyrchu'r profiad o gostau cyfreithiol uwch yn 2020-21.

Gosodwyd cyllideb heriol o £33,000 ar gyfer cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn 2020-21. Er hyn, roedd y gwir gostau tua £8,000 yn llai na'r gyllideb. Roedd arbediad o tua £1,000 oherwydd bod cronïad 2019-20 ar gyfer yr Adroddiad Blynnyddol yn uwch na'r gwir gost. Hefyd nodir bod costau cyfieithu testun wedi lleihau yn sylweddol yn y chwarter wedi'r ymosodiad seibr.

Roedd cost ymgynghorwyr nid oedd yn ymwneud â'r prosiect TG o £2,000 ym mlwyddyn ariannol 2020-21. Roedd hyn yn gyson â'r gyllideb ac yn leihad o tua £12,000 i'w gymharu â 2019-20. Rheswm y cost uwch yn 2019-20 oedd penderfyniad y Tîm Rheoli i gynnal adolygiad annibynnol i gwyn gan Gadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn erbyn Comisiynydd y Gymraeg. Cynhaliwyd adolygiad manwl yn y cyfnod rhwng Ionawr 2020 a diwedd Mawrth 2020 a chyhoeddwyd adroddiad yn dilyn hynny.

Mae costau archwilio mewnol yn gyson a gwariant 2019-20 ond £2,000 yn llai na chyllideb 2020-21. Mae hyn oherwydd bod un elfen o gynllun archwilio 2020-21 wedi ei

oedi oherwydd yr ymosodiad seibr. Bydd y gwaith yma ar weithredu'r prosiect TG yn cael ei gynnal fel rhan o gynllun archwilio mewnol 2021-22.

Mae costau archwilio statudol wedi cynyddu £6,000 i'w gymharu â chyllideb 2020-21 a gwir wariant 2019-20. Mae hyn oherwydd bod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi asesu risgiau'r sefydliad yn sgil yr ymosodiad seibr a'i gasgliadau yw bod angen ymgymryd â gwaith ychwanegol wrth gynnal yr archwiliad.

Technoleg gwybodaeth

Mae costau technoleg gwybodaeth craidd wedi bod yn sefydlog yn ystod y flwyddyn. Er hyn mae nifer o ffactorau; megis buddsoddiad y prosiect TG yn isadeiledd newydd y sefydliad, effaith COVID-19 a gweithio o gartref, a'r ymosodiad seibr wedi cael effaith ar wahanol elfennau o'r gwariant. Mae gwariant a buddsoddiad ar y prosiect TG wedi ei nodi ar dudalen 31. Yr elfennau allweddol eraill i'w nodi yw:

Cafodd yr ymosodiad seibr effaith andwyol ar y sefydliad ac wedi'r ymosodiad gwariwyd £25,000 yn benodol ar arbenigedd allanol i gynorthwyo gyda'r dasg o adfer data o gopiau wrth gefn effeithiwyd gan yr ymosodiad seibr.

Ar gyfer y gwasanaethau cynnal systemau TG eraill roedd lleihad i gostau oherwydd bod cytundebau wedi eu terfynu a/neu bod defnydd o'r gwasanaeth yn llai. Mae'r prif ffactorau wedi eu nodi isod:

- lleihad i rhyw £4,000 i gostau cynnal a defnydd system ffôn wrth i staff weithio o gartref, yn hytrach nag o'r swyddfeydd, yn sgil y cyfyngiadau COVID-19;
- lleihad o £7,000 ar gostau prosiect TG eraill wrth i unrhyw waith prosiect ar drawsnewid isadeiledd TG y sefydliad gymryd blaenoriaeth dros unrhyw waith prosiect neu waith ad-hoc arall;
- arbediadau pellach o ryw £2,000 ar drwyddedau TG amrywiol;
- arbediad o £5,600 drwy derfynu cytundebau ar gyfer gwasanaethau megis fideo gynadledda, diogelwch a hygyrchedd gwefan nad oes eu hangen gyda'r isadeiledd newydd;
- cynnydd o £4,300 wrth osod gwasanaeth newydd megis cyswllt o bell ar gyfer staff yn gweithio o gartref a gwasanaeth fideo gynadledda Zoom; a
- lleihad o tua £900 ar gyfer costau gwasanaethau eraill sy'n parhau.



Cyfathrebu

Mae costau cyfathrebu yn 2020-21 rhyw £2,000 yn llai na gwariant 2019-20 a'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Roedd £1,000 yn llai o wariant ar ffotograffiaeth, holiaduron a dylunio corfforaethol a tua £1,000 ar waith ffotograffiaeth a dylunio'r Adroddiad Blynyddol.

Prosiect Technoleg Gwybodaeth

Yn dilyn llunio Strategaeth TG a chyflwyno cais ac achos busnes i Lywodraeth Cymru er mwyn uwchraddio a thrawsnewid amgylchedd TG y sefydliad, dyrannwyd cyllideb o £385,000 ar gyfer 2020-21 gan Lywodraeth Cymru, yn benodol ar gyfer y pwrpas hwn. Noder bod £277,000 o'r gyllideb wedi ei throsglwyddo i'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn ac o'r cyfanswm hwn gwariwyd £272,000. Y ddau brif rheswm ni wariwyd yr holl gyllideb o £385,000 oedd ar gael yn y flwyddyn ariannol oedd:

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol bu rhaid ymateb i bandemig COVID-19 a galluogi'r sefydliad i barhau i weithredu gan alluogi staff i weithio o gartref. Hefyd bu rhaid ail flaenoriaethu gwaith y sefydliad yn chwarter cyntaf y flwyddyn.

Effaith hyn oedd oedi hyd yr ail chwarter cyn dechrau ar y broses o lunio cynllun a mynd allan i dendr cystadleuol ar DigitalMarketplace.gov.uk. Ar ddechrau'r trydydd chwarter, wedi proses gystadleuol agored, penodwyd Red Cortex fel partner i weithredu'r prosiect a chychwynnwyd ar y gwaith darganfod a dylunio.

Wedi'r cwblhau'r cyfnod darganfod a dylunio derbyniwyd cynnig manwl a chynllun i wireddu'r Strategaeth TG. Ystyriwyd y cynnig a'r cynllun gan y Tîm Rheoli ym mis Tachwedd 2020 ac roedd y gwaith o weithredu'r prosiect ar fin cychwyn pan cafwyd yr ymosodiad seibr ar ddechrau mis Rhagfyr 2020. Yn sgil yr ymosodiad bu rhaid ail flaenoriaethu nifer o'r ffrydiau gwaith o fewn y cynllun. Ar yr un pryd roedd rhaid ymateb i'r ymosodiad er mwyn galluogi staff y sefydliad i weithredu cyn gynted â phosib mewn amgylchedd TG newydd a diogel. Traweffaith hyn oedd nad oedd modd cyflawni'r cyfan oedd yn y cynllun prosiect gwreiddiol o fewn y flwyddyn ariannol.



Yn ôl i fynegai
adran

Er na wariwyd y gyllideb yn ei chyfanrwydd yn ystod y flwyddyn ariannol, sylwer bod y Comisiynydd wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig gan y Gweinidog bod y swm gweddilliol o £108,000 wedi ei ddyrannu ar gyfer cyllideb blwyddyn ariannol 2021-22.

Mae'r tabl isod yn dadansoddi'r gwariant ar y prosiect:

	Costau Staffio £000	Costau Prosiect £000	Asedau Sefydlog £000	Cyfanswm £000
Adnoddau staff asiantaeth	34	—	—	34
Red Cortex - darganfod a dylunio	—	22	—	22
Red Cortex - datblygu a gweithredu	—	79	—	79
Gwaith gosod amgylchedd a systemau	—	10	—	10
Tenantiaeth M365 ac Azure	—	5	—	5
Hyfforddiant defnyddwyr	—	3	—	3
SpinDogs – datblygu gwefan	—	—	29	29
Gliniaduron	—	—	52	52
Ategolion TG gweithfan	—	—	18	18
Offer diogelwch rhwydwaith	—	—	21	21
	34	119	119	272



Gwariant Rhaglenni eraill

Mae manylion am ganlyniadau prif raglenni a gyflawnwyd yn 2020-21 yn yr adran ar weithgareddau a chyflawniadau'r sefydliad ar dudalennau 14 i 35.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae pwysau cyllidol wedi arwain at gyllideb rhaglenni cyfyngedig. Gosodwyd cyllideb o £107,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Ar ddiwedd y flwyddyn y gwariant ar raglenni oedd £58,000, sef tanwariant o £49,000.

Cafodd nifer o raglenni eu heffeithio yn y flwyddyn gan gyfyngiadau COVID-19, megis:

- mynychu'r Eisteddfodau (arbediad £4,100)
- dosbarthu nwyddau iaith gwaith (arbediad £2,500)
- cyfarfodydd hyrwyddo canfyddiadau'r adroddiad sicrwydd (arbediad £1,800)
- Arolwg Barn Omnibws (arbediad £3,000)

- rhaglen Enwau Lleoedd (arbediad £2,000)
- ymchwil i'r sector Iechyd (arbediad £5,000)

Gyda'r sefydliad yn dioddef o ymosodiad seibr ym mis Rhagfyr 2020, bu effaith ar allu'r sefydliad i barhau gyda nifer o raglenni. Y rhai effeithiwyd arnynt fwyaf oedd:

- datblygiadau'r wefan (arbediad £5,000)
- adolygu dyfarniadau'r Tribiwnlys ar gyfer Adroddiad 5 Mlynedd (arbediad £7,000)
- Adroddiad 5 Mlynedd (arbediad £11,000)

Y rhaglenni effeithiwyd arnynt am resymau eraill oedd:

- Prosiectau Hyrwyddo – llai o ofyn (arbediad £3,700)
- Mapio addysg ôl 16 (arbediad £1,700)



Cronfa wrth Gefn

Mae cyfrifon blyneddol 2020-21 yn datgan bod £697,000 yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021. Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys symiau sy'n dderbyniadwy, yn ddyledus, rhagdaliadau a chroniadau. Er mwyn deall gwir werth y gronfa wrth gefn mae angen ystyried effaith y trafodion hyn:

	£000	Casglu dyledion a thalu credydwy £000	Dibrisiant a gwariant rhagdaliadau £000	Balans yn weddill £000
Asedau sefydlog	232	—	(232)	—
Rhagdaliadau	52	—	(52)	—
Arian parod	994	(581)	—	413
Taliadau masnachol	(52)	52	—	—
Credydwy arall	(45)	45	—	—
Croniadau	(304)	304	—	—
Darpariaethau	(180)	180	—	—
Cronfa wrth gefn	697	—	(284)	413

Lefel gwaelodol y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2021 yw £413,000 (2019-20: £255,000). Lefel gwaelodol y gronfa wrth gefn yw'r swm sydd ar gael i'r sefydliad i ddiogelu rhag unrhyw orwariant potensial yn y dyfodol. Mae'r Comisiynydd yn ystyried bod angen cadw lleiafswm o 5% o'r gyllideb flynyddol wrth gefn ar gyfer unrhyw wariant na ellid ei ragweld, tua £160,000. Byddai hefyd yn ddarbodus cadw £100,000 yn ychwanegol wrth gefn ar gyfer unrhyw achos cyfreithiol allai godi.

Nodir yn y tabl ar dudalen 36 bod cyllideb 2021-22 yn rhagweld gwariant refeniw o £3,253,000. Yn ogystal â gwariant refeniw mae'r gyllideb yn cynnwys gwariant o £180,000 ar gyfalaf ar gyfer cwblhau elfennau ychwanegol o'r prosiect TG.

Effaith cynlluniau 2021-22 a'r gyllideb sydd wedi'u chymeradwyo ar gyfer y flwyddyn yw lleihau lefel y gronfa wrth gefn waelodol o £413,000 ar ddechrau 2021-22 i £402,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r rheolwyr yn

ymwybodol bod y gronfa wrth gefn wedi cynyddu i lefel sy'n uwch na'r hyn ystyrir gan y Comisiynydd i fod yn ddarbodus. Mae'r rheolwyr yn ystyried cynigion, sy'n cynnwys elfennau pellach i'r prosiect TG a rhaglenni eraill yn y cynllun gweithredol, y bydd modd nawr i'r rheolwyr gymeradwyo. Bydd angen newidiadau i'r gyllideb ar gyfer 2021-22, bydd yn lleihau lefel y gronfa wrth gefn i lefel cynaliadwy.



Yn ôl i fynegai
adran

Tâl yr Archwilwyr Allanol

Datgelir taliadau'r archwilwyr yn nodyn 4 i'r cyfrifon. Ni wnaeth yr archwilwyr allanol ymgymryd â gwaith nad oedd yn waith archwilio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (2019-20: £0).

**Aelod staff mewn
banc yn gwisgo
bathodyn a chortyn
gwddf i ddysgwyr.**





Cydraddoldeb a Chomisiynydd y Gymraeg

Mae'r Comisiynydd yn falch o gyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blyneddol 2021 (ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 hyd 31 Mawrth 2021).

Cyhoeddwyd Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Comisiynydd ym mis Awst 2020. Yn dilyn cytundeb y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, i ganiatáu estyniad i sefydliadau cyhoeddus i gyhoeddi eu cynlluniau o ganlyniad i effaith COVID-19 ar weithgareddau.

Y Tîm Rheoli sy'n bennaf gyfrifol am gyfeiriad strategol y swyddfa ac mae'n sicrhau bod rheolaeth weithredol yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, statudol ac arfer da. Mae'r Tîm Rheoli yn derbyn adroddiadau chwarterol dadansoddol ar gyflawniad y Cynllun a chynllunio gan yr Uwch Swyddog Llywodraethiant sy'n gyfrifol hefyd am gydgyssylltu'r gwaith o weithredu camau gweithredu o dan y Cynllun; gwerthuso ac adolygu'r Cynllun; paratoi a llunio camau gweithredu newydd wrth symud ymlaen. Yn ystod 2020-21 sefydlwyd Grŵp Llywio mewnol gyda chynrychiolaeth gan bob swyddog sy'n gyfrifol am amcanion o fewn y cynllun. Mae'r Grŵp yn:

- o helpu i fonitro gweithrediad y Cynllun Cydraddoldeb;

- o helpu i lunio cynigion ar gyfer camau gweithredu o dan y Cynllun; a
- o gweithredu fel seinfwrdd ar gyfer prosiectau a mentrau cydraddoldeb yn y swyddfa.

Mae'r Comisiynydd yn parhau i weithio gyda Phartneriaeth Cydraddoldeb Cyhoeddus Cymru. Cyfunodd y bartneriaeth adnoddau er mwyn creu 5 amcan cydraddoldeb strategol ar y cyd a chytuno ar gamau gweithredu a mesurau ar y cyd ar gyfer 2020 i 2024. Caiff yr amcanion hyn eu datblygu gyda'i gilydd drwy gydol y cyfnod, gan ddylanwadu ar amcanion sy'n benodol ar gyfer sefydliadau arbennig fel y bo'n briodol i bob corff.

Yn ystod 2020-21 bu gwaith y bartneriaeth yn canolbwyntio ar sefydlu grwpiau tasg a gorffen fyddai'n gyfrifol am ffrydiau gwaith penodol. Mae pedwar grŵp wedi eu hadnabod:

- o Adnoddau Dynol – Amrywiaeth a'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau
- o Caffael
- o Casglu Data a Monitro
- o Ymgysylltu a Darparu Gwasanaethau

Gallwch ddod o hyd i'r amcanion terfynol, ynghyd â'n nodau sy'n benodol i'r Comisiynydd, yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2020-24).

Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Mae Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig ystyried sut y gallai eu penderfyniadau strategol helpu i leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol. Mae'r rhain yn deillio, er enghraifft, o wahaniaethau mewn galwedigaeth, cyfleoedd addysgol neu breswylfa. Cyfeirir at hyn fel y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddechrau gweithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru erbyn 31 Mawrth 2021.

Nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn dod o dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol o dan y prawf a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i weithredu yn ysbryd y ddyletswydd a byddwn yn cymryd camau i gryfhau'r ystyriaeth o anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol yn ein gwaith drwy ein asesiadau effaith cydraddoldeb.



Data cydraddoldeb

Rydym yn parhau i ofyn i ddarpar ymgeiswyr gwblhau ffurflen monitro cydraddoldeb fel rhan o'r broses recriwtio; roeddem yn casglu data ar 3 o'r 9 nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

- o oedran
- o anabledd
- o cenedligrwydd ac ethnigrwydd

Mae'r ffurflen wedi ei diweddaru ers 1 Ebrill 2021 i gynnwys y 3 nodwedd warchodedig ychwanegol:

- o rhyw
- o cyfeiriadedd rhywiol
- o crefydd neu gred

Ein swyddogion

Yn ystod y flwyddyn fe aethom ati i ddiweddaru ac i lenwi bylchau data ar y 9 nodwedd warchodedig ar gyfer ein swyddogion. Mae'r system adnoddau dynol electroneg yn casglu data ar 4 nodwedd warchodedig ar ffeil unigolion:

- o oedran
- o rhyw
- o beichiogrwydd a mamolaeth
- o statws priodasol

Felly fe aed ati, drwy'r Tîm Adnoddau Dynol, i ofyn i staff hunanddatgan 4 nodwedd warchodedig arall ar eu proffil ar ein System Adnoddau Dynol:

- o crefydd neu gred
- o statws anabledd
- o hil ac ethnigrwydd
- o cyfeiriadedd rhywiol

Gan mai opsiwn hunanddatgan yw hwn, nid yw'n orfodol ei gwblhau, ond cafwyd ymateb da gan staff a byddwn yn parhau i'w hannog i'w lenwi, gan esbonio bod set gref o ddata yn ein helpu i greu gwell polisïau pobl a deall pa mor amrywiol ydym ni fel sefydliad.

Nid ydym yn cofnodi achosion ailbennu rhywedd ar hyn o bryd. Credwn y gallai cofnodi'r wybodaeth hon mewn sefydliad mor fach gael effaith negyddol ar breifatrwydd unigolion a byddai'r set ddata yn rhy fach i'w dadansoddi.

Data na ellir ei gyhoeddi a'n hymagwedd at breifatrwydd wrth gasglu a chyhoeddi data

Ar 31 Mawrth 2021, roeddem yn cyflogi 46 o bobl. Mae dehongli data amrywiaeth yn ystyrlon yn anodd mewn sefydliad bach, lle gall nifer fach o unigolion newid canrannau ar draws y sefydliad yn sylweddol. Mae hefyd yn golygu na allwn gyhoeddi'r rhan fwyaf o'n data amrywiaeth sy'n ymwneud â'r 9 nodwedd warchodedig.

Fel sefydliad, rydym yn rhoi pwys mawr ar ddiogelu preifatrwydd pobl a'u data, gan gydymffurfio'n llawn â Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU. Mae hyn yn berthnasol i'n swyddogion, ein defnyddwyr, ein rhanddeiliaid, a'r rhai sy'n ceisio am swyddi gyda ni.

Mae rhai setiau data yn rhy fach i'w cyhoeddi ac i ddarparu naratif arnynt ar hyn o bryd. Caiff y data hwn ei fonitro'n fewnol gan ein tîm Adnoddau Dynol ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. Hyd yn hyn ni fu unrhyw fater sy'n peri pryder; ond byddwn yn darparu naratif pan fydd modd gwneud hynny.



Yn ôl i fynegai
adran

Mae'r data perthnasol yn cynnwys:

- o pobl sydd wedi gadael y sefydliad;
- o pobl a symudodd yn fewnol;
- o pobl sydd ynghlwm â chwynion; a
- o pobl sydd ynghlwm ag achosion disgyblu.

Bwlch cyflog ar sail rhywedd

Ers 2017, mae cyflogwyr sydd â 250 neu fwy o weithwyr wedi gorfod cyhoeddi ac adrodd ffigurau penodol am eu bwlch cyflog ar sail rhywedd. Rydym yn gyflogwr rhy fach iddo fod yn ofynnol i ni gyhoeddi ein bwlch cyflog ar sail rhywedd, ond rydym yn ei gyfrifo ac yn dewis ei gyflwyno'n flynyddol yn yr adroddiad blynyddol.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein templed pwrpasol ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG). Rydym hefyd wedi newid y flaendalen ar gyfer papurau a gyflwynir i'r Tîm Rheoli, gan ychwanegu adran orfodol yn gofyn a oes angen AEG, ac i roi crynodeb o unrhyw effeithiau posibl. Mae hyn wedi sicrhau bod cydraddoldeb yn cael sylw priodol wrth wneud penderfyniadau strategol, ac, yn bwysicach, yn cael ei drafod yn amlach a'i fod yn dod yn rhan o'n

ffyrdd o weithio. Yn anffodus, yn dilyn yr ymosodiad seibr fe gollwyd asesiadau effaith cydraddoldeb ar waith y sefydliad ar gyfer 2020-21, ac felly nid oes modd i ni ddarparu dadansoddiad pellach o'r hyn gyflawnwyd. Serch hynny nid oedd unrhyw asesiad wedi amlygu effaith sylweddol ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig ac felly heb eu cyhoeddi.

Cynnydd yn erbyn amcanion 2020-21

Mae 2020-21 wedi bod yn flwyddyn heriol iawn i'r Comisiynydd. Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn bu cyfyngiadau COVID-19¹ yn golygu newid sylfaenol i ffordd y Comisiynydd o weithio. O safbwynt y cynllun golygai diffyg digwyddiadau mawr a rhai wyneb yn wyneb wrth i'r cyfyngiadau gael eu rhoi mewn lle nad oedd modd gweithredu fel y cynlluniwyd i gasglu data gan unigolion. Mae hyn yn berthnasol i raddau, o dan pob un o'r amcanion ond yn arbennig rheiny ble mae pwyslais ar ymgysylltu a'r rheiny ble roedd rhaid canolbwyntio adnoddau staff ar effeithiau'r pandemig.

Yn ystod ail hanner 2020-21 dioddefodd y Comisiynydd ymosodiad seibr difrifol a effeithiodd ar fwyafrif o systemau

TG y Comisiynydd. Bu gwaith chwarter olaf y flwyddyn yn canolbwyntio ar ail godi'r systemau ac adfer gwybodaeth, ble'n bosibl. O ganlyniad, nid yw'r Comisiynydd wedi gwneud gymaint o gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredol ac y dymunai fod wedi gwneud yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn berthnasol i raddau, o dan bob un o'r amcanion. Fe gollwyd gwaith oedd wedi ei gwblhau ar gyfer cynnydd dan Amcan 4 ac nid oes modd ei gael yn ôl. Roedd hefyd ail edrych ar allu staff i gyflawni'r gweithgareddau o ganlyniad i arallgyfeirio adnoddau staff er mwyn canolbwyntio ar effeithiau'r ymosodiad seibr.

Bydd cynllun gweithredu'r cynllun cydraddoldeb strategol yn cael ei adolygu ar gyfer gweddill oes y cynllun. Byddwn yn sicrhau bod gweithgareddau nad oedd modd eu cyflawni yn ystod 2020-21 yn cael eu blaenoriaethu a'i symud i 2021-22, ble'n ymarferol bosibl neu'n cael eu hail raglennu yn ystod oes y cynllun. Bydd y cynllun gweithredol yn cael ei ail gyflwyno i'r Tîm Rheoli i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Ble bu cynnydd yn y gwaith mae wedi ei nodi isod, nid oes diweddariad o dan Amcan 2 na 4, fel yr eglurir uchod.

¹ Manylion llawn am effaith COVID-19 ar waith y sefydliad i'w weld ar dudalennau 56 a 57 o'r Datganiad Llywodraethiant



Amcan 1: Bydd y Comisiynydd yn cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu

Dyma rai o'r enghreifftiau o'r camau yr ydym wedi eu cymryd hyd at fis Mawrth 2021:

- o cynnig Cynllun Gwarantu Cyfweliad, lle rydym yn gwarantu y bydd ymgeiswyr ag anableddau sy'n bodloni gofynion sylfaenol y rôl yn cael cyfweliad; a
- o chynnal asesiad cyfarpar sgrin arddangos (DSE) a rhoi offer ac addasiadau arbenigol ar waith yn gyflym.

O ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19 symudodd ein holl swyddogion i weithio gartref ym mis Mawrth 2020. Erbyn hyn, fel sefydliad sy'n seiliedig yn y cwmwl, rydym wedi gallu symud i weithio gartref yn gymharol rwydd, gan gefnogi ein pobl gyda'r offer angenrheidiol, megis cadeiriau a desgiau er mwyn sicrhau arferion gwaith iach. Rydym wedi manteisio ar ddatblygiadau mewn technoleg, yn enwedig y defnydd o Microsoft Teams i gadw mewn cysylltiad â'n gilydd ac osgoi teimladau o unigedd. Mae'r holl staff yn parhau i weithio o gartref.

Roeddem yn sylweddoli fel sefydliad y byddai symud i weithio gartref yng nghanol y cyfyngiadau yn gallu peri straen a gofid i swyddogion ac felly mae'r holl staff wedi cael cynnig sesiynau ar wytnwch a ffyrdd i warchod eu hiechyd meddwl yn ystod y flwyddyn.

Amcan 3: Bydd y Comisiynydd yn ymgysylltu â'r gymuned

O ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19 nid oes digwyddiadau wyneb yn wyneb wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn. Felly fe wnaethom ddefnydd helaeth o'n rhwydweithiau cymdeithasol i rannu negeseuon am waith y Comisiynydd yn gyffredinol. Buodd y Comisiynydd hefyd yn rhan o drafodaeth polisi yn rhan o'r Eisteddfod AmGen ar y pwnc 'Addysg a chyrraedd y miliwn'. Roedd hwn yn ddigwyddiad arlein, oedd yn agored i unrhyw un ei fynychu. Roedd hyn yn sicrhau nad oedd unrhyw rwystr o ran hygyrchedd adeilad neu leoliad penodol, na chwaith gorfod talu i fynychu.

Cyhoeddwyd ein hadroddiad sicrwydd ac fe drefnwyd lansiad rhithiol ar gyfer y digwyddiad gan weithio gyda'r Tîm TG i sicrhau bod y sesiwn yn gweithio'n dechnegol ac yn cael ei darlledu a'i recordio.

Cynhaliwyd asesiad effaith llawn er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn hygyrch. Cynhaliwyd y lansiad ym mis Medi 2020 ac oedd 140 mynychwr unigryw yn y lansiad Cymraeg, a 74 yn y lansiad Saesneg, a thua 30 ychwanegol ar YouTube ar gyfer y ddwy sesiwn.

Cynhaliwyd ymchwil i agweddau at yr iaith Gymraeg drwy arolwg Omnibws siaradwyr Cymraeg. O ganlyniad i'r pandemig nid oedd modd cynnal cyfweiliadau wyneb yn wyneb mewn pwyntiau sampl ledled Cymru. Yn lle, cynhaliwyd cyfweiliadau ar gyfer arolwg 2020 ar-lein gan ddefnyddio platfform cyfnewid panel ar-lein. Fel rhan o'r arolwg fe gasglwyd data ar oedran, rhyw a dosbarth cymdeithasol yr ymatebwyr. Bydd gwaith dadansoddi yn cael ei gynnal, a byddwn yn gallu gweld os bydd unrhyw batrymau pan fydd yr arolwg yn cael ei gynnal eto. Byddwn hefyd yn cynnal trafodaethau i weld os oes modd dadansoddi'r arolwg yn ôl unrhyw un arall o nodweddion gwarchodedig yr ymatebwyr.



Amcan 5: Sicrhau fod anghenion unigol yn cael eu hadlewyrchu wrth weithredu swyddogaethau

O ganlyniad i COVID-19 rydym hefyd wedi bod yn archwilio ffyrdd o ddarparu rhywfaint o'n deunydd ar gyfer digwyddiadau mewn fformatau mwy hygyrch, er enghraifft defnyddio gweminarau y gellir cael mynediad atynt ar-lein.

Rydym wedi gwneud cynnydd cadarnhaol yn erbyn yr amcan hwn. Gwnaethom gwblhau adolygiad hygyrchedd o'n gwefan. O hyn, datblygwyd cynllun gweithredu gennym i wneud sawl gwelliant er mwyn ei gwneud yn fwy hygyrch – cyhoeddwyd hwn gennym fel rhan o'n Datganiad Hygyrchedd ym mis Medi 2020. Yn anffodus o ganlyniad i'r ymosodiad seibr effeithiwyd gwefan y Comisiynydd ac felly rydym yn y broses o ddylunio gwefan newydd ac yn ceisio lefel hygyrchedd AA.

Gwelwn hyn fel cyfle i sicrhau fod y camau gweithredu adnabuwyd gennym yn arwain at welliannau yn hygyrchedd ein gwefan newydd, er enghraifft, drwy ddogfennau PDF hygyrch ac isdeitlo ein fideos.

O ran casglu data amrywiaeth ein hunain am unigolion sy'n cysylltu gyda ni, mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w adolygu, a byddwn yn chwilio am gyfleoedd priodol i wneud hyn yn ystod 2021-22. Bydd argaeledd system TG mwy medrus yn cefnogi'r gwaith.

**Ar 7 Rhagfyr
2020, cynhaliwyd
diwrnod hawliau'r
Gymraeg.**





Yn ôl i fynegai
adran

Materion staff

Cydnabyddiaeth undeb

Mae gan y sefydliad gangen undeb gydnabyddedig o'r PCS, ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng cynrychiolwyr y gangen, y Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd a'r Uwch Swyddog Adnoddau Dynol.

Lles

Mae'r Comisiynydd yn darparu gwasanaeth cynghori cyfrinachol yn rhad ac am ddim i swyddogion er mwyn cefnogi eu hiechyd meddwl. Darperir y gwasanaeth hwn gan gcontractwyr allanol.

Dysgu a datblygu

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu trefn Rheoli Perfformiad sy'n sicrhau bod swyddogion yn deall beth a ddisgwylir ganddynt ac yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i gyflawni hynny. Mae trafod anghenion hyfforddi a datblygu yn rhan allweddol o'r drefn ac mae cynllun datblygu'n cael ei lunio ar gyfer pob swyddog ar sail y trafodaethau hynny, yn unol â'r blaenoriaethau hyfforddiant a gytunir yn flynyddol.

Ystyrir yr opsiynau mwyaf cost effeithiol wrth ddiwallu anghenion hyfforddi a datblygu, a chynigir amrywiaeth o ddulliau hyfforddi lle'n ymarferol bosibl.



Cynlluniau ar gyfer 2021-22

Nod statudol y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae gennym gynllun strategol pedair blynedd sy'n gosod cyfeiriad ar gyfer gweithredu'r nod hwn ac yn egluro gweledigaeth y Comisiynydd a'r amcanion strategol tymor hir. Caiff y cynllun strategol ei roi ar waith gan gynllun gweithredol blyneddol. Mae'r cynllun ar gyfer 2021-22 yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

Amcan strategol 1: Dylanwadu ar bolisi

- Defnyddio dogfen maniffesto etholiad 2021 y Comisiynydd fel sail i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru a rhaglen waith pwyllgorau'r Senedd;
- Ymchwil i ddata addysg bellach a darpariaeth Gymraeg;
- Ymchwil ac adroddiad ar addysg chweched dosbarth a'r Gymraeg;
- Ymchwil ac adroddiad ar ddarpariaeth ieuchyd meddwl plant, pobl ifanc ac oedolion yn Gymraeg; a
- Cyhoeddi Adroddiad 5-mllynedd ar sefyllfa'r Gymraeg 2016-2020.

Amcan strategol 2: Ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg

- Gweithredu rhaglen gosod safonau ar y canlynol:
 - rheoleiddwyr ieuchyd,
 - cydbwyllgorau rhanbarthol;
 - cwmnïau rheilffyrdd; a
 - chyfleustodau
- Parhau i gymeradwyo cynlluniau iaith newydd a diwygiedig ar gyrff sydd ddim yn rhan o'r gyfundrefn safonau; ac
- Ymgynghori a chyhoeddi codau ymarfer safonau'r Gymraeg.

Amcan strategol 3: Sicrhau cydymffurfio â dyletswyddau

- Rhoi cynllun monitro, asesu a gweithredu ar waith;
- Cyhoeddi adroddiad sicrwydd 2020-21;
- Paratoi fframwaith rheoleiddio diwygiedig;
- Rhannu arferion llwyddiannus;
- Gwaith addysgol ym maes safonau llunio polisi, sgiliau a pholisïau am ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;
- Cyhoeddi dogfen gyngor ar ymgynghoriadau clinigol a'r Gymraeg;

- Cyhoeddi dogfen gyngor am werthuso strategaethau hybu;
- hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle;
- Delio a chwynion am safonau; a
- Gorfodi safonau

Amcan strategol 4: Hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg

- Cyflwyno adroddiad ar waith gwirfoddoli;
- Adolygiad o wasanaethau Cymraeg banciau;
- Cynnal sesiynau hyfforddiant a seminarau sectorol;
- Cael mwy o fusnesau ac elusennau i gynyddu eu gwasanaethau Cymraeg drwy gynlluniau datblygu;
- Cydweithio gyda busnesau ac elusennau ar ddatblygu eu Cynnig Cymraeg;
- Rhoi cyngor arbenigol ar enwau lleoedd; a
- Datblygu cronfa enwau lleoedd newydd.



Yn ôl i'r prif
fynegai

Tudalen

Datganiad Llywodraethiant Blynyddol	55
Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff	72
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	84
Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd	85
Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd	89

Rhan 2 Atebolrwydd



O'r popty i'r silff
From oven to shelf





Adroddiad a Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2020-21

Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu mae gennyf gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio Comisiynydd y Gymraeg yn gyffredinol. Mae'n rhaid i mi sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn y sefydliad a bod ei systemau a'i weithdrefnau ariannol yn hyrwyddo proses effeithlon a darbodus o gynnal busnes a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol.

Diben y fframwaith llywodraethu

Nod y fframwaith llywodraethu yw cadw fy annibyniaeth fel Comisiynydd y Gymraeg a chydbwysu'r annibyniaeth honno â'm hatebolrwydd am yr arian cyhoeddus gaiff ei wario. Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn atebol i Senedd Cymru, Gweinidogion Cymru, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru, Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin. Diffinnir Comisiynydd y Gymraeg drwy statud fel corfforaeth undyn a chanddo bwerau a chyfrifoldebau sy'n deillio o Ran 2, Mesur y Gymraeg.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n pennu'r ffordd y caiff Comisiynydd y Gymraeg ei gyfarwyddo ac a ddefnyddir i'w ddwyn i gyfrif am ei weithgareddau. Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith llywodraethu gyda'r nod o reoli risg i lefel resymol.

Bydd Datganiad Llywodraethiant parhaol Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

Cynllunio strategol ac adolygu perfformiad

Mae gan y Comisiynydd Gynllun Strategol ar gyfer 2018–22 a Chynllun Gweithredol sy'n cael ei lunio ar gyfer pob blwyddyn. Datblygwyd Cynllun Gweithredol 2020-21 gyda chyfraniad uwch swyddogion y Comisiynydd drwy drafodaethau mewnol. Mae cyflawniad y gweithgareddau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a adroddir arnynt yn yr adroddiad strategol yn Rhan 1 yr adroddiad.

Dirprwy Gomisiynydd

Yn unol ag adrannau 12 a 13 Mesur y Gymraeg, mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg benodi dirprwy Gomisiynydd. Bydd y Dirprwy Gomisiynydd yn dirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfnodau gwyliau a salwch ac ar unrhyw adeg arall ar gais Comisiynydd y Gymraeg. Mae Gwenith Price, Cyfarwyddwr Strategol, yn parhau fel Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg ers ei thrydydd penodiad ym mis Hydref 2017.



Tîm Rheoli

Mae'r Tîm Rheoli, sy'n cael ei gadeirio gan y Comisiynydd ac yn cynnwys y ddau Gyfarwyddwr, yn rheoli holl swyddogaethau a gweithgareddau'r Comisiynydd. Y Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am arwain, cytuno a chyflawni gweledigaeth strategol y Comisiynydd, polisiau a gwasanaethau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Cafodd cylch gorchwyl y Tîm Rheoli ei adolygu ym mis Hydref 2020.

Roedd aelodaeth y Tîm Rheoli, yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

Aled Roberts

Comisiynydd y Gymraeg

Gwenith Price

Cyfarwyddwr Strategol a Dirprwy
Gomisiynydd

Dyfan Sion

Cyfarwyddwr Strategol

Effaith COVID-19

Ar 17 Mawrth 2020, yn dilyn cyfarfod brys o'r Tîm Rheoli i drafod y mater hwn yn benodol, cyfarwyddwyd holl aelodau staff y Comisiynydd y weithio o gartref oherwydd bygythiad pandemig COVID-19.

I gefnogi'r newid hwn fe luniwyd Polisi Gweithio o Gartref ar gyfer yr holl staff mewn cydweithrediad â'r Undeb. Mae'r Polisi Gweithio o Gartref yn cynnig amodau arbennig i swyddogion i'w cynorthwyo gyda chyfrifoldebau gofal yn ystod cyfnod yr argyfwng. Erbyn diwedd chwarter cyntaf y flwyddyn roedd 22 swyddog wedi defnyddio lwfans gofalu arferol; 21 wedi gwneud defnydd o'r lwfans gofalu ychwanegol a 10 wedi cael cymeradwyaeth i leihau oriau gwaith.

Roedd dros 50% o swyddogion wedi cael eu heffeithio gan ofynion gofalu dros y cyfnod. Mae hwn yn ganran uchel ac yn adlewyrchu demograffeg y gweithlu. Adolygwyd y polisi yn sgil y penderfyniad i ail agor ysgolion ym mis Medi 2020, gan gadw elfen o hyblygrwydd i ystyried achosion unigol allasai godi.

Er mwyn gallu hwyluso'r newid sylfaenol hwn mewn ffordd ymarferol bu'n rhaid i'r Tîm TG fynd ati i addasu seilwaith ein systemau TG er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad diogel i'r rhwydwaith. Roedd hefyd yn flaenoriaeth i sefydlu system ffôn gyda'r gallu i arallgyfeirio galwadau i swyddogion. Golygai hyn bod y cyhoedd yn gallu parhau i gysylltu â ni ar y rhif ffôn arferol a derbyn yr un gwasanaeth gennym.



Paratowyd canllawiau newydd i swyddogion ar ddelio gyda data personol a gweithio o bell. Bu'r Uwch Swyddog Llywodraethiant hefyd yn darparu cyngor unigol i swyddogion ar faterion penodol yn ôl y gofyn. Yn ystod Awst a Medi 2020 mewn cydweithrediad ag archwilwyr mewnol y Comisiynydd, darparwyd modiwl dysgu ar lein ar faterion GDPR a Diogelu Data i staff. Roedd hwn yn hyfforddiant hanfodol ac yn cynnwys prawf ar ddiwedd y modiwl ble roedd gofyn i staff basio'r prawf gyda 90%. Ar gyfer y rhai na lwyddodd i gael 90% cynhaliwyd sesiwn adolygu gyda'r Uwch Swyddog Llywodraethiant er mwyn adolygu'r modiwl a thrafod unrhyw gwestiynau a berodd anhawster.

O ganlyniad i'r sefyllfa bu'n rhaid gohirio cyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mawrth 2020. Gofynnwyd i'r aelodau adolygu'r papurau ar lein a darparu sylwadau i swyddogion. Erbyn mis Mehefin 2020 roedd y dechnoleg wedi ei sefydlu i alluogi'r Comisiynydd i gynnal cyfarfodydd arferol ar lein.

Gohebwyd â phob cyflenwr i'w hysbysu bod y swyddfeydd ar gau ac mai'r dull o gysylltu ar gyfer y cyfnod oedd e-bost at bwrpas anfonebu a thaliadau. Gwnaethpwyd trefniadau ymarferol gyda'r Post Brenhinol i ailgyfeirio'r post i gyfeiriad cartref swyddog.

Hysbyswyd landlordiaid y swyddfeydd o benderfyniad y Comisiynydd gan wneud trefniadau ymarferol gyda'r tenantiaid eraill a chwmnïau cynnal a chadw.

Parhau i weithredu – Cynllun Gweithredol

Bu'n rhaid ail edrych ar gynllun gweithredol y sefydliad ar gyfer 2020-21 oedd yn cael ei lunio ar y pryd. Addaswyd rhaglenni gwaith a rhoddwyd trefniadau amgen mewn lle yn gyflym yn sgil cyfyngiadau argyfwng COVID-19. Roedd hyn er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o amharu ar waith a swyddogaethau'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y chwarter cyntaf llwyddodd y timoedd i reoli'r sefyllfa'n effeithiol gan sefydlu rhaglen waith clir er mwyn sicrhau parhad y gwaith ac yna cynnydd yn y gwaith erbyn diwedd chwarter dau. Cymeradwywyd y cynllun gan y Tîm Rheoli ym mis Ebrill 2020.

Pan oedd sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gosod cynlluniau yn eu lle ym mis Mawrth 2020 er mwyn delio ag amgylchiadau eithriadol Covid-19, roedd cyfrifoldeb ar y Comisiynydd i ystyried effaith hynny ar ei swyddogaethau dan Fesur y Gymraeg, a hefyd gallu sefydliadau i gydymffurfio gyda dyletswyddau. Roedd safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg yn parhau'n weithredol ac yn creu hawliau pwysig ac roedd am weld cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu cynnal er gwaethaf heriau'r pandemig. Cysylltodd y Comisiynydd â sefydliadau cyhoeddus ddiwedd Mawrth 2020 i rannu gwybodaeth ynghylch sut yr oedd yn bwriadu addasu ei ddulliau rheoleiddio dan yr amgylchiadau. Pwysleisiodd fod dyletswydd arno i barhau i reoleiddio a gofynnodd i sefydliadau wneud eu gorau i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â'r cyhoedd i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl. Anogodd sefydliadau i osod trefniadau cyfieithu digonol yn eu lle fel rhan o'u paratoadau i gyfathrebu â'r cyhoedd a dywedodd mai mater i'r sefydliadau fyddai gwneud penderfyniadau ynghylch sut i ddefnyddio'r Gymraeg wrth rannu



gwybodaeth frys, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau ac unrhyw sefyllfaoedd argyfyngus yn ystod y pandemig. Oherwydd yr argyfwng iechyd penderfynodd y Comisiynydd na fyddai'n briodol i ymgymryd â gwaith monitro gwasanaethau drwy gynnal cip arolygon gan na theimlai y byddai'r canlyniadau yn adlewyrchu'n deg ar y sefydliadau.

Rhwng Ebrill a Gorffennaf 2020, penderfynodd y Comisiynydd i oedi pob ymchwiliad statudol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG Cymru oedd ar fynd. Cafodd rhai ymchwiliadau i sefydliadau mewn sectorau eraill eu gohirio yn ogystal - hysbyswyd cynghorau sir a Gweinidogion Cymru bod y Comisiynydd yn barod i oedi prosesau ymchwilio pe bai sefydliad yn ei hysbysu nad oedd yn gallu ymateb i ddarparu gwybodaeth o fewn yr amserlen arferol. Ymgynghorwyd ag achwynwyr i'w gwahodd i gyflwyno sylwadau ar ei fwriad i ddiwygio amserlen yr ymchwiliadau statudol yr oedd wedi eu cychwyn eisoes.

Rhoddwyd sicrwydd i achwynwyr, lle'r oedd y Comisiynydd yn gwneud penderfyniad i ohirio ymchwiliad, y byddai'n ail afael yn y broses unwaith yr oedd yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny. Roedd y Comisiynydd yn delio â nifer o geisiadau gan sefydliadau GIG Cymru i herio dyletswyddau dan adran 55 Mesur y Gymraeg ym mis Mawrth 2020. Penderfynwyd caniatáu rhagor o amser iddynt ymateb i'w sylwadau cychwynnol ar eu ceisiadau nag a ganiateir fel arfer – dyfarnwyd ar yr holl geisiadau yn derfynol erbyn Hydref 2020.



Ymosodiad seibr Rhagfyr 2020

Yn ystod trydydd chwarter y flwyddyn, dioddefodd y Comisiynydd ymosodiad seibr difrifol a effeithiodd ar fwyafrif o systemau TG y Comisiynydd. Golygodd hynny bod angen gwaith sylweddol ar ailgodi a sefydlu isadeiledd TG newydd i'r sefydliad o fewn amgylchedd Microsoft 365.

Yn dilyn yr ymosodiad blaenoriaethwyd gosod cyfrifon Microsoft 365 i staff a ffurfweddu a dosbarthu gliniaduron newydd iddynt. Bu'n rhaid mynd ati i fudo'r data a adferwyd i'r system newydd, gosod meddalwedd cyllid newydd yn y cwmwl a rhoddwyd blaenoriaeth uwch i adeiladu gwefan o'r newydd gan fod yr un cyfredol wedi ei cholli.

Ymhellach mae camau penodol wedi eu cymryd i sicrhau diogelwch y system newydd, gan gynnwys system ffiltro e-byst gyda e-byst sy'n peri bygythiad yn gael eu gwrthod ac e-byst amheus yn cael eu cadw mewn 'cwarantyn'. Rydym wedi gwneud defnydd sylweddol o'r system hon gyda bygythiadau seibr drwy e-byst ar gynnydd. Gyda chydweithrediad TARIAN, Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol gwasanaethau heddluoedd yn ne

Cymru, mae ein rhaglen hyfforddi diogelwch seibr wedi parhau. Byddwn hefyd yn chwilio am ffyrdd i warchod data personol drwy feddalwedd amgryptio.

Mae'r ymosodiad seibr wedi arwain at gostau penodol na fyddem ni wedi gorfod eu hysgwyddo fel arall. Mae rhai costau penodol iawn fodd bynnag yn gysylltiedig ag adfer data a gwaredu asedau yn 2020-21. Ni ddefnyddiwyd y cyllid cyfalaf, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn benodol ar gyfer y prosiect isadeiledd TG, ar gyfer ariannu'r costau hyn.

Er mwyn cael barn annibynnol fe wnaethom gomisiynu'r archwilyr mewnlol i gynnal ymchwiliad dichonolrwydd i ganfod pa dystiolaeth ddigidol oedd ar gael i ddeall natur a methodoleg yr ymosodiad. Rhannwyd yr adroddiad gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Yn ystod y dyddiau wedi'r digwyddiad roeddem yn ceisio deall natur ac effaith y digwyddiad. Ar yr adeg hwn, nid oedd gennym fynediad at offer nac unrhyw wybodaeth oddi ar ein systemau. Cyhoeddwyd datganiad cyhoeddus ar wefan Llywodraeth

Cymru ac fe'i rannwyd ar ein rhwydweithiau cymdeithasol yn egluro bod y Comisiynydd wedi dioddef ymosodiad seibr a cholled data posibl yn rhan o hynny. Yn y datganiad hwn, roddem yn cynghori unrhyw un oedd yn credu eu bod wedi eu heffeithio i gysylltu â swyddfa'r Comisiynydd. Hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r digwyddiad ar 11 Rhagfyr 2020, o fewn y 72 awr gofynnol.

Hysbysu Unigolion

Cyhoeddwyd neges gyhoeddus ar gyfrifon rhwydweithiau cymdeithasol Comisiynydd y Gymraeg ddechrau Ionawr 2021, er mwyn diweddarau'r cyhoedd a chysylltiadau.

Fe gynhaliwyd asesiad risg gan y Comisiynydd o'r data personol yr oedd wedi ei golli. O ganlyniad i effaith yr ymosodiad seibr ar systemau'r Comisiynydd ac nad oedd modd cael mynediad i'r system i wirio data personol pw y oedd gennym a chael eu manylion cyswllt er mwyn eu hysbysu'n bersonol, cyhoeddwyd tudalen sblash ar wefan dros dro'r Comisiynydd yn cynnwys datganiad llawn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am yr ymosodiad seibr.



Yng ngoleuni'r uchod a'r asesiad risg, fe gyhoeddodd y Comisiynydd hysbysiad cyhoeddus am yr ymosodiad seibr er mwyn hysbysu unigolion oedd, yn ein barn ni, yn perthyn i'r categori risg uchel o ran effeithiau andwyol posibl. Cyhoeddwyd yr hysbysiad hwn ar 18 Chwefror 2021. Roeddem wedi ymatal rhag cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus o'r fath ar gyngor yr heddlu a oedd yn arwain yr ymchwiliad troseddol. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaeth fewnol roeddem yn credu y dylem gael hysbysiad cyhoeddus o'r fath erbyn yr amser hwn ac fe drafodwyd hynny gyda'r heddlu.

Bu cyswllt agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy gydol y cyfnod.

Cwynion yn erbyn y Comisiynydd yn dilyn yr ymosodiad seibr

Derbyniwyd un cwyn gan aelod o'r cyhoedd / defnyddiwr gwasanaethau'r Comisiynydd (15/12/2020). Roedd cwyn yr unigolyn yn ymwneud â systemau TG y Comisiynydd, roedd yr unigolyn o'r farn bod ganddo dystiolaeth oedd yn dangos nad oedd systemau'r Comisiynydd yn ddigon diogel. Dilynwyd cam 1 gweithdrefn gwyno'r Comisiynydd, a darparwyd ymateb i'r unigolyn yn unol â therfynau amser y weithdrefn.

Derbyniwyd un galwad ffôn gan unigolyn (18/12/2020) oedd am wybod mwy am y digwyddiad ar lafar dros y ffôn wedi iddo weld y datganiad ar Twitter.

Derbyniwyd 8 ymateb yn dilyn yr ohebiaeth gyntaf gan y Comisiynydd at gyn aelodau o staff. Anfonwyd ymateb gan y Comisiynydd at bob un.

Roedd yr ohebiaeth yn hysbysu unigolion, oedd wedi cyflwyno cwyn yn ymwneud â'r gyfundrefn safonau, wedi arwain at 2 unigolion yn cysylltu ymhellach (17/02/2021) i nodi anfodlonrwydd. Dilynwyd Cam 1 o broses gwyno'r Comisiynydd gyda'r ddau gŵyn a darparwyd ymateb i'r unigolion.

Mae'r Comisiynydd yn cynnal polisïau a gweithdrefnau diogelu gwybodaeth a bydd yr holl bolisïau hyn yn cael eu hadolygu yn dilyn yr ymosodiad seibr er mwy sicrhau fod unrhyw gwersi a ddysgwyd yn cael eu hadlewyrchu. Bydd unrhyw argymhellion gan unrhyw ymchwiliad fu'n dilyn yr ymosodiad hefyd yn cael eu cynnwys yn y dogfennau hyn. Bydd sesiynau briffio a hyfforddi yn cael eu cynnal i staff ar y polisïau hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Brexit

Ar ddiwedd y cyfnod pontio, daeth y DU yn 'drydedd wlad' i'r UE at ddibenion rheoliadau diogelu data. Wrth i'r DU geisio penderfyniadau digonolrwydd data gan yr UE o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (sy'n cynnwys llifau data cyffredinol a masnachol) a'r Gyfarwydddeb Gorfodi'r Gyfraith (sy'n cynnwys llifau data gorfodi'r gyfraith) a fydd, yn caniatáu i'r llif rhydd o ddata personol o'r UE / AEE i'r DU barhau heb ymyrraeth bu'r Comisiynydd yn darparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ar gais, ar ei lifau data. Derbyniwyd canllawiau Llywodraeth Cymru ar y camau y dylid eu cymryd i baratoi ar gyfer y penderfyniad digonolrwydd. Yn gyffredinol, nid yw hyn wedi peri anawsterau i'r Comisiynydd gan nad yw ei lifau data, fel rheol, yn gadael y DU.

Diogelu Data

Derbyniwyd 1 cais gwrthrych am wybodaeth o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn ystod y flwyddyn (2019-20: 1 cais). Derbyniodd yr unigolyn ymateb a chopi o'r data personol oedd y Comisiynydd yn ei ddal amdanynt o fewn terfynau amser y ddeddfwriaeth.



Yn ystod y flwyddyn mae'r Comisiynydd wedi parhau i weithio tuag at sicrhau cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth diogelu data gan gynnwys Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 a Deddf Diogelu Data 2018. Yn flynyddol bydd y Comisiynydd yn:

- o sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw;
- o bod gwybodaeth bersonol unigolion yn cael ei brosesu ar gyfer pwrpas y prosesu ac ar sail gyfreithiol y prosesu; a
- o bod cyfnodau cadw a manylion technegol y sefydliad yn cael eu cynnal gan fesurau diogelwch addas.

Rhyddid gwybodaeth

Derbyniwyd 14 cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ystod y flwyddyn (2019-20: 36 cais).

Yn dilyn yr ymosodiad seibr nid oedd modd i'r Comisiynydd ymateb yn llawn i un cais am wybodaeth, gohebiaeth rhyngom ac Awdurdod Lleol, gan nad oedd yr wybodaeth ar gael gennym mwyach. Eglurwyd hyn wrth y ceisydd gan ei gynghori i ofyn i, neu i roi caniatâd i'r Comisiynydd drosglwyddo'r cais i'r Awdurdod Lleol o dan sylw.

Mae'r ymosodiad seibr wedi arwain at un cais am wybodaeth. Roedd yr unigolyn wedi cysylltu gyda'r Comisiynydd yn dilyn yr ymosodiad ym mis Rhagfyr 2020, ond nid oedd o'r farn fod ateb cyflawn wedi ei ddarparu, a chyflwynwyd cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Derbyniodd y Comisiynydd ohebiaeth gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn ein cynghori i ystyried y mater o dan weithdrefn adolygiad mewnol. Cynhaliwyd yr adolygiad mewnol ac fe ryddhawyd yr holl wybodaeth ym meddiant y Comisiynydd i'r unigolyn; a darparwyd copi i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae ymatebion y Comisiynydd i geisiadau, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth a ryddhawyd, fel rheol yn cael eu cyhoeddi ar y wefan. Yn dilyn yr ymosodiad seibr mae colled wedi bod i'r wybodaeth hon o'r wefan. Pan fydd y wefan newydd wedi ei chyhoeddi, bydd y Comisiynydd yn dychwelyd at yr arfer hwn.

Ym mis Rhagfyr 2020 cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ei hysbysiad penderfyniad ar ymchwiliad oedd yn parhau ar agor ers 2019. Ar gyfer y mater dan sylw, gan gyfeirio at adran 12 o'r Ddeddf Rhyddid

Gwybodaeth, nododd y Comisiynydd y byddai'r gwaith o ymateb i'r cais yn mynd tu hwnt i'r trothwy o 18 awr. Cynhaliwyd adolygiad mewnol i'r penderfyniad, gan gadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol. Cyflwynodd y ceisydd gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Wrth ddarparu ymateb i'r Comisiynydd Gwybodaeth ar y mater hwn, penderfynodd y Comisiynydd ailystyried y cais. Darparwyd peth o'r wybodaeth i'r ceisydd, ond hefyd daliwyd peth gwybodaeth yn ôl, yn seiliedig ar eithriadau adran 31 Gorfodi'r Gyfraith, adran 40(2) Data personol trydydd parti ac adran 44(1) Gwahardd rhag datgelu. Roedd hysbysiad penderfyniad y Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal penderfyniad y Comisiynydd i ddibynnu ar yr eithriadau hyn. Nodwyd hefyd yn yr hysbysiad fod y Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn, wrth fethu â darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl cael y cais, bod Comisiynydd y Gymraeg wedi torri adran 10(1) o'r Ddeddf. Fe wnaeth y Comisiynydd Gwybodaeth hefyd sylwadau ar ddatgelu gwybodaeth yn dameidiog i'r ceisydd. Mae'r Comisiynydd yn derbyn sylwadau'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd ymateb i'r cais hwn, ac yna'r ymchwiliad, yn heriol iawn gan ei fod yn ymwneud



â channoedd o ddogfennau. Bu sawl swyddog yn ymhél â'r gwaith hwn, ar draul cynnal gwaith arferol dydd i ddydd. O ganlyniad i hyn, ac er mwyn cynyddu tryloywder yr wybodaeth gyhoeddus am waith ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd, mae penderfyniad wedi ei gymryd i gyhoeddi adroddiadau a chylchoedd gorchwyl ymchwiliadau terfynol ar y wefan.

Cwynion yn erbyn y sefydliad

Mae gennym weithdrefn gwyno benodol os bydd unigolyn am gwyno am weithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd. Bydd copi o'r weithdrefn hon yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r cwynion a dderbyniwyd yn dilyn yr ymosodiad seibr eisoes wedi ei hadrodd ar dudalen 47.

Yn 2019-2020 adroddwyd am gŵyn oedd wedi ei chyflwyno gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, oedd yn honni fod y Comisiynydd yn ymchwilio i lai o gwynion a bod hynny o ganlyniad i gyflwyno arferion cyn-ymchwilio newydd. Roeddent hefyd o'r farn bod methiant ar ran y Comisiynydd i ddefnyddio pwerau cosb sifil. Roeddent o'r farn bod y prosesau newydd hyn yn golygu bod cyrff

yn llai tebygol o gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg gan eu bod yn gwybod bod y Comisiynydd yn cynnal llai o ymchwiliadau. Penodwyd ymgynghorydd allanol i gynnal adolygiad annibynnol o'r gŵyn. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nid yw'r Comisiynydd:

- o yn gweithio yn groes i Fesur y Gymraeg;
- o yn anrhyloyw; nac
- o yn gweithio'n groes i'r Polisi Gorfodi.

Cadarnhaodd yr ymgynghorydd annibynnol mai mater o ddisgresiwn i'r Comisiynydd yw pa opsiwn neu opsiynau i'w cymryd pan mae methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol.

Roedd dau argymhelliad yn yr adroddiad:

Argymhelliad i'r Comisiynydd

Er hwylustod i Gymdeithas yr Iaith ac achwynwyr eraill, ei fod yn casglu at ei gilydd ganllawiau'r Tribiwnlys ynglŷn â'i ddyletswyddau wrth ystyried ai i agor ymchwiliad ai peidio, a'u llwytho i fyny ar ei wefan.

Argymhelliad i Gymdeithas yr Iaith

Er lles Cymdeithas yr Iaith a'r Comisiynydd, eu bod yn ymgyswrtio â chanllawiau'r Tribiwnlys ynglŷn â dyletswyddau'r Comisiynydd wrth ystyried ai i agor ymchwiliad ai peidio.

Derbyniodd y Comisiynydd yr argymhellion ac fe gyhoeddwyd yr adroddiad yn llawn ar wefan y Comisiynydd ar 15 Mai 2020.

Yn ystod 2020-21, derbyniwyd dwy gŵyn yn erbyn y sefydliad ac fe'u hystyriwyd o dan cam 2 y weithdrefn gwyno (2019-20: 4 cwyn).

CES100

Derbyniwyd cwyn am yr oedi wrth i'r Comisiynydd gadw mewn cyswllt gydag unigolyn yn dilyn ymholiad. Yn yr achos hwn roedd y mater o dan sylw yn fater hirdymor ynglŷn â methiant honedig i ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Yn yr achos hwn ymddiheurwyd am yr oedi gan gytuno i drosglwyddo'r mater i fod yn gŵyn ynglŷn â methiant honedig i ddarparu gwasanaeth Cymraeg.



CSG623 a CSG636

Roedd y gŵyn hon yn honni nad oedd y Comisiynydd wedi rhoi sylw dyladwy i sylwadau a gyflwynwyd gan achwynydd dros e-bost, ar adroddiadau arfaethedig, cyn dyfarnu'n derfynol ar yr ymchwiliadau hynny. Ar ôl edrych i mewn i'r mater, cadarnhawyd nad oedd cofnod gennym o dderbyn yr e-byst hyn. Gofynnwyd i'r achwynydd ail yrru'r e-byst ac fe benderfynwyd tynnu adroddiad a hysbysiad penderfynu'r ddau ymchwiliad yn ôl, er mwyn rhoi'r cyfle i roi sylw dyladwy i'w sylwadau cyn dyfarnu'n derfynol ar yr ymchwiliadau. Wrth ymchwilio, nodwyd bod ein systemau diogelwch awtomatig yn cynnwys dau gam cyn bod e-byst yn cael eu derbyn gan ein cyfrifon. Mae'n bosib felly fod yr e-byst wedi cael eu gwrthod gan ein systemau ar gam 1 y broses. Er mwyn ceisio sicrhau na fyddai hyn yn digwydd eto, ymrwymwyd i edrych ar ein systemau diogelwch e-byst er mwyn ceisio canfod datrysiad. Roedd yr unigolyn yn anfodlon gyda'r ymateb hwn ac fe gyfeiriodd y mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Penderfynodd yr Ombwdsmon i beidio ag ymchwilio ond nododd y dylai'r Comisiynydd gynnig ymddiheuriad i achwynwyr pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le. Cadarnhawyd mai dyma oedd arfer y Comisiynydd a'i fod yn rhan o'r canllaw cwynion mewnol.

Cytundeb Fframwaith Cyfreithiol

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd proses dendro Ewropeaidd (OJEU) ar gyfer Cytundeb Fframwaith Cyfreithiol y Comisiynydd ar gyfer cyfnod 2021-25. Llwyddwyd i gynnal y broes, er gwaethaf yr ymosodiad seibr, a phenodwyd pedwar cwmni i'r fframwaith newydd.

Archwilwyr

Paratowyd cynllun archwilio mewnol 2020-21 gan yr archwilwyr mewnol, TIAA, ym mis Ebrill 2020 ac fe'i cymeradwywyd gan y Comisiynydd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mehefin 2020.

Yn unol ag Atodlen 1 Rhan 5 Mesur y Gymraeg, Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd yn gyfrifol am archwilio cyfrifon y Comisiynydd.

Pwyllgor Archwilio a Risg

Y Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor a sicrwydd annibynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Tîm Rheoli ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a rheoli risg. Adolygwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mawrth 2021. Mae'r Cadeirydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Comisiynydd yn crynhoi gwaith y pwyllgor ac yn datgan barn am reolaeth fewnol a rheoli risg ar gyfer y cyfnod adrodd.

Derbyniodd y Comisiynydd adroddiad blynyddol y Cadeirydd ar 30 Mehefin 2021. Yn ogystal a dwyn sylw penodol at arweiniad cryf y Comisiynydd a dwyn sylw at broffesiynoldeb y cyfarwyddwyr, yr uwch swyddogion a'u timoedd, fe gymerodd y pwyllgor y cyfle i wneud yn glir bod sicrwydd wedi ei dderbyn a fod yna drefniadau, polisïau a phrosesau er mwyn ceisio sicrhau llywodraethiant effeithiol, fod yna drefniadau ariannol effeithlon; bod system mewn lle i reoli risg, a bod rheolaeth fewnol yn gadarn.



Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd y Comisiynydd yn ymateb i sylwadau adeiladol wnaed gan y pwyllgor yn dilyn yr ymosodiad seibr. Fel rhan o waith ail godi'r sefydliad bydd trefniadau diogelwch a systemau wrth gefn yn cael blaenoriaeth. Bydd y Comisiynydd yn cynllunio'n gadarn, gan ddysgu o'r cyfnod heriol a gafwyd, er mwyn sicrhau gwerth am arian drwy gyfrwng y systemau TG newydd.

Mae pedwar aelod annibynnol o'r pwyllgor; ac mae trefn lle mae cyfnod mewn swydd gwahanol aelodau yn dod i ben ar wahanol adegau er mwyn sicrhau parhad profiad a gwybodaeth. Ymddiswyddodd Ian Rees fel Cadeirydd ac aelod o'r pwyllgor ym mis Mehefin 2020 a phenodwyd Alan Davies fel aelod ym mis Hydref 2020 am gyfnod o dair blynedd. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bedair gwaith yn ystod 2020-21. Dyma fanylion presenoldeb:

	Meh 2020	Medi 2020	Rhag 2020	Mawrth 2021
Ian Rees	Cadeirydd ✓			
Iorwen Brooks-Jones	✓	Cadeirydd ✓	Cadeirydd ✓	Cadeirydd ✓
Liz Aitken	✓	✓	✓	✓
Mair Gwynant	✓	✓	✓	✓
Alan Davies			✓	✓

Ym mis Rhagfyr 2020, defnyddiwyd cyfarfod y pwyllgor i drafod yr ymosodiad seibr yn unig o ganlyniad i'r digwyddiad. Ystyriwyd papurau cyfarfod Rhagfyr 2020 yng nghyfarfod Mawrth 2021.

Fel rhan o'r cylch gwaith mae'r pwyllgor yn derbyn adroddiad cyllid ac adroddiad cynnydd chwarterol

ar y Cynllun Gweithredol, sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Tîm Rheoli. Mae'r Tîm Rheoli a'r Rheolwr Risg yn mynychu pob un o gyfarfodydd y pwyllgor; ac yn ogystal, mae cynrychiolwyr o'r archwilwyr mewnol ac allanol yn cael eu gwahodd i fynychu. Mae sesiynau briffio a hyfforddiant

ar faterion perthnasol ar gyfer yr aelodau yn cael eu cynnal o flaen cyfarfodydd llawn y pwyllgor.

Mae'r pwyllgor hefyd yn parhau i gynnal trafodaethau gyda'r Comisiynydd, yn ogystal â'r cyfarfodydd preifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol.



Yn ôl i fynegai
adran

Panel Cyngkori Comisiynydd y Gymraeg

Yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg, mae gan y Comisiynydd Banel Cyngkori. Penodir aelodau'r Panel Cyngkori gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd. Daeth cyfnod aelodaeth Meinir Davies, Heledd Iago a Nick Speed fel aelodau i ben ar 31 Mawrth 2021. Yn dilyn proses recriwtio agored gan Lywodraeth Cymru, ar 9 Chwefror 2021 cyhoeddwyd mai Rona Aldrich, Elin Maher a Gwyn Williams fyddai aelodau newydd y Panel, gyda'r penodiadau yn dechrau ar 1 Ebrill 2021. Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cyngkori ynghylch unrhyw fater. Bydd cylch gwaith y Panel Cyngkori yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Panel Cyngkori yn ystod y flwyddyn. Dyma fanylion presenoldeb:

	Meh 2020	Hydref 2020	Rhag 2020	Mawrth 2021
Meinir Davies (Cadeirydd)	✓	✓	✓	✓
Nick Speed	✓	✓	✓	✓
Heledd Iago	✓	✓	✓	✓
Nia Elias	✓	✓	✗	✓
Anne Davies	✓	✓	✓	✓

Cofrestr buddiannau

Caiff y gofrestr buddiannau ei diweddarau ddwywaith y flwyddyn. Yn ogystal, gofynnir i aelodau o'r Tîm Rheoli, cyfarfod Dyfarnu'r Comisiynydd, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Panel Cyngkori gofnodi unrhyw fuddiannau ar ddechrau'r cyfarfodydd. Ni chafwyd trafodion materol perthnasol yn ystod y flwyddyn â sefydliadau lle roedd y Comisiynydd, y cyfarwyddwyr neu'r uwch swyddogion, nac unrhyw aelodau o'u teuluoedd, mewn swyddi dylanwadol.

Bydd gwybodaeth am fuddiannau'r Tîm Rheoli yn cael eu cyhoeddi ar y wefan.

Adrodd ar Gynaliadwyedd a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'n rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi cynllun sy'n egluro'r camau gweithredu y bydd yn eu cymryd i gydymffurfio â'i ddyletswyddau dan Ddeddf yr Amgylchedd. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu bob tair blynedd ochr yn ochr ag adroddiad sy'n

egluro sut mae'r Comisiynydd wedi cydymffurfio. Cyhoeddodd y Comisiynydd ei adroddiad cyntaf ym mis Rhagfyr 2019.

Tribiwnlys y Gymraeg

Yn ystod 2020-21, cyflwynwyd 8 cais gan unigolion i Dribiwnlys y Gymraeg am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad mewn perthynas â chwyn (2019-20:14 cais).



Yn ôl i fynegai
adran

Cyflwynwyd 1 apêl gan sefydliad o dan adran 95(2) Mesur y Gymraeg yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd yn dilyn ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg (2019-20: 1 apêl). Tynnwyd yr apêl hwn yn ôl, felly'n cadarnhau dyfarniad y Comisiynydd.

Gwrthododd y Tribiwnlys roi caniatâd i 6 cais. Roedd 4 o'r rhain yn geisiadau i'r Tribiwnlys ailystyried ei benderfyniad; a thynnwyd 3 o'r ceisiadau yn ôl gan y ceisydd, ac ar ddiwedd y flwyddyn, roedd disgwyl i'r Tribiwnlys ddod i benderfyniad ar y pedwerydd.

Mae goblygiadau yn deillio o rai o'r achosion a gynhaliwyd. Bydd penderfyniadau'r Tribiwnlys yn cael sgil effaith ar y Comisiynydd wrth iddo ddyfarnu a gwneud penderfyniadau, ar sefydliadau cyhoeddus, ac ar achwynwyr fel ei gilydd. Mae sylwebaeth ar yr achosion ag iddynt oblygiadau fel a ganlyn:

TYG2019/08

Cynhaliodd y Tribiwnlys adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor). Roedd y gŵyn yn ymwneud ag arwydd ffordd dros dro newydd, oedd â thestun uniaith Saesneg, 'New Road layout Ahead', arno.

Penderfynwyd peidio ag ymchwilio i'r gŵyn oherwydd bod y Cyngor wedi rhoi gwybod i'r Comisiynydd, cyn iddo wneud ei benderfyniad i ymchwilio ai peidio, nad y Cyngor oedd yn gyfrifol am godi'r arwydd. Roedd hynny'n golygu nad oedd y gŵyn yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, ac felly nad oed gan y Comisiynydd bwerau dan Fesur y Gymraeg i gynnal ymchwiliad.

Roedd yr achwynydd yn honni nad oedd hawl gan y Comisiynydd i wahodd y Cyngor i gyflwyno sylwadau am y gŵyn cyn penderfynu ymchwilio ai peidio. Trwy wneud hynny, ac ystyried sylwadau'r Cyngor, honnodd yr achwynydd fod y Comisiynydd wedi ystyried ffactorau amherthnasol wrth ddod i'w benderfyniad.

Roedd y Tribiwnlys yn derbyn nad y Cyngor oedd yn gyfrifol am yr arwydd. Roedd yn derbyn hefyd fod gwahodd y Cyngor i gyflwyno sylwadau am y gŵyn cyn penderfynu a ddylid ymchwilio yn gam arferol i'w gymryd, ac yn gyson â'r broses sydd wedi ei hamlinellu ym mholisi gorfodi'r Comisiynydd.

Cadarnhaodd y Tribiwnlys fod penderfyniad y Comisiynydd yn gyfreithlon, rhesymol a'i fod wedi ei wneud gyda thegwch gweithdrefnol.

TYG2019/09

Cynhaliodd y Tribiwnlys adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor). Roedd y gŵyn yn ymwneud ag arwydd ffordd dros dro newydd, oedd yn gosod y testun Cymraeg o dan y testun Saesneg, gyda llythrennau oedd yn llai o ran maint.



Penderfynwyd peidio ag ymchwilio i'r gŵyn oherwydd:

- o fod y Cyngor wedi cywiro'r arwydd yn syth ac atgoffa'r cwmni a gododd yr arwydd ar ei ran o ofynion safonau'r Gymraeg;
- o bod ymchwiliad blaenorol wedi arwain at newid yn ymddygiad y Cyngor tuag at gydymffurfiaeth â'r safonau mewn perthynas ag arwyddion ac na fyddai ymchwiliad arall yn ddefnydd cymesur o adnoddau; ac
- o nad oedd y gŵyn yn amlygu arfer systemig o fethiant i gydymffurfio.

Roedd yr achwynydd yn honni, ymysg pethau eraill, fod rhesymau'r Comisiynydd dros beidio ag ymchwilio yn afresymol ac yn afresymegol oherwydd:

- o na ddylid goddef unrhyw fethiant o gwbl ac y dylid cynnal ymchwiliad i bob methiant;
- o na ddylai'r defnydd a wneir o adnoddau fod yn ffactor i'w ystyried wrth benderfynu ymchwilio ai peidio; ac

- o na ddylid ystyried camau a gymerwyd gan y Cyngor ar ôl dod yn ymwybodol o'r gŵyn cyn penderfynu ymchwilio ai peidio.

Roedd y Tribiwnlys yn derbyn fod ymchwiliadau blaenorol a gynhaliwyd i faterion cyffelyb yn ffactor y gallai'r Comisiynydd ei ystyried. Felly hefyd y ffaith fod y Cyngor wedi ymateb yn gyflym i gywiro'r arwydd ac nad oedd y gŵyn yn symptom o broblem systemig.

Cadarnhaodd y Tribiwnlys fod y Comisiynydd wedi ystyried y prif ffactorau perthnasol wrth wneud ei benderfyniad a'i fod yn gyson ag amcanion Mesur y Gymraeg.

TYG2020/02

Yn dilyn derbyn cwynion am ddiffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar y gwasanaethau trên yng Nghymru, cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad i gydymffurfiaeth Gweinidogion Cymru gyda safonau'r Gymraeg. Dyfarnodd y Comisiynydd fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio gydag 11 o'r safonau, a gosododd 12 o gamau gorfodi arnynt er mwyn sicrhau nad oedd y methiant yn parhau neu'n digwydd eto. Cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliad ym mis Chwefror 2020.

Yn dilyn hynny, cyflwynodd Gweinidogion Cymru apêl yn erbyn y dyfarniad a'r camau gorfodi i Dribiwnlys y Gymraeg ar y seiliau isod:

- o Cwmni Keolis Amey ac nid Gweinidogion Cymru oedd yn gweithredu'r gwasanaethau trên yng Nghymru;
- o Roedd Keolis Amey yn gweithredu o dan gytundeb rhyddfrait ac nid oedd yn is contractwr i Weinidogion Cymru;
- o Yn gyfreithiol, nid oedd cytundeb rhwng Keolis Amey a Gweinidogion Cymru, oherwydd roedd Keolis Amey wedi derbyn y rhyddfrait trwy statud;
- o Nid yw Keolis Amey yn darparu unrhyw wasanaethau ar ran un ai Gweinidogion Cymru na Thrafnidiaeth Cymru;
- o O ganlyniad, nid yw'r safonau yn berthnasol i Keolis Amey ac, at ddiben y gyfraith, nid ydynt yn berthnasol o dan yr amodau hyn i Weinidogion Cymru (nac i Trafnidiaeth Cymru) mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan Keolis Amey.



Wrth gyflwyno'u hapêl i'r Tribiwnlys, cyflwynodd Gweinidogion Cymru dystiolaeth na chafodd ei chyflwyno i'r Comisiynydd wrth iddo gynnal ei ymchwiliad. Ar ôl ystyried y dystiolaeth newydd, a derbyn cyngor cyfreithiol, daeth y Comisiynydd i'r casgliad fod rhaid derbyn dadleuon Gweinidogion Cymru. Felly, er mwyn osgoi costau diangen yn ymladd achos nad oedd ganddo ddisgwyliad rhesymol y byddai'n ennill, penderfynwyd na ddylid herio'r apêl. Yn sgil hynny, mae'r Tribiwnlys wedi cyflwyno gorchymyn sy'n caniatáu'r apêl ac sy'n diddymu dyfarniad a chamau gorfodi'r Comisiynydd. Golyga hyn fod y Tribiwnlys yn cadarnhau ble mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy gytundeb rhyddfrait, a bod y rhyddfrait wedi ei roi drwy statud, nid yw deiliad y rhyddfrait yn darparu gwasanaeth ar ran y sawl sy'n dyrannu'r rhyddfrait.

TYG2020/05

Gwrthododd y Tribiwnlys gais gan achwynydd am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor). Roedd y gŵyn yn ymwneud â'r ffaith bod gwybodaeth frys am yr argyfwng COVID-19 wedi ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor yn Saesneg, awr cyn i'r wybodaeth gyfatebol gael ei chyhoeddi yn y Gymraeg.

Wrth egluro ei benderfyniad i'r achwynydd, dywedodd y Comisiynydd, 'Diben cynnal ymchwiliad yw dyfarnu ar gydymffurfiaeth hefo safonau'r Gymraeg, ac os oes methiant wedi bod i gydymffurfio, fy ngalluogi i weithredu ymhellach er mwyn newid ymddygiad y sefydliad cyfrifol. Mae hynny er mwyn sicrhau nad yw'r methiant yn parhau neu'n digwydd eto. Yn yr achos hwn, er ei fod yn ymddangos ar yr wyneb fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg drwy gyhoeddi testun Saesneg cyn y testun Cymraeg, mae'n ymddangos fod ganddo resymau cymhellol dros wneud hynny, sef diogelu'r cyhoedd, ac nad oes angen cynnal ymchwiliad er mwyn cymryd camau i sicrhau newid yn ymddygiad y Cyngor.'

Roedd yr achwynydd yn dadlau fod y Comisiynydd yn methu â chyflawni ei swyddogaethau dan Fesur y Gymraeg, a'i fod yn gyfrifol am i'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafril na'r Saesneg. Dadleuodd fod methiant y Comisiynydd i ymchwilio wedi arwain at fethiannau pellach ar ôl iddo gyflwyno ei gŵyn.

Penderfynodd y Tribiwnlys fod y ffactorau yr oedd y Comisiynydd wedi eu hystyried yn rhai rhesymol a rhesymegol wrth ddefnyddio ei

ddisgresiwn i ymchwilio ai peidio. Wrth egluro ei benderfyniad, dywedodd y Tribiwnlys fod sefyllfa COVID-19 ar ddechrau Ebrill 2020 wedi effeithio ar bawb a phopeth. Dywedodd hefyd fod y sefyllfa yn unigryw ac wedi effeithio ar feddylfryd ac effeithiolrwydd unigolion a sefydliadau.

Gweithio'n gyfochrog ag Ombwdsryn a Chomisiynydd

Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac Archwilio Cymru i drafod materion strategol a gweithredol. Mae swyddogion yn mynychu rhwydweithiau a chyfarfodydd o sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ar draws y meysydd cyllid, adnoddau dynol, diogelu data, a thechnoleg gwybodaeth.

Mae'r Comisiynydd yn aelod o Banel Cyngori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.



Yn ôl i fynegai
adran

Y gallu i ymdrin â risg

Mae'r system rheoli risg yn cael ei harwain gan y Tîm Rheoli ac mae'n cael ei hardystio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Yr Uwch Swyddog Cyllid ac Adnoddau yw Rheolwr Risg y sefydliad. Cynhelir hyfforddiant sefydlu ar ymwybyddiaeth risg ar gyfer swyddogion newydd, y rheini'n dychwelyd o gyfnodau absenoldeb estynedig, a swyddogion yn ymgymryd â chyfrifoldebau newydd.

Y fframwaith risg a rheoli

Mae'r Comisiynydd yn rheoli risg ar lefel strategol a gweithredol. Rydym yn adolygu risgiau strwythuredig fel rhan o'r adolygiadau cynnydd chwarterol ar y cynllun gweithredol. Caiff y risgiau gweithredol allweddol o'r adolygiadau hyn eu hymgorffori i'r Gofrestr Risg Strategol. Yn arferol, mae'r Rheolwr Risg yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r risgiau strategol sy'n effeithio ar y sefydliad yn ei gyfanrwydd bob 6 mis; gyda'r rhain yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr Risg Strategol. Yna, cynhelir sesiwn adolygu a herio gyda'r Comisiynydd.

Cyflwynir y Gofrestr Risg Strategol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ddwywaith y flwyddyn, yn unol â chylch gorchwyl y pwyllgor. Mae'r Cofrestrau Risg Gweithredol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg unwaith y flwyddyn. Caiff risgiau perthnasol eu nodi ym mhob papur a gyflwynir i'r Tîm Rheoli. Mae hynny yn ei dro yn atgoffa swyddogion i adnabod a rheoli'r risgiau. Nodir heriau sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad ar dudalen 6.

Yn dilyn yr ymosodiad seibr a cholled gwybodaeth, ni fu adolygiad ffurfiol o'r Gofrestr Risg Strategol ym mis Ionawr 2021 ac felly ni chafodd y gofrestr ei chyflwyno i'r pwyllgor ym mis Mawrth 2021. Cynhelir adolygiad ffurfiol yn ystod haf 2021.

Adolygiad effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system ddiogel o reolaeth fewnol. I ddatblygu a chynnal y system, rwy'n ystyried mewnbwn y Tîm Rheoli a'r archwilyr mewnol, a sylwadau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheolaeth ac mewn adroddiadau eraill.



Archwiliwyd y meysydd gwaith canlynol, a oedd wedi eu cynnwys yn y cynllun archwilio mewnol blynyddol ar gyfer 2020-21, a derbyniwyd adroddiadau arnynt.

Maes	Math o adroddiad	Lefel sicrwydd	Nifer yr argymhellion
Rheolaeth Ariannol – gwiriad iechyd	Sicrwydd	Sylweddol	0
Presenoldeb, Rheoli Absenoldeb a Lles	Sicrwydd	Sylweddol	0
Llywodraethu – Panel Cyngori	Sicrwydd	Cyfyngedig	8
Prosiect TG – Caffael	Sicrwydd	Sylweddol	0
Ymchwilio i Gwynion	Cydymffurfiaeth	Sylweddol	1
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Sicrwydd	Sylweddol	1
Rheolaeth Ariannol – adfer systemau	Sicrwydd	Sylweddol	0

Yn eu hadroddiadau sicrwydd yn 2020-21 gwnaeth yr archwilyr mewnol argymhellion ar sut i wneud gwelliannau pellach i'r system reolaeth fewnol. Rwyf wedi ymateb i'w hargymhellion ac wedi cytuno ar raglen o welliant parhaus.

Mae'r archwilyr mewnol wedi datgan yn eu hadroddiad blynyddol eu 'bod yn fodlon, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan Gomisiynydd y Gymraeg brosesau rheoli risg, rheolaeth gyffredinol a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith.' Fodd bynnag, maent wedi datgan

bod graddau eu barn gyffredinol yn gyfyngedig oherwydd y golled data sylweddol yn dilyn yr ymosodiad seibr. Maent hefyd yn datgan bod y gwaith archwilio a wnaed yn dilyn yr ymosodiad yn rhoi sicrwydd bod camau priodol yn cael eu cymryd i adfer systemau a rheolaethau, er nad yw'n rhoi sicrwydd llwyr fod systemau wedi'u hadfer yn llawn nac yn gywir.

Rwy'n derbyn ei bod yn anochel bod yr archwilyr mewnol wedi nodi barn cyfyngedig yn eu hadroddiad blynyddol oherwydd effaith y colled data. Ers yr ymosodiad mae

gwaith sylweddol wedi ei gyflawni i osod amgylchedd ac adnoddau TG diogel. Mae'r staff ar draws y sefydliad wedi adfer systemau a phrosesau ac yn datblygu rhai newydd yn ôl y gofyn. Roedd derbyn adroddiad wedi'r ymosodiad yn rhoi sicrwydd sylweddol ar adfer y systemau ariannol, heb fod unrhyw argymhellion wedi eu codi, yn dyst i waith diwyd y staff wedi ei gyflawni dan system o reolaeth fewnol gadarn.



Yn ôl i fynegai
adran

Effeithiolrwydd o drefniadau chwythu'r chwiban

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am roi trefniadau mewn lle ar gyfer llywodraethu a gwarchod adnoddau. Mater o arfer da gan gyflogwyr yw gosod gweithdrefnau chwythu'r chwiban mewnol. Cymeradwywyd y Polisi Chwythu'r Chwiban C gan y Tîm Rheoli ym mis Medi 2018. Mae manylion cyswllt Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ac aelodau o'r tîm archwilio mewnol yn cael eu cynnwys yn y polisi fel unigolion y gall swyddogion godi pryderon â nhw. Ni adroddwyd unrhyw ddigwyddiad yn ystod y flwyddyn o bryderon dan y polisi chwythu chwiban.

Bu 2020-21 yn flwyddyn heriol, ond serch hynny buom yn ymatebol i'r newid i'n ffordd o weithio ddiwedd mis Mawrth 2020 gan fynd ati i wneud penderfyniadau i addasu cynlluniau gwaith yn gyflym a chanolbwyntio ar gyflawni. Bu'r ymosodiad seibr yn ergyd ddifrifol ac o ganlyniad ni fu modd gweithredu yn y ffordd arferol yn ystod mis Rhagfyr 2020 ac i raddau ddechrau mis Ionawr 2021 – yn

anorfod, ffocws y cyfnod hwn oedd adfer ac ail godi.

Mae gan y Comisiynydd weithdrefnau llywodraethiant addas mewn lle. Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal safonau a lle'n bosibl i wella'r trefniadau hyn drwy:

- roi sylw i faterion yn codi gan adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol;
- parhau i reoli ac i wella perfformiad adrodd a rhoi ffocws ar risgiau sydd wedi eu hadnabod, a;
- monitro'r gwaith o gynllunio gweithgareddau er mwyn sicrhau bod modd i'r Tîm Rheoli wneud penderfyniadau er mwyn gwella ei ddarpariaeth i unigolion.

Swyddog Cyfrifyddu
Dirprwy Gomisiynydd
y Gymraeg



Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff

Cytundebau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 yn gofyn bod penodiadau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan y swyddogion yn yr adroddiad hwn benodiadau sy'n ben agored. Byddai ymadawiadau cynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at yr unigolyn yn derbyn iawndal fel nodir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae swyddogion Comisiynydd y Gymraeg yn parhau ar amodau a thelerau sy'n cyfateb i amodau a thelerau Llywodraeth Cymru. Dymuniad y Comisiynydd yw parhau â'r un amodau a thelerau.

Telir aelodau'r Panel Cynghori, a benodwyd gan Weinidogion Cymru, yn unol â chyfraddau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Telir aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a benodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar yr un raddfa ag aelodau'r Panel Cynghori.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu Cynllun Rheoli Perfformiad ar gyfer ei holl swyddogion sy'n cyfateb i'r cynllun a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Ni chyplysir taliadau cydnabyddiaeth â pherfformiad ar gyfer swyddogion sydd yn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd, er gall y cynnydd yn rhychwant y tâl gael ei hepgor pan nad yw'r gofynion perfformiad sylfaenol wedi eu bodloni.

Ar y cyfan, cyflogir swyddogion (gan gynnwys uwch swyddogion) i swyddi parhaol. Mae cyfnodau rhybudd yn amrywio o bedair wythnos i dri mis, gan ddibynnu ar lefel a hyd gwasanaeth.

Cydraddoldeb yn y gweithle

Mae'r Comisiynydd yn gwrthwynebu'n llwyr unrhyw wahaniaethu ar ba bynnag sail. Gweithredir prosesau teg a chyson wrth ddewis a dethol swyddogion newydd.

Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau ffurflen monitro cyfle cyfartal fel rhan o'r broses ymgeisio. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu cynllun cyfweliad gwarantedig i unrhyw un sydd ag anabledd, fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac sy'n cyrraedd y gofynion hanfodol ar gyfer y swydd.

Wrth ddefnyddio arferion cyflogaeth teg a gwrthrychol, bydd y Comisiynydd yn sicrhau bod swyddogion yn cael eu trin yn deg a gyda pharch yn y gweithle, ac yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu ac i gyflawni i'w potensial llawn. Byddai addasiadau rhesymol a/neu hyfforddiant yn cael eu darparu ar gyfer swyddogion a ddaeth yn bobl ag anabledd yn ystod eu cyflogaeth gyda'r Comisiynydd.



Taliadau Cydnabyddiaeth (*)

(*) Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad

Rhestrir yn yr adrannau sy'n dilyn daliadau cydnabyddiaeth a diddordebau pensiwn y Comisiynydd a'r cyfarwyddwyr sydd ag awdurdod neu sy'n gyfrifol am arwain a rheoli prif weithgareddau'r Comisiynydd:

	Cyflog (£000)		¹ Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf)		Cyfanswm (£000)	
	2020-21	2019-20	2020-21	2019-20	2020-21	2019-20
Aled Roberts	95-100	90-95	54,000	36,000	145-150	125-130
Gwenith Price ²	65-70	65-70	31,000	25,000	95-100	85-90
Dyfan Sion	60-65	55-60	28,000	24,000	85-90	80-85

¹ Caiff gwerth y buddion pensiwn ei gyfrifo fel a ganlyn: (cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn* x20) + (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad*) - (cyfraniadau a wneir gan aelod) *ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

Caiff gwerth buddion pensiwn ei gyfrifo gan MyCSP, sefydliad sydd yn gyfrifol am weinyddu Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar ran y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan

Gomisiynydd y Gymraeg unrhyw ddylanwad dros y cyfrifo na'r symiau a adroddwyd. Nid yw hwn yn swm y mae'r sefydliad wedi ei dalu i swyddog yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau mewn cyflog swyddog, p'un a ydyw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog yn ogystal â ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfarwydd.

² Mae'r cyfarwyddwr yn derbyn lwfans o 10% o'r cyflog am ddirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfnodau absenoldeb neu ar gais y Comisiynydd.



Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, goramser a lwfans cyfrifoldeb pan fo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn wedi ei seilio ar daliadau cronedig gan Gomisiynydd y Gymraeg a gofnodwyd yn y cyfrifon hyn.

Penodwyd Aled Roberts fel Comisiynydd y Gymraeg o 1 Ebrill 2019 ar gytundeb saith mlynedd gan Brif Weinidog Cymru yn unol ag Atodlen 1 Paragraffau 3(1) a 6(1) Mesur y Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Wrth bennu unrhyw gynnydd blynyddol yn nhâl y Comisiynydd, bydd Prif Weinidog Cymru yn ystyried argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB), corff sy'n cynghori Prif Weinidog y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig ar lefelau tâl y sector cyhoeddus.

Tâl yn seiliedig â pherfformiad

Ni wnaed taliadau yn seiliedig ar berfformiad na thaliadau bonws yn ystod 2020-21 i uwch swyddogion (2019-20: £0).

Buddion mewn da

Mae gwerth ariannol buddion mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac a ystyrir gan Gyllid a Thollau EM yn daliad trethadwy. Ni wnaed buddion mewn da yn ystod 2020-21 i uwch swyddogion (2019-20: £0).

Trefniadau oddi ar y gyflogres

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau i unigolion dan drefniadau oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021 (2019-20: £0).

Ymgynghorwyr

Gwnaethpwyd taliadau o £130,000 i ymgynghorwyr yn ystod y flwyddyn (2019-20: £12,000). Talwyd £101,000 i gynnal darganfyddiad, dylunio, adeiladu a gosod isadeiledd a gwasanaethau TG newydd y sefydliad, yn unol â strategaeth TG y Comisiynydd. Hefyd talwyd £29,000 i gwmni i ddatblygu gwefan newydd y Comisiynydd. Ceir rhagor o fanylion ar dudalen 41.



Yn ôl i fynegai
adran

Tâl cydnabyddiaeth: amrediad a chanolrif

Gofynnir i gyrff sy'n adrodd ddatgelu amrediad tâl swyddogion a'r berthynas rhwng tâl y swyddog uchaf ei dâl yn eu sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad.

	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2020
Band cyflog (£000) y swyddog uchaf ei dâl (Comisiynydd)	95-100	90-95
Tâl canolrif y gweithlu (£)	37,410	36,500
Cymhareb canolrif tâl y gweithlu â'r swyddog uchaf ei dâl	2.61	2.67
Rhychwant tâl uchaf (ac eithrio'r Comisiynydd)	66,913	65,285
Rhychwant tâl isaf	23,830	24,415

Cyfrifir cyfanswm canolrifol y gydnabyddiaeth drwy ddefnyddio tâl cywerth â llawn amser (cyflog gros) yr holl swyddogion, heb gynnwys y Comisiynydd, a hynny ar y dyddiad adrodd.



Yn ôl i fynegai
adran

Enw a theitl	Cyfanswm y pensiwn cronedig a chyfandaliad perthnasol ar oedran ymddeol ar 31/03/21	Cynnydd Gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad perthnasol ar oedran ymddeol	Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod 31/03/21	Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod 31/03/20	Cynnydd Gwirioneddol yng Ngwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod	Cyfraniad y cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth
	£000	£000	£000	£000	£000	£100 agosaf
Aled Roberts	5-10	5.0-7.5	116	35	23	—
Gwenith Price	25-30	0.0-2.5	514	474	21	—
Dyfan Sion	20-25	0.0-2.5	262	236	14	—

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ers 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sydd yn darparu buddiannau ar sail cyflog holl yrfa gydag oedran ymddeol arferol cydradd ag Oedran Pensiwn Statudol yr aelod (neu 65 os yn hŷn). O'r dyddiad hwnnw ymaelododd pob gwas sifil a benodwyd o'r newydd a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae gan

y PGPGS bedair adran: 3 yn darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (**classic**, **premium** neu **classic plus**) gydag oedran ymddeol arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog holl yrfa (**nuvos**) gydag oedran ymddeol arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi eu hariannu, Senedd y Deyrnas Unedig sy'n diwallu costau'r buddion bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy o dan **classic**, **premium**, **classic plus**, **nuvos** ac **alpha** yn flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Parhaodd aelodau'r PGPGS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran

ymddeol arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PGPGS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran ymddeol arferol ar 1 Ebrill 2012 yn ymuno ag **alpha** rhywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu cael gwared ar y gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y dull y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwyliar, maes o law, y gallai aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd



Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn - gweler uchod). Mae buddiannau PGPGS pob aelod sydd yn newid i **alpha** yn cael eu 'bancio', gyda buddiannau blaenorol y rhai yn un o'r adrannau cyflog terfynol y PGPGS yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn adeiladwyd yn PGPGS neu **alpha** - fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PGPGS ac **alpha** y swm a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun.) Gall aelodau a ymaelododd â'r cynllun o fis Hydref 2002 ddewis rhwng ymaelodi â'r trefniant budd diffiniedig priodol neu ymaelodi â phensiwn rhanddeiliad (pwrcasu ariannol) gyda chyfraniad ystyrlon gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partnership**).

Pennir cyfraniadau'r cyflogai yn ddibynnol ar eu cyflog ac maent yn amrywio rhwng 4.60% ac 8.05% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer **classic**, **premium**, **classic plus**, **nuvos** ac **alpha**. Bydd buddion y cynllun **classic** yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 80 o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gywerth â thair blynedd o bensiwn dechreuol yn daladwy adeg ymddeol. Ar gyfer

premium, bydd buddion yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, ni cheir cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae **classic plus** yn gynllun cymysg, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo'n fras fel **classic**, a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrif fel **premium**. Yn **nuvos**, mae aelod yn adeiladu pensiwn sydd wedi ei seilio ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff cyfrif pensiwn cyflogadwy'r aelod ei gredydu â 2.3% o gyflog pensiynadwy'r flwyddyn gynllun honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddiannau **alpha** yn cronni yn yr un modd â **nuvos** ac eithrio bod y gyfradd cronni yn 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn **partnership** yn drefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod). Nid

oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle byddant yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am sicrwydd budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad ar sail salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran ymddeol, neu'n syth wedi iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os bydd eisoes wedi cyrraedd yr oedran ymddeol. Yr oedran ymddeol yw 60 ar gyfer aelodau **classic**, **premium** a **classic plus**, a 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, a'r uchaf o 65 neu'r Oedran Ymddeol Statudol ar gyfer aelodau **alpha**. (Mae'r symiau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PGPGS neu **alpha** - fel y bo'n briodol. Lle bo gan y swyddog buddiannau yn PGPGS ac **alpha** y swm a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun, ond nodir gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk



Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Ystyr Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (GTGAP) yw'r gwerth cyfalaf wedi ei asesu gan actwari o fuddion cynllun pensiwn sydd wedi eu cronni gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Y buddion y rhoddir gwerth arnynt yw buddion cronedig yr aelod a phensiwn cymar amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTGAP yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant er mwyn sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall lle bydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, ac nid yn unig eu gwasanaeth mewn swyddogaeth uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn arall a gronnir i'r aelod o ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi pwrcasu budd pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir

GTGAPau yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (fel y'u diwygiwyd) 2008, ond nid ydynt yn ystyried unrhyw wir ostyngiad neu ostyngiad potensial i fudd-daliadau sy'n deillio o'r Dreth Lwfans dros Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir budd-daliadau pensiwn.

Cynnydd gwirioneddol mewn GTGAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTGAP sydd wedi ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer cychwyn a diwedd y cyfnod.

Rhwymedigaethau pensiwn

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac yn nodyn 1.8 i'r cyfrifon.



Yn ôl i fynegai
adran

Adroddiad staff

Demograffeg oedran/rhyw'r gweithlu

Oedran cyfartalog swyddogion Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2021 oedd 41 mlwydd oed (2019-20: 38 mlwydd oed).

Crynoir demograffeg rhyw y cyfarwyddwyr a'r swyddogion ar 31 Mawrth 2021 yn y tabl isod:

	31 Mawrth 2021		31 Mawrth 2020	
	Gwryw %	Menyw %	Gwryw %	Menyw %
Comisiynydd a'r Cyfarwyddwyr	66.7	33.3	66.7	33.3
Swyddogion eraill	31.8	68.2	34.1	65.9
Cyfanswm	34.0	66.0	36.4	63.6

Bwlch tâl ar sail rhyw

Crynoir y bwlch tâl ar sail rhyw gweithlu Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2021 yn y tabl isod:

	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2020
Bwlch tâl cymedrig ar sail rhyw	13.3%	11.5%
Canolrif y bwlch tâl ar sail rhyw	0.0%	0.0%

Mae'r tabl hwn yn dangos bod y bwlch tâl ar sail rhyw ar 31 Mawrth 2021 a 31 Mawrth 2020 o blaid swyddogion gwrywaidd. Y brif ffactor sydd yn dylanwadu ar y bwlch tâl yw mai gwryw yw deiliad swydd y Comisiynydd, sef y swydd â'r tâl uchaf.



Yn ôl i fynegai
adran

Rheoli absenoldeb a phresenoldeb

Cyfanswm y diwrnodau gwaith a gollwyd drwy absenoldeb salwch am y cyfnod 1 Ebrill 2020 hyd 31 Mawrth 2021 oedd 125.5 (2019-20: 185.5). O'r diwrnodau gwaith a gollwyd drwy salwch, roedd 48.2% (2019-20: 46.5%) ohonynt oherwydd absenoldeb tymor byr a 51.8% (2019-20: 53.5%) oherwydd absenoldeb hirdymor. Diffiniad absenoldeb hirdymor yw absenoldeb o fwy nag 20 diwrnod am yr un rheswm.

Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul pen (cywerth â llawn amser) oedd 3.0 (2019-20: 4.4) a hynny wedi ei seilio ar 42.4 ¹ aelod o staff cywerth â llawn amser (2019-20: 42.3 ¹).

Mae'r Comisiynydd yn nodi'r rhesymau am absenoldeb drwy salwch ac roedd 53% o'r diwrnodau gwaith a gollwyd am resymau iechyd meddwl (2019-20: 40%). Roedd 98% o'r absenoldebau yn rhai tymor hir a 2% yn absenoldebau tymor byr.

Ar gyfartaledd collwyd 7 niwrnod gwaith fesul pen yn y sector cyhoeddus yn 2020 oherwydd salwch, gyda rhesymau iechyd meddwl yn cael eu nodi ar gyfer 15% o absenoldebau ².

Trosiant staff

Roedd cyfradd trosiant staff yn 2020-21 yn 4.6% (2019-20: 9.6%), (2018-19: 8.6%), (2017-18: 12.6%), a (2016-17: 14.5%).

Cofrestr rhoddion

Mae gan y Comisiynydd gofrestr rhoddion. Nid oes unrhyw eitem a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei hystyried o bwys materol fel bo angen ei gynnwys yn y datganiadau ariannol hyn.

¹ At bwrpas y datgeliad mae aelodau staff cywerth â llawn amser yn cynnwys Comisiynydd y Gymraeg a 41.4 swyddog cywerth â llawn amser (2019-20: 41.3)

² Arolwg y Gweithlu – Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol



Yn ôl i fynegai
adran

Niferoedd swyddogion a chostau perthnasol

	2020-21 £000	2019-20 £000
Costau swyddogion		
Cyflogau (cytundebau parhaol)	1,684	1,650
Cyflogau (cytundebau cyfnod penodol)	46	21
Costau nawdd cymdeithasol	156	151
Costau pensiwn	481	460
	2,367	2,282
Ffioedd aelodau o bwyllgorau ⁽¹⁾	10	6
Costau swyddogion drwy asiantaeth	35	5
Cyfanswm	2,412	2,293
Niferoedd swyddogion	2020-21	2019-20
Comisiynydd y Gymraeg	1.0	1.0
Swyddogion a gyflogir ar gytundebau parhaol	40.1	40.3
Swyddogion a gyflogir ar gytundebau cyfnod penodol	1.3	1.0
Swyddogion drwy asiantaeth	0.5	0.2
Nifer cyfartalog ⁽²⁾	42.9	42.5
 Aelodau o bwyllgorau ⁽¹⁾	 8.0	 7.0

1 – Mae'r aelodau yn cynnwys 4.25 aelod o'r Panel Cyngori (2019-20: 3.5) a 3.75 aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg (2019-20: 3.5) ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn. Talwyd ffioedd o £256 y dydd i'r Cadeirydd a £198 y dydd i aelodau eraill.

2 – Nifer cywerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn.



Ceir gwybodaeth am fuddiannau cyflog a phensiwn y Comisiynydd a uwch swyddogion y Comisiynydd ar dudalennau 72 i 78.

Pensiynau

Ceir manylion pensiynau ar dudalennau 76 i 78.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) ac **alpha** yn gynlluniau buddiannau diffiniedig heb ei ariannu ar gyfer nifer o gyflogwyr ac o ganlyniad nid oes modd i Gomisiynydd y Gymraeg adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Pennodd actiwari'r cynllun werth y cynllun ar 31 Mawrth 2012. Mae gwybodaeth ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Civil Superannuation (www.civilservice.gov.uk/pensions).

Ar gyfer 2020-21, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £472,000 (2019-20 : £456,000) yn daladwy i gynlluniau pensiwn y gwasanaeth sifil ar un o bedair graddfa rhwng 26.6% a 30.3% (2019-20: 26.6% i 30.3%) o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, gan amlaf bob pedair blynedd, yn dilyn prisiant llawn o'r cynllun. Diwygiwyd y bandiau cyflog a chyfraddau'r cyfraniadau ar gyfer 2020-21. Mae cyfraddau'r cyfraniadau yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gael eu cronni, nid pan delir y costau mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

Gall swyddogion ddewis agor cyfrif pensiwn **partnership**, sef cynllun pensiwn rhanddeiliad â chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau'r

cyflogwr o £0 (2019-20: £300) i ddarparwyr pensiwn rhanddeiliad penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn ddibynnol ar oedran ac ar raddfa rhwng 8.0% a 14.75% o gyflog pensiynadwy. Mae'r cyflogwr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol o hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal roedd cyfraniadau cyflogwr o £0 (2019-20: £15), 0.5% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i PGPGS i warchod rhag cost darparu yn y dyfodol am gyfandaliadau buddiant marwolaeth mewn swydd neu ymddeoliad o achos afiechyd y cyflogeion hyn. Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwr pensiwn **partnership** ar y dyddiad adrodd oedd £0. Y cyfraniadau a ragdalwyd ar y dyddiad hwnnw oedd £0.

Nid oes unrhyw berson wedi ymddeol ar sail afiechyd yn ystod y flwyddyn.

A male healthcare professional with short brown hair, wearing a light blue surgical mask, a black polo shirt with a stethoscope and a lanyard with a badge, and blue trousers. He is sitting in a black office chair at a wooden desk. His hands are clasped in his lap. In the background, there is a computer monitor, a keyboard, and a mouse on the desk. Above the desk, there are wooden shelves with various items, including books and a small basket. To the right, a purple checkered shirt is visible, suggesting another person is present. The overall setting appears to be a clinical or office environment.

**Cynhaliom
astudiaeth
thematig ar
effaith COVID-19
ar ddarpariaeth
Gymraeg
sefydliadau
cyhoeddus.**



Yn ôl i fynegai
adran

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 18(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg lunio cyfrifon o ran pob blwyddyn ariannol yn unol â'r ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddiadau Cyfrifon a roddir, gyda chydysyniad Trysorlys EM, gan Weinidogion Cymru. Llunnir y cyfrifon ar sail gronadol, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Comisiynydd ac o'r gwariant net, datganiad sefyllfa ariannol, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr a'r llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y *Government Financial Reporting Manual* ac yn arbennig i:

- o ufuddhau i'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cadw cyfrifon a datgeliadau, a gweithredu polisiau cyfrifo perthnasol a'u defnyddio'n gyson;
- o llunio penderfyniadau ac amcangyfrifon mewn modd rhesymol;
- o datgan a gadwyd at y safonau cyfrifo perthnasol a osodwyd yn y *Government Financial Reporting Manual*, a datgelu ac esbonio unrhyw wyro materol a welir yn y cyfrifon;

- o llunio cyfrifon ar sail bod yn fusnes gweithredol; a
- o chadarnhau bod yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon hyn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon ac am y farn sydd ei hangen er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 16(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, tros gadw cofnodion priodol ac i warchod asedau Comisiynydd y Gymraeg, wedi eu nodi yn y memorandwm, Managing Public Money, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu gallaf gadarnhau:

- o fy mod wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi ei gymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr

Comisiynydd y Gymraeg yn ymwybodol o'r wybodaeth honno; a

- o hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohonynt.

Aled Roberts yw'r Swyddog Cyfrifyddu perthnasol ar gyfer y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Ar adeg cyhoeddi'r Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon, roedd ar gyfnod absenoldeb salwch tymor hir. Fel y Swyddog Cyfrifyddu gweithredol rwy'n bersonol gyfrifol am lofnodi'r cyfrifon fel y'u cyflwynwyd.

Gwenith Price

**Swyddog Cyfrifyddu
Dirprwy Gomisiynydd y
Gymraeg
25 Awst 2021**



Yn ôl i fynegai
adran

Tystysgrif ac adroddiad o'r annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn ar y datganiadau ariannol

Yr wyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod, a'r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- o yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2021 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;

- o wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM; ac
- o wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n

berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.



Yn ôl i fynegai
adran

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gefais wrth i mi gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn am faterion eraill

Gan nad yw deddfwriaeth a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn nodi cynnwys a ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, nid wyf yn gallu cadarnhau bod yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol wedi cael ei pharatoi yn unol â'r canllawiau.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes gofynion deddfwriaethol i baratoi Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi paratoi adroddiad o'r fath ac yn fy marn i mae'r rhan honno y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol a gaiff ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Cyfrifoldebau

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Strategol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;



- o nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gaiff ei harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- o nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddogion Cyfrifyddu, Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan y Mesur hwnnw, am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn Comisiynydd y Gymraeg i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i

barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybair nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae anghysonderau, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau

a rheoliadau. Rwyf yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag anghysonderau, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- o Holi'r rheolwyr, Comisiynydd y Gymraeg a'r Pwyllgor Archwilio a Risg mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Comisiynydd y Gymraeg sy'n ymwneud ag:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.



Yn ôl i fynegai
adran

Cyfrifoldeb
Comisiynydd y
Gymraeg yw cynnal
a chadw a sicrhau
cywirdeb gwefan
y Comisiynydd.
Nid yw'r gwaith y
mae archwilydd yn
ymgymryd ag ef yn
ystyried y materion
hyn ac, oherwydd hyn,
nid yw archwilydd
yn derbyn unrhyw
gyfrifoldeb am unrhyw
newidiadau a allai
fod wedi'u gwneud i'r
datganiadau ariannol
ers iddynt gael eu
cyflwyno am y tro
cyntaf ar y wefan.

- Ystyried fel tîm archwilio sut
a ble allai twyll ddigwydd yn y
datganiadau ariannol ac unrhyw
ddangosyddion posibl o dwyll. Fel
rhan o'r drafodaeth hon, canfûm
botensial ar gyfer twyll megis
postio cofnodion dyddlyfr
anarferol; a
- Chael dealltwriaeth am fframwaith
awdurdod Comisiynydd y
Gymraeg yn ogystal â
fframweithiau cyfreithiol
a rheoleiddiol eraill y mae
Comisiynydd y Gymraeg yn
gweithredu oddi mewn iddynt,
gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r
rheoliadau hynny a gafodd effaith
uniongyrchol ar y datganiadau
ariannol neu a gafodd effaith
sylfaenol ar weithrediadau
Comisiynydd y Gymraeg.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy
ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a
ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y
datganiadau ariannol a phrofi
yn erbyn dogfennaeth ategol i
asesu cydymffurfiaeth â deddfau
a rheoliadau perthnasol a drafodir
uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor
Archwilio a Risg am ymglyfreithiad
a hawliadau gwirioneddol a
phosibl;

- darllen cofnodion cyfarfodydd y
Pwyllgor Archwilio a Risg a'r
Panel Cyngori; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll
trwy wrthwneud rheolaethau gan
reolwyr, profi priodoldeb
cofnodion dyddlyfr ac addasiadau
eraill; asesu a yw'r dyfarniadau
a wnaed wrth lunio amcangyfrifon
cyfrifyddu'n rhoi arwydd o
wyrduedd posibl; a gwerthuso'r
rhesymeg fusnes dros unrhyw
dafodion arwyddocaol sy'n
anarferol neu y tu allan i gwrs
arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a
rheoliadau dynodedig perthnasol a
risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r
tîm archwilio ac aros yn effro i
unrhyw arwyddion o dwyll neu
ddiffyg cydymffurfio â deddfau a
rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy
ngweithdrefnau'n gallu canfod
afreoleidd-dra, gan gynnwys
twyll, gan yr anhawster cynhenid
o ran canfod afreoleidd-dra,
effeithiolrwydd rheolaethau
Comisiynydd y Gymraeg, a
natur, amseriad a hyd a lled
y gweithdrefnau archwilio a
gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o
gyfrifoldebau'r archwilydd am
archwilio'r datganiadau ariannol
ar wefan y Cyngor Adrodd
Ariannol yn [www.frc.org.uk/
auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r
disgrifiad hwn yn rhan o'm
hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra
Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol
am sicrhau rheoleidd-dra trafodion
ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth
ddigonol i roi sicrwydd rhesymol
bod y gwariant a'r incwm wedi
cael eu cymhwyso at y dibenion
a fwriadwyd gan y Senedd a
bod y trafodion ariannol yn
cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu
llywodraethu.

Adroddiad

Mae adroddiad sylweddol ar
wahân yn cael ei wneud. Gweler fy
adroddiad ar dudalen 89.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
31 Awst 2021

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ



Yn ôl i fynegai
adran

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

Cyflwyniad

Roedd systemau TG Comisiynydd y Gymraeg yn destun ymosodiad seibr ym mis Rhagfyr 2020.

Rwyf wedi penderfynu cyhoeddi adroddiad naratif ochr yn ochr â'm tystysgrif archwilio i dynnu sylw at effaith yr ymosodiad seibr fel y nodir ar dudalennau 59 a 60 o Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg.

Mae'r ymosodiad seibr ar Comisiynydd y Gymraeg yn dangos yr effaith sylweddol y gall ymosodiad o'r fath ei chael ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, risg a ddangoswyd yn fy astudiaeth genedlaethol yn 2020 ar seiberwydd.

Ymosodiad Seibr

Dioddefodd Comisiynydd y Gymraeg ymosodiad seibr difrifol ym mis Rhagfyr 2020 gan achosi aflonyddwch a cholled eang o'i systemau TG, gan gynnwys y cyfrifylfr ariannol a'r systemau cyflogres. Er i Gomisiynydd y Gymraeg lwyddo i weithredu cyfrifylfr ariannol a system gyflogres newydd erbyn mis Chwefror 2021, roedd effaith yr ymosodiad seibr yn sylweddol. Mae wedi gofyn am gryn dipyn o waith ychwanegol gan y Comisiynydd a'i staff i sefydlu systemau newydd ac i adfer neu ail-greu'r wybodaeth a gollwyd.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn parhau i geisio adennill y wybodaeth a gollwyd a chymerwyd camau ar unwaith i leihau'r risg o ymosodiad o'r fath yn y dyfodol. Wrth sefydlu'r systemau newydd, cafodd Comisiynydd y Gymraeg gyngor arbenigol ar seibrddiogelwch. Comisiynwyd adolygiad allanol hefyd i benderfynu sut y llwyddodd yr ymosodiad i lwyddo.

Adrian Crompton

**Archwilydd Cyffredinol Cymru
31 Awst 2021**

**Rydym yn
gyfrifol am lunio
argymhellion am
sut orau i sillafu
enwau lleoedd
Cymru.**





Yn ôl i'r prif
fynegai

	Tudalen
Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr	92
Datganiad Sefyllfa Ariannol	93
Datganiad Llifoedd Arian	94
Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr	95
Nodiadau'r Cyfrifon	96

Rhan 3 Datganiadau Ariannol





Yn ôl i fynegai
adran

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021

			2020-21		2019-20
	Nodiadau	£000	£000	£000	£000
Gwariant					
Costau swyddogion	3	2,412		2,293	
Gweinyddu	4	650		678	
Prosiect TG	5	119		-	
Gwariant rhaglenni eraill	6	58		85	
Dibrisiant ac amorteiddiad	7,8	50		39	
			3,289		3,095
Incwm			—		—
Gwariant net			3,289		3,095
Llog a dderbyniwyd			—		(2)
Gwariant net ar ôl llog			3,289		3,093

Mae'r holl weithgareddau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn parhau.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 105 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



Yn ôl i fynegai
adran

Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2021

	Nodiadau	31 Mawrth 2021		31 Mawrth 2020	
		£000	£000	£000	£000
Asedau nad ydynt yn gyfredol					
Asedau anghyffyrddadwy	7	32		6	
Eiddo, offer a pheiriannau	8	200		146	
			232		152
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol					
Asedau cyfredol					
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	9	52		95	
Arian parod ac arian cywerth	10	994		740	
			1,045		835
Cyfanswm asedau cyfredol					
			1,277		987
Rhwymedigaethau cyfredol					
Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	11	(401)		(300)	
			(401)		(300)
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol					
			876		687
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau cyfredol net					
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol					
Darpariaethau	12	(180)		(185)	
			(180)		(185)
Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol					
			697		502
Asedau llai rhwymedigaethau					
Ecwiti'r trethdalwyr					
Cronfa gyffredinol			697		502
			697		502

Gwenith Price

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 105 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae'r datganiadau ariannol ar dudalennau 92 i 95 wedi eu cymeradwyo gan y Swyddog Cyfrifyddu ac wedi eu llofnodi gan:

Gwenith Price: Swyddog Cyfrifyddu Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg 25 Awst 2021



Datganiad Llifoedd Arian am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021

		2020-21 £000	2019-20 £000
	Nodiadau		
Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu			
Gwariant net		(3,289)	(3,095)
Amorteiddiad ar asedau anghyffyrddadwy	7	3	4
Dibrisiant ar eiddo, offer a pheiriannau	8	47	35
Colled ar werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol		10	–
Lleihad / (Cynnydd) mewn derbyniadau masnach ac asedau cyfredol eraill	9	43	(18)
Cynnydd / (Lleihad) mewn taliadau masnach a thaliadau eraill	11	101	49
(Lleihad) / Cynnydd mewn darpariaethau	12	(5)	10
(All-lif) arian net o weithgareddau gweithredu		(3,090)	(3,015)
Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		–	2
Taliad i gaffael asedau anghyffyrddadwy	7	(29)	–
Taliad i gaffael eiddo, offer a pheiriannau	8	(111)	(109)
Derbyniadau am werthiant eiddo, offer a pheiriannau		–	–
(All-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi		(140)	(107)
Llifoedd arian o weithgareddau cyllido			
Cyllido gan Weinidogion Cymru	16	3,484	3,157
Cyllido net		3,484	3,157
Cynnydd / (Lleihad) net mewn arian parod ac arian cywerth yn y cyfnod		254	(35)
Arian parod ac arian cywerth ar ddechrau'r cyfnod	10	740	705
Arian parod ac arian cywerth ar ddiwedd y cyfnod	10	994	740

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 105 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



Yn ôl i fynegai
adran

Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021

	Nodiadau	£000
Balans ar 1 Ebrill 2019		438
Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2019-20 (Diffyg) a gadwyd		(3,093)
Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2019-20 Cyllido gan Weinidogion Cymru	16	(3,093)
Balans ar 31 Mawrth 2020		502
Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2020-21 (Diffyg) a gadwyd		(3,289)
Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2020-21 Cyllido gan Weinidogion Cymru	16	(3,289)
Balans ar 31 Mawrth 2021		697

Mae'r nodiadau ar dudalennau 96 i 105 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â *Government Financial Reporting Manual (FReM) 2020-21* a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, ac unrhyw Gyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r polisïau cyfrifyddol a gynhelir yn y FReM yn gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), wedi eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddol, dewiswyd y polisi cyfrifyddol a ystyrir fwyaf addas ar gyfer amgylchiadau neilltuol Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn rhoi barn gwir a theg. Disgrifir isod y polisïau neilltuol a ddilynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ddelio â'r eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

1 Datganiad polisïau cyfrifo

(1.1) Confensiynau cyfrifo

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Nid yw'r Comisiynydd wedi ailbrizio unrhyw eiddo, offer a pheiriannau nac unrhyw asedau anghyffyrddadwy gan nad yw addasiadau ailbrizio, ym marn y Comisiynydd, yn berthnasol.

(1.2) Cyllido

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn symiau gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwariant a dynnir wrth gyflawni'r swyddogaethau. Ystyrir y symiau hyn yn rhai ariannu ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

(1.3) Incwm

Caiff incwm ei gydnabod yn y flwyddyn ariannol y darperir y gwasanaeth. Mae incwm sydd wedi ei anfonebu cyn bod y gwasanaeth wedi ei ddarparu yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

(1.4) Asedau anghyffyrddadwy

Mae asedau sefydlog anghyffyrddadwy dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, yn cael eu cyfalafu. Mae asedau anghyffyrddadwy yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a thrwyddedau eraill. Grwpwyd nifer o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir asedau sefydlog anghyffyrddadwy ar eu cost hanesyddol. Nid yw'r asedau sefydlog anghyffyrddadwy wedi eu hailbrizio, gan na fyddai'r addasiadau o ailbrizio yn berthnasol.

Bydd asedau sefydlog anghyffyrddadwy yn cael eu hamorteiddio drwy randaliadau cyfartal blyneddol dros eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 3 a 10 mlynedd.



Yn ôl i fynegai
adran

(1.5) Eiddo, offer a pheiriannau

Mae eiddo, offer a pheiriannau dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, yn cael eu cyfalafu. Grwpiwyd nifer o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir eiddo, offer a pheiriannau ar eu cost hanesyddol, gan gynnwys costau fel gwaith gosod y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â nhw i'r cyflwr gweithio ar gyfer eu defnydd arfaethedig. Nid yw eiddo, offer a pheiriannau wedi eu hailbrisio, gan na fyddai'r addasiadau o ailbrisio yn berthnasol.

Bydd eiddo, offer a pheiriannau yn cael eu dibrisio drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros hyd y les, neu eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 36 a 90 mis.

(1.6) Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol pan fydd gan Gomisiynydd y Gymraeg rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a bod tebygolrwydd y bydd angen all-lif o fudd economaidd i dalu'r rhwymedigaeth.

(1.7) Treth ar Werth

Nid yw Comisiynydd y Gymraeg wedi cofrestru ar gyfer Treth ar Werth. Adroddir ar bob gwariant a chyfalaf gan gynnwys TAW, os yw'n berthnasol, gan na ellir adennill TAW.

(1.8) Pensiynau

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am pensiynau a buddiannau tebyg i bersonau a gyflogir gan y Comisiynydd ac am gostau gweinyddol sydd i'w priodoli i'r rhwymedigaethau a'u cyflawni.

Mae gweithwyr cyfredol a blaenorol yn dod o dan ddarpariaethau cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff.

(1.9) Buddion cyflogai

Cydnabyddir cyflogau, cyfraniadau yswiriant gwladol, a budd-dal ariannol ac anariannol ar gyfer cyflogeion cyfredol yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr wrth i wasanaethau cyflogeion gael eu cyflawni. Polisi'r Comisiynydd yw cyfrif am absenoldebau tymor byr a ddigolledir (gwyliau blynyddol taladwy) fel rhwymedigaeth (cost cronedig) lle disgwylir setlo'r iawndal absenoldeb o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r cyflogeion yn cyflawni'r gwasanaeth ynddo.

(1.10) Prydlesi gweithredol

Mae rhentolion prydlesi gweithredol wedi eu cyflwyno i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.



Yn ôl i fynegai
adran

2 Gwybodaeth segmentol

Mae gwariant, incwm a llog yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn ymdrin â materion sy'n effeithio ar y Gymraeg a gallu personau yng Nghymru i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond un segment sy'n gweithredu ac fe adlewyrchir hyn yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad Sefyllfa Ariannol a'r nodiadau cysylltiedig.

3 Costau Swyddogion

	2020-21	2019-20
	£000	£000
Swyddogion cyflogedig	2,367	2,282
Ffioedd aelodau o bwyllgorau	10	6
Costau swyddogion drwy asiantaeth	35	5
	2,412	2,293

Mae £34,000 o'r costau staff drwy asiantaeth yn berthnasol i'r prosiect TG, gweler tudalen 41 (2019-20: £0). Ceir manylion costau swyddogion yn yr Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff ar dudalen 81.

4 Gweinyddu

Yr oedd costau gweinyddu yn cynnwys:

	2020-21	2019-20
	£000	£000
Llety - Rhent swyddfa	119	87
Llety - Costau eraill	118	147
Darpariaeth ar gyfer addurno a dadfeiliadau swyddfeydd	—	5
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch	2	80
Hyfforddiant a recriwtio	24	23
Cyfreithiol a phroffesiynol	173	131
Technoleg gwybodaeth a thelathrebu	158	153
Cyfathrebu	13	15
Gwasanaethau archwilwyr (tâl yr archwiliad allanol)	20	15
Costau gweinyddu eraill	23	22
	650	678

Ceir rhagor o fanylion yn y sylwebaeth ar y perfformiad ariannol ar dudalennau 37 i 40.



Yn ôl i fynegai
adran

5 Prosiect TG

Yr oedd costau gweithredu'r prosiect TG yn cynnwys:

	2020-21 £000	2019-20 £000
Costau darganfod a dylunio	22	—
Datblygu a gosod isadeiledd a gwasanaethau	89	—
Trwyddedau	5	—
Hyfforddiant	3	—
	119	—

Ceir rhagor o fanylion yn y sylwebaeth ar y perfformiad ariannol ar dudalennau 40 a 41.

6 Gwariant rhaglenni eraill

Mae'r gwariant yn gysylltiedig â nifer o brosiectau yr ymgwymerwyd â hwy.
Roedd cyfanswm y gwariant yn ystod y flwyddyn yn £58,000 (2019-20: £85,000); ceir rhagor o fanylion ar dudalen 42.



Yn ôl i fynegai
adran

7 Asedau sefydlog anghyffyrddadwy

	Asedau dan ddatblygiad £000	Trwyddedau meddalwedd £000	Trwyddedau £000	Cyfanswm £000
Cost				
Ar 31 Mawrth 2020	–	114	43	157
Ychwanegiadau	29	–	–	29
Gwarediadau	–	(100)	–	(100)
Ar 31 Mawrth 2021	29	14	43	86
Amorteiddiad				
Ar 31 Mawrth 2020	–	112	39	151
Cost am y flwyddyn	–	1	2	3
Gwarediadau	–	(100)	–	(100)
Ar 31 Mawrth 2021	–	13	41	54
Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2021	29	1	2	32
Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2020	–	2	4	6

Mae lefel gwarediadau yn y flwyddyn yn uchel oherwydd cafodd meddalwedd a'r system reoli gwybodaeth eu gwaredu yn dilyn yr ymosodiad seibr ym mis Rhagfyr 2020.



Yn ôl i fynegai
adran

8 Eiddo, offer a pheiriannau

	Celfi a gosodiadau £000	Offer swyddfa £000	Asedau dan ddatblygiad £000	Isadeiledd ac Offer TG £000	Cyfanswm £000
Cost					
Ar 31 Mawrth 2020	426	62	–	302	790
Ychwanegiadau	–	–	20	91	111
Gwarediadau	–	(7)	–	(200)	(207)
Ar 31 Mawrth 2021	426	55	20	193	694
Dibrisiant					
Ar 31 Mawrth 2020	325	62	–	257	644
Cost am y flwyddyn	15	–	–	32	47
Gwarediadau	–	(7)	–	(190)	(197)
Ar 31 Mawrth 2021	340	55	–	99	494
Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2021	86	–	20	94	200
Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2020	101	–	–	45	146

Mae lefel gwarediadau yn y flwyddyn yn uchel oherwydd cafodd asedau isadeiledd ac offer TG y sefydliad eu gwaredu a'u hadnewyddu yn dilyn yr ymosodiad seibr ym mis Rhagfyr 2020. Bu cost dibrisiant cynnar o £10,000 ar yr asedau y'u gwaredwyd.

Cyllido asedau: Nid oedd gan y Comisiynydd brydlesi cyllidol na chontractau Menter Cyllid Preifat. Eiddo'r Comisiynydd oedd yr holl asedau a ddatgelwyd uchod.

Nid oedd ymrwymadau cyfalaf cyfreithiol ar 31 Mawrth 2021 (31 Mawrth 2020: £0).



Yn ôl i fynegai
adran

9 Derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill

Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

Derbyniadau masnachol
Rhagdaliadau

31 Mawrth 2021 £000	31 Mawrth 2020 £000
—	—
52	95
52	95

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn.

10 Arian parod ac arian cywerth

Balans ar 1 Ebrill
Newidiadau net mewn balans arian parod ac arian cywerth
Balans ar 31 Mawrth

2020-21 £000	2019-20 £000
740	705
254	35
994	740

Cafodd arian parod y Comisiynydd ei gadw mewn banc masnachol ar ddiwedd y flwyddyn. Ni ddaliwyd unrhyw arian gan Dâl-feistr Cyffredinol EM ar ddiwedd y flwyddyn.

11 Taliadau masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill

Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

Treth arall a nawdd cymdeithasol
Taliadau masnachol
Croniadau

31 Mawrth 2021 £000	31 Mawrth 2020 £000
45	39
52	89
304	172
401	300

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn.



Yn ôl i fynegai
adran

12 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a phriddiannau

	Arall	Dadfeiliadau ac ailaddurno	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Darpariaeth ar 31 Mawrth 2020	5	180	185
Darparwyd yn y flwyddyn	—	—	—
Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(5)	—	(5)
Newid i'r gyfradd disgownt	—	—	—
Darpariaeth ar 31 Mawrth 2021	—	180	180

Defnyddiwyd cyfradd ddisgowntio, yn glir o CPI, Trysorlys EM ym mis Rhagfyr 2020, sef -1.70% mewn termau real ar gyfer y dadfeiliadau (2019-20: -1.48%).

Gwneir darpariaethau ar gyfer ail-addurno yn ystod tymor y brydles ac ar gyfer dadfeilio, er mwyn dychwelyd yr adeiladau i'w cyflwr gwreiddiol ar derfyn y brydles. Gall yr ymrwymadau hyn newid yn sgil gwybodaeth a digwyddiadau yn y dyfodol a allai achosi newid i'r symiau a ddarparwyd ar sail yr amcangyfrif gorau, ar ddiwedd y cyfnod ariannol. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu hadolygu a'u diweddarau yn ystod y flwyddyn fel sy'n ofynnol dan IAS 37.

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys costau cyfreithiol mewn perthynas â cheisiadau dan ystyriaeth Tribiwnlys y Gymraeg am adolygiad o benderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg neu apelau yn erbyn dyfarniadau'r Comisiynydd. Ceir manylion pellach am y ceisiadau hyn ar wefan Tribiwnlys y Gymraeg.

Dadansoddiad o amseru disgwyliadwy'r rhwymedigaethau

	Arall	Dadfeiliadau ac ailaddurno	Cyfanswm
	£000	£000	£000
O fewn blwyddyn	—	8	8
Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd	—	32	32
Ar ôl pum mlynedd	—	140	140
	—	180	180



13 Ymrwymïadau o dan brydlesi

Mae cyfanswm y taliadau lleiafswm o dan brydlesi gweithredol yn cael ei ddangos yn y tabl isod ar gyfer pob cyfnod.

Mae'r ymrwymïadau o dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:	31 Mawrth	31 Mawrth
Adeiladau	2021	2020
	£000	£000
O fewn blwyddyn	115	115
Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd	425	435
Ar ôl pum mlynedd	257	360
	797	910

Nid yw'r Comisiynydd wedi dechrau ymwneud ag unrhyw brydlesi cyllidol, unrhyw ymrwymïadau o dan contract PFI, nac unrhyw gontractau nad oedd modd eu canslo ag ymrwymïadau cyllidol.

14 Rhwymedigaethau amodol

Mae'r Comisiynydd yn datgelu rhwymedigaethau amodol yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol) lle mae rhwymedigaeth posib yn ddibynnol ar ddigwyddiad yn y dyfodol lle bo ansicrwydd yn ei gylch; neu fod rhwymedigaeth bresennol ond nid yw'r taliad yn debygol neu ni ellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Mae'r Comisiynydd yn datgelu rhwymedigaeth amodol mewn perthynas â hawl gwyliu cyhoeddus a gwyliu braint staff y Comisiynydd yn ystod cyfnodau absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu neu rhiant a rennir. Oherwydd ansicrwydd mewn perthynas â thebygolrwydd gwneud taliad nid yw'r rhwymedigaeth amodol yn fesuradwy.

Nid oedd unrhyw rhwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2020.

15 Offerynnau cyllidol

Oherwydd natur gweithgareddau'r Comisiynydd a'r modd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r Comisiynydd yn agored i lefel uchel o risg ariannol.



16 Trafodion gyda phartïon cysylltiedig

Cytunwyd ar Femorandwm o Gydweithio, dyddiedig 5 Awst 2019, rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2020-21 derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg arian cyllido refeniw o £3.207m (2019-20: £3.157m) ac arian cyfalaf o £0.277m (2019-20: £0) gan Weinidogion Cymru.

17 Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol

Ni chafwyd digwyddiadau ers dyddiad y datganiad sefyllfa ariannol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth y datganiadau ariannol hyn.

18 Effaith safonau cyfrifyddu nad ydynt wedi eu gweithredu

Mae effaith a dehongliad safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond nad ydynt wedi eu gweithredu eto na'u mabwysiadu'n gynnar wedi ei ystyried.

Mae Safon Cyfrifyddu Ariannol Rhyngwladol 16 : Lesoedd (IFRS 16 : Leases) i raddau helaeth yn dileu'r dosbarthiad cyfredol o brydles gyllidol a phrydles weithredol ac yn cyflwyno un model cyfrifyddu ar gyfer prydlesi. Bydd yn ofynnol i ddeiliad prydles gydnabod ased a rhwymedigaeth ar gyfer pob prydles gyda chyfnod o fwy na 12 mis, oni bai bod gwerth isel i'r ased sylfaenol yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

Oherwydd amgylchiadau achosir gan COVID-19, mae Trysorlys EM wedi cytuno gyda'r Financial Reporting Advisory Board (FRAB) y dylid gohirio gweithredu IFRS 16 hyd 01/04/2022 ar gyfer sefydliadau yn y sector gyhoeddus.

Pan fydd y safon cyfrifyddu yn cael ei weithredu, bydd hyn yn cael effaith ar y modd caiff prydlesi adeiladau swyddfa eu cydnabod yn y datganiadau ariannol. Bydd hyn yn arwain at gydnabod 'Ased Hawl i Ddefnydd' a 'Rhwymedigaeth' cyfatebol o tua £667,000.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

0345 6033 221
post@cyg-wlc.cymru

@ComyGymraeg
comisiynyddygyymraeg.cymru